# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
www.ceredigion.gov.uk

Dydd Mawrth, 11 Mai 2021
Kay Davies

**Annwyl Syr/Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir CYFARFOD o'r Cabinet trwy We-Ddarlledu o Bell ar Dydd Mawrth, 18 Mai 2021 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

**1.** **Ymddiheuriadau**

**2.** **Materion Personol**

**3.** **Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

**4.** **Diweddariad ar lafar gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr parthed COVID-19**
**ER GWYBODAETH**

**5.** **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2021 ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny.**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 5 - 14)**

**6.** **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Arbennig y Cabinet a gynhaliwyd ar 30 Mawrth 2021 ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny.**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 15 - 18)**

**7.** **Unrhyw ddeisebau a dderbynwyd: Deiseb ynghylch diogelwch ar ffordd y B4340**
**ER GWYBODAETH (Tudalennau 19 - 22)**

**8.** **Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.**
**ER PENDERFYNIAD**

**9.** **Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar**

**yr agenda.**
**ER PENDERFYNIAD**

**10.** **Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Ysgolion a Diwylliant ynghylch: Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 23 - 58)**

**11.** **Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Ysgolion a Diwylliant ynghylch: Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 59 - 60)**

**12.** **Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Ysgolion a Diwylliant ynghylch: Polisi Gwrth-fwlio Ysgolion Ceredigion.**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 61 - 94)**

**13.** **Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Cyllid a Chaffael ynghylch: Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2021-22 Llywodraeth Cymru**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 95 - 104)**

**14.** **Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Pobl a Threfnidiaeth ynghylch: Polisi Adnoddau Dynol: Polisi’r Gofalwyr gan gynnwys adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 105 - 126)**

**15.** **Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch: Mabwysiadu Coed y Bryn, Aberaeron**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 127 - 138)**

**16.** **Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch: Cludo, didoli ac ailgylchu Deunydd Eildro Sych Cymysg**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 139 - 142)**

**17.** **Ystyried adroddiad er gwybodaeth y Swyddog Arweiniol**

**Corfforaethol ar gyfer Porth Cynnal ynghylch: Adroddiad Diogelu Grwp Gweithredol Lleol ar y Cyd-CYSUR/CWMPAS, Chwarter 3 2020-21**
**ER GWYBODAETH (Tudalennau 143 - 204)**

**18.** **Ystyried adroddiad er gwybodaeth y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Porth Cynnal ynghylch: Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 3, 2020/21**
**ER GWYBODAETH (Tudalennau 205 - 236)**

**19.** **Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch: Caffael Contract Cludo, didoli ac ailgylchu Deunydd Eildro Sych Cymysg**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 237 - 238)**

Nid yw’r papur yma ar gael i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y’i diffiniwyd ym mharagraff 14 o ran 4 o atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y’i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth)(Amrywio) (Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor yn penderfynu ystyried yr eitemau yn breifat, ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, caiff y cyhoedd eu heithrio o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth honno, yn unol ag Adran 100B(2) o’r Ddeddf.

**20.** **Unrhyw fater arall y penderfyna’r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi’r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i’r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio’r Gymraeg neu’r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

L Edwards

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Arweinydd y Cyngor ac Aelodau'r Cabinet**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth**

# Eitem Agenda 5

Hysbysiad Penderfyniadau **Cyfarfod y CABINET** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron **ddydd Mawrth, 16 Mawrth, 2021.**

Cyhoeddir yr Hysbysiad hwn am 5.00 pm ddydd Iau, 18 Mawrth, 2021. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unrhyw benderfyniad i mewn yw 5.00pm ddydd Iau, 25 Mawrth, 2021 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ddydd Gwener, 26 Mawrth, 2021.

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn (Cadeirydd); y Cynghorwyr Dafydd Edwards, Rhodri Evans, Catherine Hughes, Gareth Lloyd, Catrin Miles, Ray Quant MBE ac Alun Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL:-**
Y Cynghorwyr Ceredig Davies, Keith Evans, Mark Strong, Lynford Thomas, Wyn Thomas

(10.00 a.m. – 12.35p.m.)

C155 **Ymddiheuriadau**
Ni chafwyd dim ymddiheuriadau.

C156 **Materion Personol**
(i) Cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd Catrin Miles a'i theulu ar golli ei brawd yng nghyfraith.
(ii) Mae Uned y Gofalwyr, sy'n cefnogi Gofalwyr Di-dâl yng Ngheredigion, wedi rhoi 'bocs seibiant Gofalwr' i ofalwyr sy'n aelodau o'r Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr. Roedd y bocs yn cynnwys amrywiaeth o ddanteithion wedi'u gwneud yng Nghymru ac mae'r sawl sydd wedi eu cael wedi nodi eu gwerthfawrogiad o'u rhoddion.
(iii) Mae rhifyn cyntaf cylchlythyr Gofalwyr Ifanc Ceredigion i'w lansio heddiw i nodi 'Diwrnod Gweithredu Gofalwyr Ifanc'. Bydd ar gael ar wefan a chyfryngau cymdeithasol y Cyngor.
(iv) Mae ymgyrch wedi'i lansio i godi ymwybyddiaeth o droseddau bregusrwydd. Mae gwybodaeth ar gael ar gyfryngau cymdeithasol ynghyd â

Notice of the Decisions of the **Meeting of the CABINET** held in the Council Chamber, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron on **Tuesday, 16 March, 2021.**

This Notice is published at 5.00 pm on Thursday, 18 March, 2021. Requests to call-in any decision to be delivered to the Head of Democratic Services by 5.00 pm on Thursday, 25 March, 2021. The decisions will come into force (if no valid call-in application is received) on Friday, 26 March, 2021.

**PRESENT**: Councillor Ellen ap Gwynn (Chairman); Councillors Dafydd Edwards, Rhodri Evans, Catherine Hughes, Gareth Lloyd, Catrin Miles, Ray Quant MBE and Alun Williams.

**ALSO PRESENT:-**
Councillors Ceredig Davies, Keith Evans, Mark Strong, Lynford Thomas, Wyn Thomas.

(10.00 a.m. –12.35p.m.)

C155 **Apologies**
No apologies were received.

C156 **Personal Matters**
(i) Condolences were extended to Councillor Catrin Miles and her family on the loss of her brother-in-law.
(ii) The Carers Unit, who support Unpaid Carers in Ceredigion, have treated carers who are members of the Carers Information Service to a 'Carer's break in a box'. The box contained a variety of Welsh made treats and recipients have noted their appreciation of their gifts.
(iii) The first edition of Ceredigion Young Carers newsletter is to be launched today to mark 'Young Carers Action Day'. It will be available on the Council's website and social media.
(iv) A campaign has been launched to raise awareness of vulnerability crime. Information is available on

thaflenni a ddosberthir i bob cartref.
(v) Diolchwyd i staff y Gwasanaeth Cyllid a'r Gwasanaeth Economi ac Adfywio am eu holl waith yn prosesu ceisiadau am grantiau busnes yn ddiweddar. Roedd 83 o fusnesau Ceredigion yn llwyddiannus ac mae'r cyllid wedi darparu 145 o swyddi newydd ac wedi diogelu 366 arall.

social media along with leaflets distributed to each household.
(v) Finance and Economy and Regeneration Service staff were thanked for all their work in processing business grant applications recently. 83 of Ceredigion's businesses were successful and the funding has provided 145 new jobs and protected a further 366.

C157 **Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy'n Rhagfarnu**

Datgelodd y canlynol fuddiant personol a/neu fuddiant sy'n rhagfarnu:
(i) Datgelodd y Cynghorydd Ceredig Davies fuddiant personol/buddiant sy'n rhagfarnu ym mhenderfyniad C171 a thynnodd yn ôl o'r cyfarfod wrth i'r mater gael ei drafod.

C157 **Disclosures of Personal / Prejudicial Interests**

The following expressed a personal and/or prejudicial interest:
(i) Councillor Ceredig Davies disclosed a personal and/or prejudicial interest in decision C171 and withdrew from the meeting whilst the matter was being discussed.

C158 **Diweddariad ar lafar gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr parthed COVID-19.**

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor, Ellen ap Gwynn ddiweddariad ar lafar o ran COVID-19. Mae canran yr achosion positif yng Ngheredigion yn parhau i fod yr isaf yng Nghymru. Mae'r rhaglen frechu yn parhau i fod yn llwyddiannus ac mae ar y trywydd iawn i gyrraedd ei tharged i gwblhau brechiadau dos cyntaf ar gyfer y rhai dros 50 oed erbyn 12fed Ebrill.
Mae disgyblion ysgol yn parhau i ddychwelyd i'r ysgol. Yr wythnos hon, mae disgyblion o flynyddoedd 4,5 a 6 yn dychwelyd i ysgolion cynradd ac mae blynyddoedd 11,12 a 13 yn dychwelyd i ysgolion uwchradd. Bydd disgyblion blwyddyn 10 yn dychwelyd yr wythnos nesaf. Bydd blynyddoedd 7, 8 a 9 yn dychwelyd ar ôl gwyliau'r Pasg gydag ymweliadau llesiant yn cael eu cynnig cyn gwyliau'r Pasg.
Ni chofnodwyd dim profion positif gan breswylwyr yng nghartrefi gofal y sir yn ystod y mis diwethaf. Gall teuluoedd ymweld â chartrefi gofal o 1af Ebrill yn y podiau ymweld a ddarperir.

C158 **A verbal update by the Leader of the Council and the Chief Executive in relation to COVID-19.**

The Leader of the Council, Ellen ap Gwynn provided a verbal update in relation to COVID-19. The percentage of positive cases in Ceredigion remains the lowest in Wales. The vaccination programme continues to be successful and is on track to reach its target to complete first dose vaccinations for those over 50 years of age by 12th April.
School pupils are continuing to return to school. This week, pupils from years 4,5 and 6 are returning to primary schools and years 11,12 and 13 are returning to secondary schools. Year 10 pupils will be returning next week. Years 7, 8 and 9 will return after the Easter holiday with well-being visits being offered before the Easter break.
No positive tests have been recorded from residents in the county's care homes during the last month. Family visits can take place at care homes from 1st April in the visitor pods provided.

Bydd gwasanaeth clicio a chasglu llyfrgelloedd y sir yn ailddechrau o 17eg Mawrth.
Diolchodd yr Arweinydd i bawb am eu gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf.

The county's libraries' click and collect service will resume from 17th March.
The Leader thanked all for their work over the past year.

C159 **Cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 23 Chwefror, 2021.**
**PENDERFYNIAD**
Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 23 Chwefror, 2021 yn rhai cywir.

**Materion yn codi:**
Nid oedd dim materion yn codi o'r cofnodion.

C159 **Minutes of the Meeting of the Cabinet held on 23 February, 2021.**
**DECISION**
To confirm as a true record the Minutes of the Meeting of the Cabinet held on 23 February, 2021.

**Matters Arising:**
There were no matters arising from the minutes.

C160 **Deisebau a ddaeth i law**
(i) Ni chafwyd dim deisebau.

C160 **Petitions received**
(i) No petitions had been received.

C161 **Penderfyniadau a alwyd i mewn (os oes rhai)**
Adroddodd y Swyddog Monitro nad oedd dim penderfyniadau wedi eu galw i mewn ynglŷn â phenderfyniadau cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 23 Chwefror, 2021.

C161 **Any decisions having been called in (if any)**
The Monitoring Officer reported that no decisions had been called in to the Cabinet following the meeting held on 23 February, 2021.

C162 **Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**
Dim.

C162 **Any feedback from the Overview and Scrutiny Committees.**
None.

C163 **Gwella Ysgolion drwy Weithio'n Rhanbarthol**
**PENDERFYNIAD**
(i) Nodi bod yr hysbysiad ymadael a gyflwynwyd gan yr Arweinydd ar 17.3.20 yn dal mewn grym fel y'i cyflwynwyd.
(ii) Cytuno y bydd y Cyngor yn ymadael â chonsortiwm ERW ar 31ain Mawrth 2021.
(iii) Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Addysg/Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Ysgolion a Diwylliant mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet i gymryd pob cam angenrheidiol ac ymrwymo i bob cytundeb angenrheidiol er mwyn cwblhau proses ymadael ag ERW.

C163 **School Improvement through Regional Working**
**DECISION**
(i) To note that the notice of withdrawal issued by the Leader on 17.3.20 stands as served,
(ii) To agree that the Council will withdraw from the ERW Consortium on 31st March 2021.
(iii) That delegated authority be granted to the Chief Executive and the Chief Education Officer/CLO-Schools and Culture in consultation with the Leader of Council and the Cabinet Member, to take all necessary actions and, to enter into all necessary agreements, to complete the withdrawal from ERW process.

***Rheswm dros y penderfyniad:-***
*Terfynu safle'r Cyngor ar Gonsortiwm ERW.*
*Cydymffurfio â Chytundeb Cyfreithiol ERW a'r hysbysiad ymadael a gyflwynwyd gan yr Arweinydd ar 17.3.2020.*
*Cwblhau proses ymadael â Chonsortiwm ERW.*

***Reason for decision:-***
*To conclude the Council's position on the ERW Consortium.*
*To comply with the ERW Legal Agreement, and notice of withdrawal issued by the Leader on 17.3.2020.*
*To complete the withdrawal process from the ERW Consortium.*

C164 **Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2021/22 a Pholisi Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer 2021/22.**
**PENDERFYNIAD**
(i) Cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys fel y'i hamlinellir yn yr adroddiad ar gyfer Benthyca a Buddsoddi;
(ii) Cymeradwyo'r Atodlen Buddsoddi fel y'i nodir yn Atodiad B yr adroddiad;
(iii) Cymeradwyo'r Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer 2021/22 fel y'i nodir yn Atodiad C yr adroddiad; a
(iv) Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Adran 151 mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet dros Gyllid, Caffael a Diogelu'r Cyhoedd i newid Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Atodlen Buddsoddi yn ystod y flwyddyn; a
(v) Argymell i'r Cyngor Llawn:
a. cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer Benthyca a Buddsoddi ar gyfer 2021/22; a
b. cymeradwyo Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer 2021/22.

C164 **Treasury Management Policy Statement, Treasury Management Strategy for 2021/22 and the MRP Policy for 2021/22.**
**DECISION**
(i) To approve the Treasury Management Strategy outlined in the report for Borrowing and Investments;
(ii) To approve the Investment Schedule as set out in Appendix B of the report;
(iii) To approve the Minimum Revenue Provision Policy for 2021/22 as set out in Appendix C of the report;
(iv) To delegate authority to the Section 151 officer, in consultation with the Cabinet Member for Finance, Procurement and Public Protection, to amend the Treasury Management Strategy, and Investment Schedule, during the course of the year; and
(v) Recommends to Full Council:
a. the approval of the Treasury Management Strategy for Borrowing and Investments for 2021/22; and
b. the approval of the Minimum Revenue Provision Policy for 2021/22.

***Rheswm dros y penderfyniad:-***
*Gosod Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Pholisi Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) ar gyfer 2021/22.*

***Reason for decision:-***
*To set a Treasury Management Strategy and Minimum Revenue Policy for 2021/22.*

C165 **Trefniadau Tâl y Crwner 2021/22**

**PENDERFYNIAD**
(i) Cymeradwyo'r cyfraddau tâl canlynol a fydd mewn grym o 1af Ebrill 2021:

C165 **Coroner Pay Arrangements 2021/22**
**DECISION**
(i) To approve the following pay rates effective from the 1st of April 2021:

(1) Uwch Grwner rhan amser:
a) Cyflog Cadw £20,808 y flwyddyn i dalu am argaeledd gwasanaeth cadw/y tu allan i oriau o 1af Ebrill 2021 i 31ain Mawrth 2022.
b) Gan ddefnyddio cyfradd ddyddiol £459 y cytunwyd arni, i dalu cyflog blynyddol £11,475 y flwyddyn i'r Crwner gan gynnwys diwrnodau hyfforddi – o 1af Ebrill 2021 i 31ain Mawrth 2022.
c) Costau swyddfa/lwfans cymorth i'r busnes – £5,000 y flwyddyn o 1af Ebrill 2021 i 31ain Mawrth 2022.
(2) Crwner Cynorthwyol:
O 1af Ebrill 2021 i 31ain Mawrth 2022 y cyfraddau dyddiol fydd:

- diwrnod llawn £391; a
- hanner diwrnod: £195.

***Rheswm dros y penderfyniad:-***
*Cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a Chylchlythyron y Cydgyngor Trafod Telerau.*
*Lliniaru her.*
*Diogelu arian cyhoeddus.*

(1) Senior part-time Coroner:
a) Retention Salary of £20,808 pa to cover retention/ out of hours service availability from the 1st of April 2021 to the 31st of March 2022.
b) Using the agreed daily rate of £459, to pay the Coroner an annual salary of £11,475 per annum including training days-from the 1st of April 2021 to the 31st of March 2022
c) Office expenses/business support allowance –
£5,000 per annum - from the 1st of April 2021 to the 31st of March 2022
(2) Assistant Coroner:
From the 1st of April 2021 to the 31st of March 2022 the daily rates will be :

- full day £391; and
- half day: £195.

***Reason for decision:-***
*Compliance with relevant legislation and JNC Circulars.*
*Mitigation of challenge.*
*Safeguarding public funds.*

C166 **Cynnig i Wahardd Parcio Ar Unrhyw Adeg yn Y Lanfa, Aberystwyth**
**PENDERFYNIAD**
(i) Cymeradwyo hysbysebu'r cynnig i'r cyhoedd, ac os na cheir dim gwrthwynebiadau, gwneud y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig angenrheidiol a chyhoeddi Hysbysiad Gwneud dilynol yn y wasg i'r perwyl hwn.

***Rheswm dros y penderfyniad:-***
*Atal cerbydau mwy o faint rhag cael eu rhwystro wrth geisio cael mynediad i Farina Aberystwyth ac eiddo preswyl cyfagos.*

C166 **Proposed Prohibition of Parking At Any Time at Y Lanfa, Aberystwyth**
**DECISION**
(i) To approve advertising the proposal to the public, and should no objections be received, the making of the necessary Traffic Regulation Order and the publication of a subsequent Notice of Making in the press to this effect.

***Reason for decision:-***
*To prevent obstruction to larger vehicles seeking to access Aberystwyth Marina and nearby residential properties.*

C167 **Cynllun Gweithredu Clefyd Coed Ynn**
**PENDERFYNIAD**
(i) Cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu Clefyd Coed Ynn, er mwyn gofalu y sicrheir adnoddau i weithredu a chyflawni'r cynllun yn llwyddiannus.

C167 **Ash Dieback Action Plan**
**DECISION**
(i) To approve the Ash Dieback Action Plan to ensure that resources are secured for its successful implementation and delivery.

***Rheswm dros y penderfyniad:-***
*Rhoi mecanwaith i'r Cyngor reoli'r risgiau a ddaw yn sgil clefyd coed ynn, a thrwy hynny leihau'r effeithiau ar iechyd a diogelwch, ar yr economi a'r amgylchedd ac osgoi'r risg o niweidio enw da'r Cyngor.*

***Reason for decision:-***
*To provide the Council with a mechanism to manage the risks posed by ash dieback, thereby minimising health & safety, economic and environmental impacts and avoiding the risk of reputational damage to the Council.*

C168 **Safle Gwastraff Cartrefi Glanyrafon**
**PENDERFYNIAD**
(i) Cytuno i ddyfarnu'r contract i'r Tendr mwyaf manteisiol yn economaidd, ar yr amod bod cyfnod segur statudol deg diwrnod.

***Rheswm dros y penderfyniad:-***
*I sicrhau bod y Safle Gwastraff Cartrefi yn parhau i gael ei weithredu yng Nglanyrafon.*

C168 **Glanyrafon Household Waste Site.**
**DECISION**
(i) To agree to award the contract to the most economically advantageous Tender, subject to 10 day statutory standstill period.

***Reason for decision:-***
*To ensure the continued Operation of the Household Waste Site at Glanyrafon.*

C169 **Strategaeth Ynni Canolbarth Cymru**
**PENDERFYNIAD**
(i) Bod yr awdurdodau lleol unigol (Cynghorau Sir Powys a Cheredigion) yn cymeradwyo ymrwymiad i Strategaeth Ynni Canolbarth Cymru ac yn llofnodi dogfen y strategaeth.
(ii) Bod uwch swyddogion a enwir ym mhob awdurdod yn cael eu cyfarwyddo i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu a chytuno ar drefniadau llywodraethu ar gyfer llunio Cynllun Cyflawni Strategaeth Ynni Canolbarth Cymru, gan gynnwys sefydlu Grŵp Cynghori i gynghori ar y Cynllun i gyflawni Strategaeth Ynni Canolbarth Cymru.

***Rheswm dros y penderfyniad:-***
*Er mwyn galluogi cynnydd wrth weithredu'r strategaeth.*

C169 **Mid Wales Energy Strategy**
**DECISION**
(i) To approve as individual Local authorities (Powys & Ceredigion County Councils) to endorse commitment to the mid Wales Energy Strategy and sign off the strategy document.
(ii) That senior named officers in each authority are instructed to work together to develop and agree governance arrangements for the preparation of a Mid Wales Energy Strategy Delivery Plan, including the establishment of an Advisory group to advise on the Mid Wales Energy Strategy Delivery Plan.

***Reason for decision:-***
*To enable progress to be made with strategy implementation.*

C170 **Hybu Economi Ceredigion - Strategaeth ar gyfer Gweithredu 2021-35**
**PENDERFYNIAD**
(i) Cytuno i fabwysiadu'r Strategaeth Economaidd 2021-2035 fel ei fframwaith ar gyfer gweithredu i gefnogi twf economaidd yng Ngheredigion

C170 **Boosting Ceredigion's Economy - A Strategy for Action 2021-35**
**DECISION**
(i) To agree to adopt the Economic Strategy 2021-2035 as its framework for action to support economic growth in Ceredigion.

***Reason for decision:-***

*Rheswm dros y penderfyniad:-*
*Rhoi cyd-destun strategol lle mae penderfyniadau yn y dyfodol yn cael eu gwneud ar gyflwyno gweithgareddau i gefnogi twf economaidd yng Ngheredigion.*

*To provide a strategic context within which future decisions are made on introducing activities to support economic growth in Ceredigion.*

C171 **Pleidlais adnewyddu ar gyfer Ardal Gwella Busnes Aberystwyth (AGB) 2021**

**PENDERFYNIAD**

(i) Nodi cynnwys yr adroddiad
(ii) Cymeradwyo Cynllun Busnes Aberystwyth ar y Blaen 2021-26 (Atodiad A yr adroddiad); a
(iii) Penderfynu ar opsiwn iii yn yr adroddiad ar gyfer pleidlais Cyngor Sir Ceredigion yn ail-bleidlais AGB 2021 ar gyfer ei 16 hereditament, sef:
‘Ymatal rhag pleidleisio, gan ganiatáu i fusnesau a sefydliadau eraill yn ardal yr AGB benderfynu a ddylid cefnogi'r cynnig i barhau i weithredu'r AGB’.

*Rheswm dros y penderfyniad:-*
*Er mwyn cyrraedd sefyllfa i bleidleisio ar bleidlais yr AGB.*

C171 **Renewal ballot for the Aberystwyth Business Improvement District (BID) 2021**

**DECISION**

(i) To note the content of the report
(ii) To approve the Advancing Aberystwyth Business Plan 2021-26 (Appendix A of the report); and
(iii) To decide on option iii in the report for the Ceredigion County Council’s vote in the 2021 BID re-ballot for its 16 hereditaments, namely:
‘To abstain from voting, allowing other businesses and organisations in the BID area to decide if the proposal to continue the operation of the BID should be supported’.

*Reason for decision:-*
*To reach a voting position on the BID ballot.*

C172 **Adroddiad Monitro’r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2019-20**

**PENDERFYNIAD**

(i) Derbyn a chymeradwyo Adroddiad Monitro’r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Ebrill 2019 i Fawrth 2020 a chymeradwyo bod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan gyhoeddus.

*Rheswm dros y penderfyniad:-*
*Mae'n ofynnol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb ein bod yn cynhyrchu Adroddiad Monitro’r Cynllun Cydraddoldeb Strategol Blynyddol ar gyfer 2019-20 ac yn ei gyhoeddi ar ein gwefan gyhoeddus erbyn 31/3/21.*

C172 **Strategic Equality Plan (SEP) Monitoring Report 2019--20**

**DECISION**

(i) To receive and endorse the Strategic Equality Plan (SEP) Monitoring Report April 2019 to March 2020 and to approve that the report is published on our public website.

*Reason for decision:-*
*It is a requirement under the Equality Act that we produce an Annual Strategic Equality Plan (SEP) Monitoring Report for 2019-20 and publish this on our public website by the 31/3/21.*

C173 **Cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol ar 1/4/21.**

**PENDERFYNIAD**

C173 **The commencement of the Socio-Economic Duty, (SED), on the 1/4/21.**

**DECISION**

(i) To approve that the proposed SED

(i) Cymeradwyo'r set o gwestiynau ynghylch y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol arfaethedig i'w chynnwys yn yr offeryn ar gyfer Asesu Effaith Integredig y Cyngor.

***Rheswm dros y penderfyniad:-***
*Cydymffurfio â chychwyn y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol sy'n rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r ddyletswydd yn cychwyn ar 1/4/21 ac mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus rhestredig ystyried effeithiau economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol.*

question set is included within our Integrated Impact Assessment Tool.

***Reason for decision:-***
*To comply with the commencement of the Socio-Economic Duty of the Equality Act 2010. The duty commences on the 1/4/21 and listed public bodies are required to take into account socio-economic impacts in their strategic decision making.*

C174 **Adroddiadau er gwybodaeth**
**PENDERFYNIAD**
Nodi'r adroddiadau canlynol er gwybodaeth:-
(i) Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf Chwarter 3
(ii) Rhagolygon Cyllideb Refeniw Reoladwy ar gyfer 2020/2021
(iii) Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol Cyfun Cysur/Cwmpas Chwarter 2 2020
(iv) Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 2, 2020/21
(v) Cynllun LEADER Cynnal y Cardi

C174 **Information Reports**
**DECISION**
To note the following reports for information purposes:-
(i) Quarter 3 Capital Programme Monitoring Report
(ii) Controllable revenue budget forecast for 2020/2021
(iii) Cysur/Cwmpas Combined Local Operational Group Safeguarding Report Qtr 2 2020
(iv) Independent Reviewing Service Performance Management Report Quarter 2 2020/21
(v) Cynnal y Cardi LEADER Scheme

C175 **Nid yw'r adroddiad sy'n ymwneud ag eitem C176 i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 rhan 4 atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor, ar ôl gweithredu Prawf Lles y Cyhoedd, yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, bydd y cyhoedd a'r wasg yn cael eu cau allan o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath, yn unol ag Adran 100B (2) y Ddeddf.**

**PENDERFYNIAD**

C175 **The report relating to item C176 is not for publication as it contains exempt information as defined in paragraph 14 of Part 4 of Schedule 12A to the Local Government Act 1972 as amended by the Local Government (Access to information) (Variation) (Wales) Order 2007. If, following the application of the Public Interest Test, the Council resolves to consider this item in private, the public and press will be excluded from the meeting during such consideration, in accordance with Section 100B(2) of the Act.**
**DECISION**
(i) Not to exclude the public and

(i) Peidio â chau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod.

***Rheswm dros y penderfyniad:-***
*Ni thrafodwyd y ddogfen yn gyhoeddus.*

press from the meeting.

***Reason for decision:-***
*The document was not discussed in public.*

C176 **Atodiad - Safle Gwastraff Cartrefi Glanyrafon**
**PENDERFYNIAD**
(i) Nodi'r wybodaeth ynghylch penderfyniad C168.

C176 **Appendix - Glanyrafon Household Waste Site**
**DECISION**
(i) To note the information in relation to decision C168.

**CADEIRYDD**/CHAIRMAN:________________________

**Dyddiad**/Date:______________

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# Eitem Agenda 6

Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y CABINET** drwy fideo-gynadledda **ddydd Mawrth, 30 Mawrth, 2021.**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00 pm ddydd Iau, 1 Ebrill, 2021. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unrhyw benderfyniad i mewn yw 5.00pm ddydd Llun, 12 Ebrill, 2021 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ddydd Mawrth, 13 Ebrill, 2021.

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn (Cadeirydd); Y Cynghorwyr Dafydd Edwards, Rhodri Evans, Catherine Hughes, Gareth Lloyd, Catrin Miles, Ray Quant MBE a Alun Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL:-**
Y Cynghorwyr Ceredig Davies, Ifan Davies, John Roberts, Lynford Thomas a Wyn Thomas.

(10.00 a.m. –10.40a.m.)

C175 **Ymddiheuriadau**
Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol a Caroline Lewis, Cyfarwyddwr Corfforaethol.

C176 **Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy'n Rhagfarnu**
Datgelodd y canlynol fuddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu:
(i) Datgelodd y Cynghorydd Catherine Hughes fuddiant personol/buddiant sy'n rhagfarnu yn eitem C177(ii) isod.

C177 **Buddsoddi mewn Asedau**
**PENDERFYNIAD**
(i) Awdurdodi prynu'r adeilad o'r enw Pendre Art am y pris a nodir yn yr adroddiad eithriedig;
(ii) Awdurdodi swyddogion i ddefnyddio cyllid grant Llywodraeth Cymru i gefnogi prosiect Ystrad Fflur, yn unol â'r telerau a nodir yn yr adroddiad eithriedig;

Notice of the Decisions of the **Meeting of the CABINET** held via video-conferencing on **Tuesday, 30 March, 2021.**

This Notice is published at 5.00 pm on Thursday, 1 April, 2021. Requests to call-in any decision to be delivered to the Head of Democratic Services by 5.00 pm on Monday, 12 April, 2021. The decisions will come into force (if no valid call-in application is received) on Tuesday, 13 April, 2021.

**PRESENT**: Councillor Ellen ap Gwynn (Chairman); Councillors Dafydd Edwards, Rhodri Evans, Catherine Hughes, Gareth Lloyd, Catrin Miles, Ray Quant MBE and Alun Williams.

**ALSO PRESENT:-**
Councillors Ceredig Davies, Ifan Davies, John Roberts, Lynford Thomas and Wyn Thomas.

(10.00 a.m. – 10.40a.m.)

C175 **Apologies**
Apologies were received by Barry Rees, Corporate Director and Caroline Lewis, Corporate Director.

C176 **Disclosures of Personal / Prejudicial Interests**
The following expressed a personal and/or prejudicial interest:
(i) Councillor Catherine Hughes declared a personal and/or prejudicial interest in decision C177(ii) below.

C177 **Investment in assets**
**DECISION**
(i) Authorise the purchase of the building known as Pendre Art at the price set out in the exempt report;
(ii) Authorise officers to access Welsh Government grant funding to support the Strata Florida project, in line with the terms set out in the exempt report;

(iii) Awdurdodi prynu tir ac asedau i hwyluso'r gwaith o adeiladu ysgol safle Dyffryn Aeron;
(iv) Awdurdodi dirprwyo pwerau i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio i drafod a chwblhau'r broses o gaffael asedau pellach yn unol â'r Strategaeth Economaidd, pe bai cyllid ychwanegol yn dod o Lywodraeth Cymru at ddibenion cyffelyb rhwng 30 Mawrth 2021 a dyddiad cyfarfod nesaf y Cabinet, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros yr Economi ac Adfywio;
(v) Manylion unrhyw drafodion a gwblhawyd yn unol â chymalau 3 a 4 uchod, i'w hadrodd yn ôl i'r Cabinet.

***Rheswm dros y penderfyniad:-***
*(i) Er mwyn galluogi'r buddsoddiad i fynd rhagddo.*
*(ii) O ran argymhelliad 3, gweithredu'r penderfyniad a wnaed gan y Cyngor ar 19 Rhagfyr 2019 i sefydlu ysgol ardal newydd ar safle newydd yn Nyffryn Aeron o 1 Medi 2022*

(iii) Authorise the purchase of land and assets to facilitate the construction of the Dyffryn Aeron site school;
(iv) Authorise the delegation of powers to the Corporate Lead Officer for Economy and Regeneration to enter into negotiation and to complete the acquisition of further assets in line with the Economic Strategy should additional Welsh Government Funding be made available for similar purposes, between the 30th March 2021 and the date of the next Cabinet meeting, in consultation with the Leader, Deputy Leader and Cabinet Member for Economy and Regeneration;
(v) Details of any transactions completed pursuant to clause 3 and 4 above, to be reported back to Cabinet.

***Reason for decision:-***
*(i) To enable the investment to progress.*
*(ii) With regard to recommendation 3, to enact the decision made by Council on the 19th December 2019 to establish a new areas school on a new site in the Aeron Valley from 1 September 2022.*

C178 **Nid yw'r adroddiad ar eitem C179 ar gael i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o ran 4 o atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth)(Amrywio)(Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, yn unol â'r Ddeddf ac ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, caiff y cyhoedd eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth honno, yn unol ag Adran 100B(2) o'r Ddeddf.**

C178 **The report relating to item C179 is not for publication as it contains exempt information as defined in paragraph 14 of Part 4 of Schedule 12A to the Local Government Act 1972 as amended by the Local Government (Access to information) (Variation) (Wales) Order 2007. If, following the application of the Public Interest Test, the Council resolves to consider this item in private, the public and press will be excluded from the meeting during such consideration, in accordance with Section 100B(2) of the Act.**

**PENDERFYNIAD**
Peidio gwahardd y cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod.

**DECISION**
Not to exclude the public and press from the meeting.

***Rheswm dros y penderfyniad:-***
*Ni thafodwyd y ddogfen yn gyhoeddus.*

***Reason for decision:-***
*The document was not discussed in public.*

C179 **Atodiad A - Buddsoddi mewn Asedau**

**PENDERFYNIAD**

(i) Nodi'r wybodaeth o fewn y ddogfen parthed penderfyniad C177.

C179 **Appendix A - Investment in assets**

**DECISION**

(i) To note the information within the document in relation to decision C177.

**CADEIRYDD**/CHAIRMAN:________________________

**Dyddiad**/Date:______________

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 7

## CYNGOR SIR CEREDIGION

**Adroddiad i'r:** **Cabinet**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **18 Mai 2021**

**Teitl:** **Deisebau a ddaeth i law**

**Pwrpas yr adroddiad:** **Hysbysu'r Cabinet am unrhyw ddeisebau a ddaeth i law**

**Er:** **Gwybodaeth**

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** **Amherthnasol**

Mae'r Cyngor wedi derbyn y ddeiseb ganlynol:

| Teitl y ddeiseb | Nifer y llofnodwyr | Aelod Cabinet | Aelod Lleol (os ydyw'n berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Deiseb ynghylch diogelwch ar ffordd y B4340 (allanfa a mynedfa guddiedig a pheryglus) | 24 | Cyng. Dafydd Edwards | Cyng. Meirion Davies |

Bydd y gwasanaeth perthnasol yn awr yn ystyried cynnwys y ddeiseb.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam** — Amherthnasol – pwrpas yr adroddiad hwn yw adrodd ynghylch deisebau sydd wedi dod i law

***Crynodeb:***
**Hirdymor:** Amherthnasol
**Cydweithio:** Amherthnasol
**Cynnwys:** Amherthnasol
**Atal:** Amherthnasol
**Integreiddio:** Amherthnasol

**Argymhelliad:** **Dylai'r Cabinet nodi'r ddeiseb ganlynol a ddaeth i law - Deiseb ynghylch diogelwch ar ffordd y B4340 (allanfa a mynedfa guddiedig a pheryglus)**

**Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:** **Er mwyn hysbysu'r Cabinet am y ddeiseb a ddaeth i law a gofyn i'r gwasanaeth perthnasol ei hystyried ymhellach.**

**Trosolwg a Chraffu:** Amherthnasol

| | |
|---|---|
| **Fframwaith Polisi:** | Y Cyfansoddiad a'r Protocol Deisebau |
| **Blaenoriaethau Corfforaethol:** | Amherthnasol |
| **Goblygiadau Ariannol a Chaffael:** | Amherthnasol |
| **Pwerau Statudol:** | Amherthnasol |
| **Papurau Cefndir:** | Amherthnasol |
| **Atodiadau:** | Atodiad A - Llythyr eglurhaol i'r ddeiseb |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd |
| **Swyddog Adrodd:** | Lowri Edwards |
| **Dyddiad:** | 28 Ebrill 2021 |

ATODIAD / APPENDIX A

1-4-2021
T 01974-261549

CEREDIGION COUNTY COUNCIL
RECEIVED
-6 APR 2021
CANOLFAN RHEIDOL

[redacted]

REF B4340
TDJ/IL/HWYS 56/837867.

Dear MR R Llwyd.

I have had no reply from my last letter Aug 2020.

[redacted] has been helpful in contacting his known associates to try to help this ongoing saga.

It is now nearly 3yrs with no good outcome on this very Dangerous Rd.

I enclose another Petition from the residents of Crosswood PARK.

Llanila seem to get signs and white lines renewed why? Black Covet is having asphalt put down, that will bring more cars to this area and more Caravans to the local caravan site.

What does it take for Highways to help us stay safe.

Yours Sincerely. [redacted]

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 10

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **18 Mai 2021** |
| | |
| **Teitl:** | **Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Ceisio cymeradwyaeth i'r newidiadau arfaethedig i'r Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol** |
| **I** | **Benderfynu arno** |
| **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Catrin Miles**<br>**Y Cynghorydd Dafydd Edwards** |

**CEFNDIR:**

Gwneir trefniadau o ran cludiant o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion cymwys o fewn yr Awdurdod Lleol gyda gweithredwyr cludiant lleol. Adolygwyd a mabwysiadwyd y Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol ym mis Medi 2016 pan gyflwynwyd tâl o £390 y flwyddyn ar gyfer darpariaeth sedd wag i ddisgyblion nad ydynt yn gymwys. Ers cyflwyno'r tâl ym mis Medi 2018, cafwyd incwm o rhyw £7,000 y flwyddyn.

Darperir y rhan fwyaf o'r cludiant o'r cartref i'r ysgol gan ddefnyddio coetsis nad ydynt, yn nodweddiadol, yn hygyrch i ddisgyblion sy'n defnyddio cadair olwyn, ac mae'r Awdurdod Lleol yn gwneud trefniadau ar wahân yn ôl yr angen ar gyfer unrhyw deithiwr anabl sy'n gymwys i dderbyn cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim.

Mae Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus 2000 yn bodoli i wella hygyrchedd bysiau a choetsis ar gyfer teithwyr anabl ac, yn gyffredinol, mae telerau'n berthnasol pan fo gan gerbyd fwy na 22 sedd, a thelir tâl er mwyn teithio.

I ddechrau, roedd y ddeddfwriaeth i fod i gael ei chyflwyno ym mis Ionawr 2020, lle byddai'n rhaid i bob coets â mwy na 22 o seddi teithwyr a ddefnyddir fel cerbydau ysgol, lle codir ffioedd ar wahân, fodloni Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus. Cytunwyd ar eithrio cyflwyno'r ddeddfwriaeth am ddwy flynedd.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

Oherwydd y bwriad i gyflwyno'r ddeddfwriaeth, mae angen diwygio'r polisi cludiant o'r cartref i'r ysgol yn awr a chael gwared ar y cyfeiriad at ddarpariaeth sedd wag a'r tâl ar ei chyfer.

Diweddarwyd y broses o ran cyflwyno apêl pan fydd cludiant wedi'i wrthod hefyd, a'i gwneud yn gliriach i adlewyrchu Cyfansoddiad yr Awdurdod Lleol. Sefydlwyd y panel apeliadau cludiant i alluogi rhieni i apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod darparu cludiant ar gyfer eu

plant o'r cartref i'r ysgol, gyda chynrychiolaeth y Cyngor yn cynnwys 4 Cynghorydd anweithredol ag iddynt gydbwysedd gwleidyddol.

Mae'r polisi hefyd wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r newid arfaethedig i'r broses apeliadau os bydd darpariaeth o ran cludiant yn cael ei gwrthod.

Yn unol â rheoliad 4 Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009, os yw awdurdod lleol yn penderfynu newid neu gael gwared ar y cludiant dewisol y mae'n ei ddarparu, mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r wybodaeth cyn 1 Hydref yn ystod y flwyddyn cyn y flwyddyn academaidd y bydd y newidiadau yn dod i rym.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam** | | Do |
| | **Crynodeb:** | | |
| | **Hirdymor:** | Sicrhau bod y polisi yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth | |
| | **Cydweithio:** | Sicrhau bod y polisi yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth | |
| | **Cynnwys:** | Cytunwyd ar y newidiadau arfaethedig i'r polisi gan yr adrannau sy'n gyfrifol am gyflenwi'r gwasanaeth | |
| | **Atal:** | Mae angen diwygio'r polisi i adlewyrchu'r newid mewn deddfwriaeth | |
| | **Integreiddio:** | Mae'n annog integreiddio gyda'r ddarpariaeth addysg leol | |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad / Argymhellion:** | Gofynnir i'r Aelodau:<br>1. Gymeradwyo'r cynnig i ddileu'r ddarpariaeth sedd wag ac i gydymffurfio â Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Gyhoeddus 2000.<br>2. Cymeradwyo'r broses apeliadau ddiwygiedig i adlewyrchu gofynion Cyfansoddiad yr Awdurdod Lleol |
| **Rheswm dros y penderfyniad:** | 1. Cydymffurfio â Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus 2000<br>2. Cydymffurfio â Rhan 7 Cyfansoddiad yr Awdurdod Lleol o ran aelodaeth o'r Panel Apeliadau Cludiant Addysg<br>3. Os cymeradwyir 1 a 2 uchod, cymeradwyo'r polisi diwygiedig sydd ynghlwm. |

| | |
|---|---|
| **Trosolwg a Chraffu:** | Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau sy'n Dysgu - 17 Rhagfyr 2020 |
| **Fframwaith Polisi:** | Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol |
| **Blaenoriaethau Corfforaethol:** | Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl |

| | |
|---|---|
| **Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** | Colli incwm o rhyw £7,000, ond gellid gwireddu arbedion drwy aildrefnu'r teithiau |
| **Goblygiadau Cyfreithiol:** | Cydymffurfio â Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus 2000 |
| **Goblygiadau Staffio:** | Amherthnasol |
| **Goblygiadau Eiddo/Asedau:** | Amherthnasol |
| **Risg/Risgiau:** | Amherthnasol |
| **Pwerau Statudol:** | Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg<br>Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009 |
| **Papurau Cefndir:** | Amherthnasol |
| **Atodiadau:** | Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol |

| | |
|---|---|
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Meinir Ebbsworth |
| **Swyddog Adrodd:** | Nia James |
| Dyddiad: | 24 Mawrth 2021 |

Cyngor Sir Ceredigion

# Polisi
# Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg

Cymeradwywyd:

# Cynnwys


Cyflwyniad ........ 3

Adran 1: Cludo disgyblion oed Cynradd ac Uwchradd ........ 3

1.1 Ysgolion Llawn ........ 4

1.2 Cau Ysgolion ........ 4

1.3 Diogelwch ........ 4

1.4 Anghenion Addysg Arbennig/ Anghenion Dysgu Ychwanegol ........ 5

1.5 Newid Cyfeiriad ........ 8

1.6 Cludiant i Ysgolion Enwadol ........ 9

1.7 Cludo ôl-16 ........ 9

Adran 2: Cyffredinol ........ 10

2.1 Dewis sy’n ffafriaeth Rhieni ........ 10

2.2 Gwregysau Arbed ........ 10

2.3 Ymddygiad ........ 10

2.4 Camerâu ........ 10

2.5 Cwynion ........ 10

2.6 Defnyddio Cludiant Cyhoeddus ........ 11

2.7 Man Codi ........ 11

2.8 Pa help sydd ar gael os yw’r llwybrau cerdded yn beryglus? ........ 11

2.9 Apeliadau ........ 12

Atodiad A - Cais am Gludiant Ysgol ........ 13

Atodiad B - Ffurflen Apelio Cludiant Ysgol ........ 15

## Cyflwyniad

Mae dyletswydd statudol ar Gyngor Sir Ceredigion (fel yr Awdurdod Lleol) i ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol a gynhelir, mwyaf addas agosaf, i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol os ydynt yn byw ymhellach na'r pellter cerdded statudol.

Darparir cludiant am ddim yn unol â pholisi cludiant Cyngor Sir Ceredigion fel y nodir isod. Mae'r trefniadau hyn yn berthnasol i ddysgwyr sydd yn byw yng Ngheredigion neu'r rhai yr ystyrir eu bod yn gyfrifoldeb Cyngor Sir Ceredigion.

**Noder: Mae'r wybodaeth hon yn gywir ar adeg ei chyhoeddi ond gall newid o ganlyniad i newidiadau yn y gyfraith neu Bolisi'r Cyngor Sir.**

## Adran 1: Cludo disgyblion oed Cynradd ac Uwchradd

Bydd cludiant yn cael ei ddarparu am ddim i ddisgyblion oed cynradd ac uwchradd sy'n teithio dros bellter mwy na'r pellter cerdded statudol o/i brif fynedfa'r ysgol addas agosaf atynt.

Diffiniad "ysgol addas" agosaf yw lle "darparir addysg neu hyfforddiant addas o ran oedran, gallu a dawn y dysgwyr ac unrhyw anawsterau dysgu y gall fod ganddynt".

Rhaid i ddisgybl sy'n gwneud cais am gymorth fod yn breswylydd Ceredigion. Os yw ef/hi yn mynychu'r ysgol addas agosaf, a bod y ffordd fyrraf i'w cherdded rhwng cartref ac ysgol gymaint â, neu'n fwy na'r pellteroedd a nodwyd isod, yna bydd cludiant am ddim yn cael eu ddarparu ar eu cyfer fel rheol.

- **Disgyblion Oed Cynradd (o 5 mlwydd oed) -** 2 filltir neu fwy o'r ysgol
- **Disgyblion Oed Uwchradd** - 3 milltir neu fwy o'r ysgol

Caiff pellter ei fesur yn ôl y ffordd fyrraf i'w cherdded rhwng cartref ac ysgol. (O ffordd fawr a gynhelir gan y cyngor sydd agosaf at yr eiddo, i'r fynedfa ysgol agosaf sy'n arwain at safle'r ysgol).

Mae pŵer gan yr Awdurdod Lleol i wneud trefniadau yn ôl disgresiwn ar gyfer disgyblion na fyddai fel arall yn gymwys i dderbyn cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim mewn amgylchiadau eithriadol.

Gall cymorth gael ei ddarparu hefyd ar gyfer disgyblion o dan amgylchiadau arbennig ar sail: -

- ✓ ysgol yn llawn
- ✓ cau'r ysgol
- ✓ ail drefnu ysgol(ion)
- ✓ diogelwch

- ✓ meddygol
- ✓ datganiad o anghenion addysgol arbennig
- ✓ newid man preswylio yn ystod blwyddyn olaf arholiadau
- ✓ parhau gyda chwrs astudio safon uwch nad yw ar gael yn yr ysgol a ddynodwyd
- ✓ credo grefyddol ( o fewn radiws o 8 milltir i'r ysgol)
- ✓ myfyrwyr ôl-16

**Atodiad A** – Cais am Gludiant Ysgol

### 1.1 Ysgolion Llawn

Darparir cludiant am ddim i'r ysgol pan nad yw'r Awdurdod Lleol yn medru gwneud trefniadau ar gyfer disgybl i gyrraedd yr ysgol addas agosaf am ei bod yn llawn neu yn orlawn.

### 1.2 Cau Ysgolion

Yn ystod ymgynghoriad ar gau ysgol yn barhaol, bydd yr Awdurdod yn ymgynghori ar yr ysgol amgen addas a enwyd yn ystod y broses ymgynghori. Bydd cludiant am ddim am gyfnod penodol yn cael ei ystyried yn dilyn cau ysgol neu newid yn statws ysgol.

### 1.3 Diogelwch

Mae'r pellter y mae gan ddysgwyr hawl i gludiant am ddim yn ôl ac ymlaen o'r ysgol agosaf mwyaf addas yn cael ei nodi yn Adran 1. Cyfeirir at bellter sydd yn llai na hyn at bwrpas y ddogfen hon fel 'pellter cerdded'.

Dylai'r pellter cerdded gael ei fesur yn ôl y 'llwybr byrraf sydd ar gael'. Ystyrir bod llwybr ar gael os ydyw yn ddiogel (cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol) ar gyfer dysgwr heb anabledd neu gydag anawsterau dysgu i gerdded ar hyd y llwybr ar ben ei hun neu gydag oedolyn os yw oedran a lefelau deall y dysgwr yn gofyn am hyn.

Os nad yw llwybr 'ar gael' ac nad oes llwybr cerdded arall 'ar gael' i'w ddefnyddio, o fewn y pellter a nodwyd ar gyfer oedran y dysgwr, ni ellir digswyl i'r dysgwr gerdded i'r ysgol addas agosaf.

Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd cyfreithiol i asesu anghenion teithio'r dysgwyr sydd yn cerdded i'r ysgol.

Gall cludiant ysgol gael ei ddarparu am ddim ar sail diogelwch. Rhaid i'r rhieni wneud cais ysgrifenedig i'r Prif Swyddog Addysg yn nodi eu rhesymau. Wrth ystyried y cais, bydd yr Awdurdod yn cymryd y canlynol i ystyriaeth: -

- ➢ oed y disgybl;
- ➢ natur y ffordd: a yw'n beryglus ac a ddylid hebrwng y plentyn. Rhaid bod y ffordd

yn un y gall plentyn ei cherdded i'r ysgol, wedi'i hebrwng yn ôl y gofyn, a'i cherdded mewn diogelwch rhesymol. (Nid ·yw'n peidio â bod yn gymwys oherwydd peryglon a allai godi pe na bai'r plentyn yn cael ei hebrwng);

- a yw'r disgybl ar gofrestr yr ysgol agosaf ai peidio;
- argaeledd gwasanaeth cludiant cyhoeddus i deithwyr.

### 1.4 Anghenion Addysg Arbennig/ Anghenion Dysgu Ychwanegol

| | (3)Disgyblion eraill wedi bod yn bwrw, cicio neu'n gwthio |
| | (4)Disgyblion eraill wedi bod yn lledu celwyddau amdano/amdani er mwyn i eraill ei gasáu/ei chasáu |
| | (5)Rhywun wedi dwyn arian neu eiddo personol oddi arno/arni neu eiddo personol wedi ei dorri |
| | (6)Disgyblion eraill wedi bod yn ei fygwth/bygwth i wneud pethau yn erbyn ei (h)ewyllys |
| | (7)Disgyblion eraill wedi bod yn galw enwau, gwneud sylwadau neu ystumiau am hil, lliw croen, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rywiol |
| | (8) Disgyblion eraill wedi bod yn galw enwau rhywiol, gwneud ystumiau rhywiol neu weithredoedd rhywiol |
| | (9)Disgyblion eraill wedi bod yn ei fwlio/bwlio drwy negeseuon testun, galwadau ffôn neu luniau |
| | (10)Disgyblion eraill wedi bod yn ei fwlio/ei bwlio ar y cyfrifiadur drwy negeseuon cas a sarhaus, galwadau, sylwadau neu luniau ar Weplyfr (Facebook) neu drwy gyfryngau cymdeithasol eraill |
| | (11) Disgyblion eraill wedi bod yn ei fwlio/ei bwlio mewn ffordd arall. Sut? |

2. Sawl gwaith mae'r bwlio wedi digwydd? Dewiswch yr ateb gorau.

| | |
|---|---|
| | (1)Unwaith neu ddwywaith |
| | (2)Tair gwaith neu fwy |

3. Pryd oedd y tro diwethaf i'r bwlio ddigwydd? ________________________

4. Ers faint mae'r bwlio'n digwydd? Dewiswch yr ateb gorau.

| | |
|---|---|
| | (1)Wythnos neu bythefnos |
| | (2)Mis |
| | (3)2-6 mis |
| | (4) 6-12 mis |
| | (5)_____o flynyddoedd |

5. Y disgyblion sydd wedi cymryd rhan weithredol yn y bwlio (enw, dosbarth)

| ENW | DOSBARTH |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |

6. Disgyblion a allai gefnogi'r dioddefwr (enw, dosbarth)

| ENW | DOSBARTH |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

Disgrifiad o'r digwyddiadau/Gwybodaeth ychwanegol

| |
|---|
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |

7. Yr athro dosbarth wedi cael gwybod am y drafodaeth, dyddiad ------20-----
Disgrifiad o'r digwyddiadau/Gwybodaeth ychwanegol

| |
|---|
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |

8. Yr athro dosbarth wedi siarad gydag aelodau o'r dosbarth sydd wedi eu dewis i gefnogi'r dioddefwr, dyddiad _____20_____

| |
|---|
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |

9. Cysylltwyd â'r rhieni/gwarcheidwaid, dyddiad ____________20______

| |
|---|
| |
| |

**ATODIAD 5** *Y ffurflen i'w llenwi gan dîm KiVa*
**Ffurflen 3.**
**Trafodaethau unigol gyda'r bwlis.**

Mae'n well cynnal y trafodaethau ar yr un diwrnod.  Yn y ffordd hon, bydd y cyfan yn syrpreis i'r bwlis.

Disgybl ____________________________ Dosbarth _________________

Materion a nodwyd/Materion y cytunwyd arnynt yn ystod y drafodaeth

| |
|---|
| |
| |
| |
| |
| |

Materion a nodwyd/Materion y cytunwyd arnynt yn ystod y drafodaeth

| |
|---|
| |
| |
| |
| |
| |

Materion a nodwyd/Materion y cytunwyd arnynt yn ystod y drafodaeth

| |
|---|
| |
| |
| |
| |
| |

Materion a nodwyd/Materion y cytunwyd arnynt yn ystod y drafodaeth

| |
|---|
| |
| |
| |
| |
| |

**ATODIAD 6**
**Ffurflen 4**
**Trafodaeth grŵp gyda'r bwlis**

*Y ffurflen i'w llenwi gan dîm KiVa*

Dyddiad _____20___

Nodiadau

**Atodiad 7** *Y ffurflen I'w llenwi gan dîm KiVa*

**Ffurflen 5**

**Trafodaeth ddilynol gyda'r dioddefwr**
Dyddiad ____20____

1. Yn ôl y dioddefwr mae'r bwlio wedi

| | |
|---|---|
| | (1)dod i ben |
| | (2)lleihau |
| | (3)aros yr un fath |
| | (4)cynyddu |

Nodiadau

| |
|---|
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |

**Atodiad 8**

**Ffurflen 6** *Y ffurflen i'w llenwi gan dîm KiVa*

Dyddiad ________20______

Ydy'r dioddefwr yn bresennol yn ystod y drafodaeth

| | |
|---|---|
| | (1) Ydy |
| | (2) Nac ydy |

Sylwadau a wnaethpwyd ar y cyd am y sefyllfa

| |
|---|
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |

Mesurau pellach posibl

| |
|---|
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |

Nodiadau

| |
|---|
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |

## Atodiad 9

**Atodiad D (i) GWASANAETHAU DYSGU**

**Cofnod o Ddigwyddiadau Bwlio yr ymdriniodd yr ysgol â hwy yn ystod tymor ________________ 20____.**

Mae'n rhaid i Benaethiaid gyflwyno adroddiad i'w Corff Llywodraethol bob tymor. Cesglir yr wybodaeth gan Adran Corff Llywodraethu'r Awdurdod Lleol ac fe'i hadroddir i'r Awdurdod lleol ac i'r Bwrdd Lleol o ran Diogelu Plant. .

Mae ffurflen cofnodi gwybodaeth i benderfynu a yw digwyddiad yn bodloni'r meini prawf ar gyfer digwyddiad bwlio, eisoes wedi ei dosbarthu i ysgolion.

| Y math o fwlio | Nifer y digwyddiadau | A gafodd y mater ei ddatrys? Do/Naddo/Yn parhau | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Gallu | | | |
| Oedran | | | |
| Ymddangosiad | | | |
| Bi-ffobia (ffobia yn erbyn pobl deurywiol) | | | |
| Anabledd | | | |
| Rhyw | | | |
| Homoffobig | | | |
| Plant sy'n derbyn gofal | | | |
| Anneuaidd | | | |
| Beichiogrwydd neu Famolaeth | | | |
| Hiliol | | | |
| Crefydd neu Gred | | | |
| Rhywiol | | | |
| Trawsffobig | | | |
| Gofalwyr Ifanc | | | |
| E-Ddiogelwch | | | |
| Arall | | | Rhowch fanylion: |

**DIGWYDDIADAU HILIOL**

Mae canllawiau Cynulliad Cymru yn datgan ei bod yn ddyletswydd ar ysgolion i roi gwybod i'r Awdurdod Lleol am bob digwyddiad hiliol. Er bod 'digwyddiadau hiliol' o bosibl wedi eu datrys ac wedi eu cofnodi yn y tabl uchod, dylid hefyd eu cofnodi ar wahân yma fel bod gan yr Awdurdod Lleol gofnod ohonynt bob tymor.

| Digwyddiadau Hiliol | Nifer | A yw'r mater wedi ei ddatrys? Ydy/Nac ydy | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| | | | |

Llofnod y Pennaeth___________________________ Cadeirydd ______________________________

Dyddiad Cyfarfod y Corff Llywodraethol ______________________Ysgol:___________________________

**DYLID DYCHWELYD Y FFURFLEN HON AT PAULINE LUCAS YN DILYN CYFARFOD TYMHOROL Y CORFF LLYWODRAETHOL**

**Atodiad 10**
**ATAL BWLIO – RHAI YMYRIADAU EFFEITHIO**

**Amser Cylch**

Mae'r athroniaeth sy'n sail i Amser Cylch neu Gylchoedd Ansawdd yn adlewyrchu parch rhwng y ddwy ochr a'r gallu i blant a phobl ifanc gael cyfleoedd i siarad, rhannu pryderon a chymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau. .

Mae diogelwch emosiynol o'r pwys mwyaf i Amser Cylch, a gaiff ei greu trwy reolau sylfaenol cadarn sydd â'r nod o ysgogi parch at bawb sy'n cymryd rhan. Gellir cymhwyso model yr Amser Cylch i lawer o leoliadau y mae plant a phobl ifanc yn treulio eu hamser ynddynt.

Mae Amser Cylch yn creu ethos cadarnhaol drwy ddarparu:

- Lle i wrando a chael gwrandawiad
- Amser a lle i adolygu a myfyrio ar yr hyn a ddysgwyd
- Ymdeimlad o gymuned a chyfrifoldeb

Gall y farn a'r syniadau a gaiff eu cyfnewid gynnwys amrywiaeth o wahanol destunau, gan gynnwys perthynas bersonol a chymdeithasol ag eraill, yn ogystal â bwlio. Gall Amser Cylch helpu i gefnogi datblygiad personol a chymdeithasol plant a phobl ifanc. Gall fod yn gyfle iddynt gael eu clywed, gan eu cyfoedion ac oedolion , a hynny mewn awyrgylch diogel a chefnogol.

Mae Amser Cylch yn datblygu parch pob cyfranogwr ac yn annog pobl i fod yn gyfrifol am eu gweithredoedd. O ganlyniad, mae'n effeithio ar sawl agwedd ar eu bywydau, gan gynnwys:

- Deallusrwydd emosiynol
- Sgiliau pendantrwydd
- Cymhelliad a chyflawniad unigol
- Gwella perthynas gadarnhaol ag eraill
- Datblygiad personol a chymdeithasol
- Creu ymddygiad digynnwrf a hunanddisgyblaeth
- Cydnabod a rheoli eu teimladau eu hunain a theimladau pobl eraill

**Cynlluniau Cyfeillio**

Cynlluniau yw'r rhain lle mae disgyblion hŷn yn cynorthwyo rhai iau mewn amrywiaeth o wahanol faterion, gan gynnwys bwlio, gwneud ffrindiau ac ymdopi â chyfnodau pontio. Gallai grwpiau o blant iau fod o'r un oedran. Gall y cynlluniau hyn gynnig clust I wrando a chymorth nad yw'n fygythiol ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc, yn ogystal â rhoi teimlad o ddiogelwch iddynt.

Gellir sefydlu Cynlluniau Cyfeillio ar gyfer unrhyw grŵp oedran, gan eu bod wedi eu seilio ar y ffaith bod pobl ifanc, pan fônt yn profi rhyw anesmwythyd neu bryder, yn ceisio cymorth gan bobl ifanc eraill, yn aml. Gall hyn ddigwydd, beth bynnag, mewn ffordd anffurfiol mewn unrhyw amgylchedd, ond mae cynllun cyfeillio yn rhoi strwythur a goruchwyliaeth iddo. Er mwyn i'r cynlluniau fod yn effeithiol, mae angen I'r cyfeillion hŷn gael rhywfaint o hyfforddiant. Nid yw hyn yn eu gwneud yn gwnselwyr proffesiynol mewn unrhyw ffordd, wrth gwrs. Dim ond pobl ifanc ydynt sy'n helpu disgyblion iau i feddwl am bryderon a allai fod ganddynt, a myfyrio yn eu cylch. Sail unrhyw gynllun cyfeillio yw'r ddealltwriaeth fod gan y rhai sy'n cymryd rhan nodweddion tebyg I'r rhai sy'n cael eu helpu, er enghraifft, oedran neu brofiad bywyd..

Gallai hyfforddiant gynnwys:

- Rheolau Sylfaenol
- Cyfrifoldebau
- Dyletswyddau
- Agweddau
- Sgiliau Holi
- Sgiliau Gwrando
- Cyfrinachedd
- Materion Amddiffyn Plant

Nod yr hyfforddiant fyddai hyrwyddo dull sensitif o wrando sy'n annog eraill i fynegi ac archwilio eu rhwystredigaethau. Dyma enghreifftiau o'r hyn y gall cyfaill ei wneud:

- Helpu plant a phobl ifanc sy'n cael eu bwlio
- Helpu plant sy'n teimlo'n unig ac sydd heb unrhyw ffrindiau yn ôl pob golwg
- Helpu pobl ifanc i ymdopi â chyfnodau pontio ac amgylcheddau newydd
- Cynrychioli barn pobl ifanc
- Awgrymu sut gellid gwella'r amgylchedd

**Atodiad 11**

**DOLENNI DEFNYDDIOL**

www.kidscape.org.uk/advice/advice-for-parents-and-carers

www.bullying.co.uk

http://www.childline.org.uk/explore/bullying/pages/bullying.aspx

www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/child-abuse-and-neglect/bullying-and-cyberbullying

www.thinkuknow.net

http://fis.ceredigion.gov.uk/

http://www.childcomwales.org.uk/

https://www.kidscape.org.uk/advice/advice-for-young-people/

http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/wellbeing/antibullying/are-you-being-bullied/?lang=cy

**Atodiad 12**

**GWYBODAETH I RIENI/GWARCHEIDWAID: AROLWG BODLONRWYDD**

Gellid anfon y ffurflen hon yn rhan o'r broses o gynnal trafodaethau ac adolygiadau dilynol ar ôl ymholiad ynghylch bwlio yn yr ysgol. Ni ddylid ei defnyddio os oes gweithdrefn gwyno ar y gweill.

Annwyl Riant/Warcheidwad

Yn dilyn eich ymholiad diweddar ynghylch bwlio, ysgrifennaf atoch i gael eich sylwadau ynglŷn â pha mor dda y deliodd yr ysgol â'r broblem. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon yn gyfrinachol o fewn yr ysgol ac er mwyn bod yn sail i'n hadolygiad o bolisi ac arfer. Ni ddefnyddir y manylion unigol yn ehangach oni bai ein bod yn gofyn am eich caniatâd penodol a chithau'n ei roi.

| |
|---|
| Pa mor hawdd oedd hi i'ch plentyn/i chi adrodd am y bwlio? (rhowch gylch o amgylch un*)*<br><br>1 (ddim yn hawdd) 2 3 4 5 (yn hawdd iawn) |
| Rhowch sylwadau os gallem wella: |
| Pa mor fodlon ydych chi ar yr hyn a wnaethom i wneud i'ch plentyn deimlo'n ddiogel? (rhowch gylch o amgylch un*)*<br><br>1 (ddim yn fodlon) 2 3 4 5 (yn fodlon iawn) |
| Rhowch sylwadau os gallem wella: |
| Pa mor fodlon ydych chi ar y cymorth a gafodd eich plentyn gan yr ysgol ers y digwyddiad bwlio? (rhowch gylch o amgylch un)*)*<br><br>1 (ddim yn fodlon) 2 3 4 5 (yn fodlon iawn) |
| Rhowch sylwadau os gallem wella: |

Ar y cyfan, pa mor fodlon ydych chi ar y ffordd y mae'r ysgol yn ymdrin â digwyddiadau bwlio?
(*rhowch gylch o amgylch un)*

1 2 3 4 5
(ddim yn fodlon) (yn fodlon iawn)

Rhowch sylwadau os gallem wella:

Unrhyw sylwadau eraill :

Diolch am ein helpu drwy gwblhau'r holiadur hwn. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth i ystyried yr hyn rydym yn ei wneud i fynd i'r afael â bwlio a gwneud [rhowch enw'r ysgol] yn ysgol lle mae disgyblion a rhieni'n hyderus ein bod yn onest am y problemau sy'n digwydd, yn hyderus nad ydym yn goddef ymddygiad bwlio ac yn hyderus bod ein systemau yn cefnogi'r plant.

Yr eiddoch yn gywir,

**Pennaeth**

Eitem Agenda 13

# CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **18 Mai 2021** |
| **Teitl:** | **Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2021-22 Llywodraeth Cymru** |
| **Diben yr adroddiad:** | **Cymeradwyo mabwysiadu Cynllun Rhyddhad Ardrethi Annomestig – Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2021-22 Llywodraeth Cymru fel Rhyddhad Ardrethi Annomestig Dewisol o dan Adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988** |
| **Er:** | **Penderfyniad** |
| **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Gareth Lloyd**<br>**Cyllid, Caffael a Diogelu'r Cyhoedd** |

Mewn ymateb i bandemig parhaus Covid-19 a'r effaith ar fusnesau, mae Llywodraeth Cymru wedi ymestyn y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22.

Bydd y cynllun yn darparu rhyddhad o 100% i fusnesau cymwys sy'n meddiannu eiddo â gwerth ardrethol o hyd at £500,000 ac sy'n gweithredu yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch, megis siopau, tafarnau a bwytai, campfeydd, lleoliadau perfformio a gwestai.

Amlinellir meini prawf cymhwysedd manylach ac eithriadau i'r rhyddhad yn y ddogfen ganllaw atodedig gan Lywodraeth Cymru.

Bydd y Cynllun, a ariennir yn llawn gan Lywodraeth Cymru, yn cefnogi oddeutu 1300 o fusnesau yng Ngheredigion gyda chyfanswm gwerth amcangyfrifedig o £9.38m.

Gan fod darparu'r cyllid yn gyllid dewisol o dan Adran 47 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 mae angen penderfyniad i fabwysiadu'r cynllun yng Ngheredigion.

| | | |
|---|---|---|
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam** | Na. Cynllun dros dro gan Lywodraeth Cymru yw hwn sy'n cael ei gynnig i bob Cyngor yng Nghymru i helpu i leihau baich Ardrethi Annomestig ar fusnesau cymwys yn ystod pandemig |

| | |
|---|---|
| | Covid-19 yng Nghymru. |
| | ***Crynodeb:*** |
| | **Hirdymor:** Amherthnasol |
| | **Cydweithio:** Amherthnasol |
| | **Cynnwys:** Amherthnasol |
| | **Atal:** Amherthnasol |
| | **Integreiddio:** Amherthnasol |
| **Argymhelliad:** | **Argymhellir bod y Cabinet:**<br><br>**Yn mabwysiadu Cynllun Rhyddhad Ardrethi Annomestig - Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2021-22 Llywodraeth Cymru fel Rhyddhad Ardrethi Annomestig Dewisol o dan Adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988.** |
| **Y rheswm dros y penderfyniad:** | **Er mwyn cefnogi busnesau lleol gan ddefnyddio'r cyllid grant sydd ar gael.** |
| **Trosolwg a Chraffu:** | **Ni chyfeiriwyd y Cynllun at Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol gan mai Cynllun dros dro gan Lywodraeth Cymru ydyw.** |
| **Fframwaith Polisi:** | **Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022** |
| **Blaenoriaethau Corfforaethol:** | **Hybu'r Economi** |
| **Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** | **Ariennir y cynllun drwy grant gan Lywodraeth Cymru a bydd unrhyw ryddhad a ddyfernir yn unol â'r canllawiau/cynnig grant yn cael ei ad-dalu i Geredigion.** |
| **Goblygiadau Cyfreithiol:** | **Dim** |
| **Goblygiadau Staffio:** | **Dim** |
| **Goblygiadau o ran eiddo/asedau:** | **Dim** |
| **Risgiau:** | **Bydd methu â mabwysiadu'r cynllun yn golygu y bydd trethdalwyr Ceredigion o dan anfantais ariannol a bydd Llywodraeth Cymru yn tynnu ei chyllid yn ôl.** |
| **Pwerau Statudol:** | **Adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988** |
| **Papurau Cefndir:** | **Canllawiau Llywodraeth Cymru ar y cynllun** |

| | |
|---|---|
| **Atodiadau:** | **Cynllun Rhyddhad Ardrethi Annomestig - Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2021-22 Llywodraeth Cymru** |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | **Stephen Johnson** |
| **Swyddog Adrodd:** | **Ann Ireland, Rheolwr Corfforaethol – Refeniw ac Asesiadau Ariannol** |
| **Dyddiad:** | **14 Ebrill 2021** |

# Ardrethi Annomestig - Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch yng Nghymru – 2021-22

Canllawiau

## Disgrifiad o’r canllawiau

Lluniwyd y canllawiau hyn i helpu cynghorau sir a bwrdeistref sirol (“awdurdodau lleol”) i weinyddu’r cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch (“y rhyddhad”). Ar 3 Mawrth 2021, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd y byddai'r rhyddhad ardrethi'n cael ei ehangu dros dro ar gyfer 2021-22. Mae’r canllawiau hyn yn berthnasol i Gymru yn unig.

Mae’r canllawiau yn gosod y meini prawf y bydd Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i bennu cyllid i awdurdodau lleol ar gyfer rhyddhad ardrethi sy’n cael ei ddarparu i eiddo manwerthu, hamdden a lletygarwch. Nid yw’r canllawiau yn disodli unrhyw ddeddfwriaeth bresennol ar ardrethi annomestig nac unrhyw fath arall o ryddhad.

Dylid anfon unrhyw gwestiynau am y cynllun at: localtaxationpolicy@llyw.cymru

Mae’r rhyddhad yn cael ei gynnig o 1 Ebrill 2021 a bydd ar gael tan 31 Mawrth 2022.

## Cyflwyniad

Mae’r rhyddhad hwn wedi’i anelu at fusnesau a threthdalwyr eraill yng Nghymru yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch, er enghraifft siopau, tafarnau a bwytai, campfeydd, lleoliadau perfformio a gwestai.

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant i’r 22 awdurdod lleol yng Nghymru i ddarparu’r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch i dalwyr ardrethi sy’n gymwys ar gyfer 2021-22. Nod y cynllun yw darparu cymorth i eiddo cymwys sydd wedi’i feddiannu drwy gynnig 100% o ostyngiad ar y bil ardrethi annomestig ar gyfer eiddo, a hynny ar gyfer pob eiddo cymwys. Bydd y cynllun yn cynnwys pob talwr ardrethi cymwys sydd â gwerth ardrethol o £500,000 neu lai.

Mae’r ddogfen hon yn darparu canllawiau ynghylch rhoi’r cynllun hwn ar waith a’i gyflwyno.

# Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch

## Sut bydd y rhyddhad yn cael ei ddarparu?

Gan mai mesur dros dro yw hwn, rydym yn darparu'r rhyddhad drwy roi ad-daliad i awdurdodau lleol sy'n defnyddio'u pwerau rhyddhad ardrethi yn ôl disgresiwn o dan adran 47 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Yr awdurdodau lleol unigol eu hunain fydd yn mabwysiadu cynllun ac yn penderfynu ym mhob achos a ddylid caniatáu'r rhyddhad o dan adran 47. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi ad-daliad i'r awdurdodau lleol am y rhyddhad sy'n cael ei ddarparu yn unol â'r canllawiau hyn drwy grant o dan adran 31 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a adran 58A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## Sut bydd y cynllun yn cael ei weinyddu?

Yr awdurdodau lleol eu hunain fydd yn penderfynu sut i weinyddu'r cynllun er mwyn sicrhau bod cymaint â phosib yn cymryd rhan a bod cyn lleied â phosib o faich gweinyddol ar dalwyr ardrethi a staff yr awdurdod lleol.

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth glir a hygyrch i'r rhai sy'n talu'r ardrethi ynghylch manylion a gweinyddiaeth y cynllun. Os nad oes modd i awdurdod ddarparu'r rhyddhad hwn i dalwyr ardrethi cymwys o 1 Ebrill 2021 ymlaen, am ba bynnag reswm, dylid ystyried hysbysu talwyr ardrethi cymwys eu bod yn gymwys i gael y rhyddhad, ac y bydd eu biliau'n cael eu hailgyfrifo.

## Pa eiddo fydd yn gallu manteisio ar y rhyddhad?

Yr eiddo a fydd yn gallu manteisio ar y rhyddhad hwn fydd eiddo manwerthu, hamdden a lletygarwch – fel siopau, tafarnau a bwytai, campfeydd, lleoliadau perfformio a gwestai ledled Cymru. Ceir rhagor o fanylion am y meini prawf cymhwysedd a'r eithriadau i'r rhyddhad isod.

Dylai'r rhyddhad gael ei roi i bob busnes cymwys fel gostyngiad yn ei fil ardrethi yn seiliedig ar feddiannaeth rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022. Cydnabyddir bod rhai achosion lle bydd awdurdod lleol yn cael gwybod yn ôl-weithredol bod newid wedi bod o ran meddiannydd. Mewn achosion o'r fath, os yw'n glir bod y talwr ardrethi yn meddiannu'r eiddo ar 1 Ebrill 2021 neu wedi hynny, caiff yr awdurdod lleol ddefnyddio'i ddisgresiwn wrth ddyfarnu'r rhyddhad.

At ddibenion y cynllun hwn, bydd eiddo manwerthu fel "siopau, bwytai, caffis a llefydd sy'n gwerthu diod" yn golygu fel a ganlyn (yn ddarostyngedig i feini prawf eraill yn y canllawiau).

**Hereditamentau sy'n cael eu defnyddio i werthu nwyddau i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â nhw**

- Siopau (fel siop flodau, siop fara, cigydd, groser, siop ffrwythau a llysiau, gemydd, siop bapur ysgrifennu, siop drwyddedig, siop bapur newydd, siop caledwedd, archfarchnad ac ati)
- Siopau elusen
- Optegydd
- Fferyllfeydd
- Swyddfeydd post
- Siopau dodrefn neu ystafelloedd arddangos (fel siopau carpedi, gwydr dwbl, drysau garej)
- Ystafelloedd arddangos ceir neu garafannau
- Canolfannau gwerthu ceir ail law
- Marchnadoedd
- Gorsafoedd petrol
- Canolfannau garddio
- Orielau celf (lle mae modd prynu neu logi gwaith celf)

**Hereditamentau sy'n cael eu defnyddio i ddarparu'r gwasanaethau canlynol i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â nhw**

- Gwasanaethau trin gwallt a harddwch
- Trwsio esgidiau/torri allweddi
- Asiantaethau teithio
- Swyddfeydd tocynnau, ee ar gyfer y theatr
- Gwasanaethau sychlanhau
- Golchdai
- Trwsio cyfrifiaduron, setiau teledu neu gyfarpar domestig
- Trefnwyr angladdau
- Prosesu lluniau
- Llogi DVD neu fideo
- Llogi offer
- Llogi ceir
- Swyddfeydd gwerthu a gosod tai

**Hereditamentau sy'n cael eu defnyddio i werthu bwyd a/neu ddiod i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â nhw**

- Bwytai
- Bwytai archebu o’r car
- Siopau tecawê
- Siopau brechdanau
- Caffis
- Siopau coffi
- Tafarnau
- Bariau neu fariau gwin

Rydym yn ystyried bod ymgynnull a hamdden yn golygu’r canlynol:

**Hereditamentau sy'n cael eu defnyddio i ddarparu chwaraeon, hamdden a chyfleusterau i aelodau o’r cyhoedd sy’n ymweld â nhw (gan gynnwys i wylio gweithgareddau o’r fath) ac i ymgynnull aelodau o’r cyhoedd sy’n ymweld â nhw.**

- Meysydd a chlybiau chwaraeon
- Cyfleusterau chwaraeon a hamdden
- Campfeydd
- Atyniadau twristaidd
- Amgueddfeydd ac orielau celf
- Plastai a thai hanesyddol
- Theatrau
- Lleoliadau cerddoriaeth fyw
- Sinemâu
- Clybiau nos

**Hereditamentau sy'n cael eu defnyddio i ymgynnull aelodau o’r cyhoedd sy’n ymweld â nhw.**

- Neuaddau cyhoeddus
- Tai clybiau, clybiau a sefydliadau

Rydym yn ystyried bod gwestai, eiddo llety a phreswyl a llety hunanarlwyo yn golygu’r canlynol:

**Hereditamentau lle mae’r rhan annomestig yn cael ei defnyddio i ddarparu llety preswyl fel busnes:**

- Gwestai, tai llety a thai preswyl
- Cartrefi gwyliau
- Parciau a safleoedd carafannau

## Ystyriaethau eraill

Er mwyn gallu manteisio ar y rhyddhad, dylai'r hereditament gael ei ddefnyddio'n bennaf neu'n gyfan gwbl at y dibenion cymwys. Yn debyg i fathau eraill o ryddhad, yr hyn sy'n digwydd yn yr eiddo sy'n bwysig yn hytrach na'r ffaith ei fod yn cael ei ddefnyddio. Felly, os yw hereditamentau yn cael eu defnyddio, ond nid yn bennaf neu'n gyfan gwbl ar gyfer y pwrpas cymwys, ni fyddant yn gymwys i gael y rhyddhad. I osgoi amheuaeth, dylid ystyried bod hereditamentau a gaeodd dros dro oherwydd cyngor y Llywodraeth ar COVID-19 yn hereditamentau sydd wedi’u meddiannu at ddibenion y rhyddhad hwn.

Nid oes bwriad i'r rhestr uchod fod yn un gwbl drylwyr, gan y byddai'n amhosibl rhestru'r holl ddefnyddiau manwerthu, hamdden a lletygarwch amrywiol sy'n bodoli. Hefyd bydd rhai enghreifftiau'n codi o ddefnydd cymysg. Fodd bynnag, y bwriad yw rhoi arweiniad i'r awdurdodau lleol ynghylch y

mathau o ddefnydd sy'n gymwys am y rhyddhad ym marn Llywodraeth Cymru at y diben hwn. Dylai awdurdodau lleol benderfynu dros eu hunain a yw eiddo penodol nad yw ar y rhestr yn gyffredinol debyg o ran natur i'r uchod. Os felly dylid ei ystyried yn gymwys ar gyfer y cynllun. Yn yr un modd, os nad yw eiddo yn debyg yn gyffredinol i'r rhai ar y rhestr uchod, ni ddylai fod yn gymwys ar gyfer y cynllun.

Gan fod y rhyddhad ardrethi yn cael ei roi yn ôl disgresiwn, gall awdurdodau lleol benderfynu peidio â'i ganiatáu os ydynt yn teimlo mai dyna sy'n briodol, er enghraifft os yw hynny'n mynd yn groes i amcanion ehangach yr awdurdod ar gyfer ardal leol.

Efallai y bydd trethdalwyr o’r farn eu bod wedi gallu parhau i fasnachu ar lefel sylweddol yn ystod y cyfyngiadau Coronafeirws, ac felly efallai na fyddent yn dymuno derbyn y rhyddhad. Dylid gwneud trefniadau i optio allan o dderbyn rhyddhad o’r fath gyda’r awdurdod lleol perthnasol.

## Y mathau o hereditamentau nad ydynt yn cael eu hystyried yn gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch

Unrhyw hereditament sydd â gwerth ardrethol o dros £500,000.

Mae'r rhestr ganlynol yn nodi'r mathau o ddefnydd nad ydynt yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru fel defnydd manwerthu, hamdden neu letygarwch at ddiben y cynllun hwn, ac na fyddai'n gymwys i gael y rhyddhad. Fodd bynnag, yr awdurdodau lleol eu hunain fydd yn penderfynu a yw hereditamentau yn debyg o ran natur i'r rhai sy'n cael eu rhestru ac os na fyddent yn gymwys i gael y rhyddhad o dan y cynllun.

**Hereditamentau sy'n cael eu defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu'r gwasanaethau canlynol i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â nhw**

- Gwasanaethau ariannol (ee banciau, cymdeithasau adeiladu, peiriannau arian parod, bureaux de change, benthycwyr diwrnod cyflog, siopau betio, gwystlyddion)
- Gwasanaethau meddygol (ee milfeddygon, deintyddion, meddygon, osteopathiaid, ceiropractyddion)
- Gwasanaethau proffesiynol (ee cyfreithwyr, cyfrifwyr, asiantaethau yswiriant, ymgynghorwyr ariannol, tiwtoriaid)
- Swyddfeydd dosbarthu Swyddfa’r Post
- Meithrinfeydd dydd
- Llety cŵn a chathod
- Clybiau casino a gamblo
- Cartrefi arddangos ac ystafelloedd marchnata
- Asiantaethau cyflogaeth

Mae nifer o fathau eraill o hereditament y mae Llywodraeth Cymru yn credu na ddylent fod yn gymwys ar gyfer y rhyddhad.

**Hereditamentau nad ydynt yn rhesymol hygyrch i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â nhw**

Os nad yw hereditamentau fel arfer yn rhesymol hygyrch i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â nhw, ni fyddant yn gymwys i gael rhyddhad o dan y cynllun hyd yn oed os oes defnydd atodol o'r hereditament y gellid ystyried ei fod yn syrthio o dan y disgrifiadau yn *Pa eiddo fydd yn gallu manteisio ar y rhyddhad?*

**Hereditamentau gwag**

Dylai pob eiddo sy'n wag ar 1 Ebrill 2021 gael ei eithrio rhag y rhyddhad hwn. Fodd bynnag, o dan y Rhyddhad Eiddo Gwag gorfodol, bydd eiddo gwag yn derbyn gostyngiad o 100% yn ei ardrethi ar gyfer y tri mis cyntaf (ac mewn rhai achosion y chwe mis cyntaf) o fod yn wag.

**Hereditamentau sy'n eiddo i awdurdod lleol neu sy'n cael eu rhentu neu eu rheoli ganddo**

Mae hereditamentau sy'n eiddo i awdurdod lleol neu sy'n cael eu rhentu neu eu rheoli ganddo, er enghraifft canolfannau ymwelwyr, siopau gwybodaeth i dwristiaid a siopau coffi neu siopau rhoddion sy'n rhan o adeiladau hanesyddol ac yn cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol, yn esempt o'r cynllun hwn.

## Faint o ryddhad sydd ar gael?

Cyfanswm y rhyddhad a ariennir gan y Llywodraeth sydd ar gael i bob eiddo o dan y cynllun hwn ar gyfer 2021-22 yw 100% o'r bil sy'n weddill, ar ôl gweithredu unrhyw ryddhad gorfodol ac unrhyw ryddhad arall yn ôl disgresiwn a ariennir gan grantiau adran 31, ac eithrio'r rhai pan fo awdurdodau lleol wedi defnyddio eu pwerau rhyddhad ehangach yn ôl disgresiwn a gyflwynwyd gan Ddeddf Lleoliaeth 2011 nad ariennir gan grantiau adran 31. Dylai'r Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch gael ei osod yn erbyn y bil net ar ôl gweithredu unrhyw ryddhad arall.

Bydd cymhwysedd ar gyfer y cynllun rhyddhad ardrethi a'r rhyddhad ei hun yn cael ei asesu a'i gyfrifo ar sail ddyddiol. Dylid defnyddio'r fformiwla ganlynol wrth benderfynu ar swm y rhyddhad ardrethi i'w ganiatáu ar gyfer hereditament penodol yn ystod blwyddyn ariannol:

> Swm y rhyddhad i'w ganiatáu = V
>
> V yw'r tâl dyddiol am yr hereditament ar gyfer y diwrnod trethadwy ar ôl gweithredu unrhyw ryddhad gorfodol ac unrhyw ryddhad arall yn ôl disgresiwn, ac eithrio'r rhai pan fo awdurdodau lleol wedi defnyddio eu pwerau rhyddhad yn ôl disgresiwn a gyflwynwyd gan Ddeddf Lleoliaeth 2011 nad ariennir gan grantiau adran 31.

Dylid cyfrifo hyn gan anwybyddu unrhyw addasiadau blwyddyn flaenorol i'r atebolrwydd sy'n syrthio ar y diwrnod.

Bydd busnesau sy'n talu ardrethi ac sy'n defnyddio mwy nag un eiddo yn gallu cael Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch ar gyfer pob eiddo cymwys.

Mae eiddo manwerthu, hamdden a lletygarwch sydd wedi'i eithrio o'r Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach oherwydd y rheolau amlfeddiannaeth yn gymwys am y cynllun rhyddhad hwn.

## Newidiadau i hereditamentau presennol gan gynnwys newid meddiant

Bydd eiddo gwag sy'n dechrau cael ei ddefnyddio ar ôl 1 Ebrill 2021 yn gymwys i gael y rhyddhad hwn.

Os oes newid meddiant yn ystod y flwyddyn ariannol, ar ôl i'r rhyddhad gael ei ddarparu i'r hereditament, bydd y meddiannydd newydd yn gymwys i dderbyn y rhyddhad ar sail pro-rata os ydynt yn gweithredu yn y sectorau manwerthu, hamdden neu letygarwch, yn seiliedig ar weddill y dyddiau meddiannu gan ddefnyddio'r fformiwla yn yr adran *Faint o ryddhad sydd ar gael?*

Dylid gweithredu'r gostyngiad yn ddyddiol gan ddefnyddio'r fformiwla a nodir uchod. Dylai hereditament a grëwyd o ganlyniad i raniad neu uniad yn ystod y flwyddyn ariannol, neu pan fo newid defnydd wedi bod, gael ei ystyried o'r newydd ar gyfer y gostyngiad ar y diwrnod hwnnw.

## Cymorth Gwladwriaethol

Yn dilyn diwedd cyfnod pontio ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd ar 31 Rhagfyr 2020, mae rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol yr UE yn berthnasol mewn rhai amgylchiadau yn unig. Gan nad yw'r rhyddhad wedi'i ariannu gan gronfa weddilliol yr UE, nid yw rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol yr UE bellach yn berthnasol ar gyfer y cynllun hwn. O 1 Ionawr 2021, daeth Trefn Gymhorthdal y DU i rym. Bernir fod y cynllun y tu hwnt i gwmpas unrhyw gytundebau masnachu rhyngwladol gan fod mesurau yn canolbwyntio yn lleol yng Nghymru.

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **18 Mai 2021** |
| **Teitl:** | **Polisi Adnoddau Dynol: Polisi'r Gofalwyr** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Cymeradwyo Polisi Adnoddau Dynol - Polisi'r Gofalwyr** |
| **Er Penderfyniad** | |
| **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Ray Quant, Dirprwy Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth a Gwasanaethau Democrataidd** |

**CEFNDIR:**
Yn sgil y pandemig oherwydd Covid-19, bu oedi yn natblygiad y polisi newydd hwn gan y Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth, ond bellach mae wedi cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â Porth Cymorth Cynnar.

Mae'r polisi wedi bod yn destun ymgynghoriad â'r undebau llafur perthnasol, mae eu diwygiadau wedi'u hymgorffori ac ers hynny cytunwyd yn eu cylch.

Pwrpas pob polisi a gweithdrefn staff yw nodi'n glir yr ymddygiadau, y prosesau a'r gweithdrefnau sy'n ofynnol i staff eu cyflawni, sut y gallant gael cyngor neu gefnogaeth a, lle bo hynny'n berthnasol, sut y gallant ddysgu am y canlyniadau o beidio â chadw at y polisi a/neu'r weithdrefn.

Pwrpas y polisi newydd hwn yw nodi gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer cydnabod a chefnogi gweithwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu sylweddol ochr yn ochr â'u cyflogaeth â thâl.

Mae'r polisi'n egluro'r gefnogaeth sydd eisoes ar gael i ofalwyr fel gweithwyr Cyngor Sir Ceredigion, megis opsiynau gweithio oriau hyblyg, amser o'r gwaith ar gyfer pobl ddibynnol (di-dâl), absenoldeb rhiant (di-dâl), cefnogaeth gan yr Uned Gofalwyr a'r gwasanaethau a ddarperir gan ein rhaglen cymorth i weithwyr, Care First.

Mae'r polisi hefyd yn cyflwyno cefnogaeth ychwanegol i weithwyr sy'n gofalu gyda'r nod o gadw eu gwasanaethau yn yr hirdymor:
- Pasbort Gofalwyr – dogfen sy'n cydnabod cyfrifoldebau gofalu ac sy'n drosglwyddadwy os yw'r gweithiwr yn newid rôl; ac
- Absenoldeb Gofalwyr – hawl i'r gweithwyr hynny sydd â Phasbort Gofalwyr gael hyd at 5 diwrnod â thâl mewn unrhyw gyfnod treigl o 12 mis i gyflawni eu cyfrifoldeb gofalu.
- Creu Rhwydwaith Gofalwyr ar gyfer gweithwyr y Cyngor.

Cyflwynwyd y polisi i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 13 Mai 2021.

| | |
|---|---|
| | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam** Polisïau mewnol |
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | ***Crynodeb:*** <br> **Hirdymor:** <br> **Integreiddio:** <br> **Cydweithio:** <br> **Cynnwys:** <br> **Atal:** |
| **Argymhelliad :** | **Argymell fod Polisi'r Gofalwyr yn cael ei gymeradwyo** |
| **Rhesymau dros y penderfyniad:** | **Er mwyn cydnabod a chefnogi gweithwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu sylweddol ochr yn ochr â'u cyflogaeth â thâl.** |
| **Trosolwg a Chraffu:** | Adnoddau Corfforaethol 13 Mai 2021 |
| **Fframwaith Polisi:** | |
| **Blaenoriaethau Corfforaethol:** | Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd |
| **Goblygiadau Ariannol a Chaffael:** | |
| **Goblygiadau Cyfreithiol:** | |
| **Goblygiadau o ran staffio:** | |
| **Goblygiadau o ran eiddo/asedau:** | |
| **Risg(iau):** | |
| **Pwerau Statudol:** | |
| **Papurau Cefndirol:** | |
| **Atodiadau:** | Atodiad 1 – Polisi'r Gofalwyr |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Geraint Edwards |
| **Swyddog Adrodd:** | Geraint Edwards |
| **Dyddiad:** | 7 Mai 2021 |

Cyngor Sir Cyngor Sir Ceredigion

Adnoddau Dynol | Human Resources

# DRAFFT

Polisi a Gweithdrefn

# Polisi Gofalwyr

Ionawr 2021

www.ceri.ceredigion.gov.uk

**Rheoli Fersiynau**

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Sylw |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Rhagfyr 2020 | Adnoddau Dynol | |

## Cynnwys

Rhan 1 - Polisi ........ 4
1. Cyflwyniad ........ **Error! Bookmark not defined.**
2. Nodau ac Amcanion ........ **Error! Bookmark not defined.**
3. Cwmpas y Polisi ........ **Error! Bookmark not defined.**
4. Prif Egwyddorion ........ 5
5. Diffiniad – Pwy sy'n ofalwr? ........ 5
Rhan 2 – Rôl a Chyfrifoldebau ........ 5
6 Rôl a Chyfrifoldebau ........ 5
Rhan 3 – Hawliau Gofalwyr ........ 7
7. Hawliau Gofalwyr. ........ 7
Rhan 4 – Cefnogi Gofalwyr ........ 7
8. Opsiynau Cymorth ........ 7
9. Opsiynau Gweithio'n Hyblyg ........ 7
10. Opsiynau Absenoldeb ........ 9
11. Cymorth Ychwanegol ........ 11
12. Rhwydwaith Gofalwyr ........ 13
Rhan 5 – Pasbort Gofalwyr ........ 13
13. Pasbort Gofalwyr ........ 13
Rhan 6 – Cysylltiadau defnyddiol ........ 15

# Rhan 1 - Polisi

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae dros 220,000 o ofalwyr mewn cyflogaeth yng Nghymru – hynny yw, mae 1 o bob 7 o'r gweithlu yn ceisio ymdopi â chyfrifoldebau gofalu a chyflogaeth â thâl, amcangyfrifir fod posibilrwydd yn y sector cyhoeddus fod hyn yn 1 o bob 5 o'r gweithlu. Nodir ymhellach bod 6% o boblogaeth oedolion Cymru wedi rhoi gorau i'w swydd er mwyn gofalu am rywun (Gofalwyr Cymru 2019).

1.2 Roedd disgwyl i nifer y gofalwyr yn y Deyrnas Unedig gynyddu 50% i 9.1m erbyn 2037, ond mae amcangyfrifon newydd yn dangos y bydd y ffigur yn uwch o lawer gan fod y nifer eisoes wedi cyrraedd 8.8 miliwn (Arolwg YouGov 2019). O ganlyniad, bydd mwy fyth o bobl yn cyfuno gwaith a gofalu.

1.3 Rydym yn ymwybodol fod gan lawer o weithwyr y Cyngor gyfrifoldebau gofalu, a bod gofalwyr yn rhan sylweddol o'r gweithlu.

1.4 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio'n hyblyg trwy greu'r amgylchedd cywir sy'n cefnogi gwaith yr holl weithwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu er mwyn iddynt reoli'r cydbwysedd rhwng eu bywyd a'u gwaith a sicrhau gwasanaeth gwych i'n cwsmeriaid.

1.5 Ar hyn o bryd mae Cyngor Sir Ceredigion yn gyd-aelod o Gyflogwyr i Ofalwyr (Employers for Carers) gyda sefydliadau partner, sef Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Penfro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r Cyngor ymgysylltu a chael gafael ar adnoddau Hwb Cyflogwyr i Ofalwyr Cymru.

## 2. Nodau ac Amcanion

2.1 Amcanion y polisi hwn yw:

- Cefnogi gweithwyr i aros yn y gwaith, cyflawni eu potensial gyrfa a chyflawni eu cyfrifoldebau gofalu.
- Cefnogi gweithwyr i gael cydbwysedd rhwng eu gwaith a'u cyfrifoldebau gofalu trwy amlinellu ystod o bolisïau a chymorth sydd eisoes yn bodoli iddynt, a datblygu cwmpas y ddogfen hon ymhellach.
- Cynyddu ymwybyddiaeth rheolwyr a gweithwyr eraill o anghenion gofalwyr er mwyn sicrhau ymateb cydymdeimladol i gyfrifoldebau/anghenion gofalu.
- Gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr i archwilio'r holl opsiynau ymarferol er mwyn eu galluogi i barhau i fod yn weithwyr effeithiol.
- Helpu i gael gwared ar unrhyw ymdeimlad o unigedd a diffyg cefnogaeth y mae gofalwyr yn aml yn ei ddioddef.

## 3. Cwmpas y Polisi

3.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl weithwyr sydd o dan gontract cyflogaeth gyda Chyngor Sir Ceredigion, ac eithrio'r gweithwyr hynny a gyflogir gan Gyrff Llywodraethu ysgolion.

## 4. Prif Egwyddorion

4.1 Mae'r Cyngor o'r farn fod cyfrifoldeb arno i gefnogi gweithwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu ac felly i fod mor hyblyg â phosibl yn ei ddull gweithredu, gan gydbwyso amgylchiadau pob unigolyn ag anghenion y Cyngor.

4.2 Mae'r polisi hwn wedi'i gynllunio i fod yr un mor berthnasol i bob gweithiwr.

4.3 Ni fydd gweithwyr yn destun gwahaniaethu yn eu herbyn mewn unrhyw ffordd ar sail eu cyfrifoldebau gofalu a bydd egwyddorion polisi Cyfle Cyfartal y Cyngor yn hanfodol wrth roi darpariaethau gofalu ar waith. Yn benodol, ni fydd y Cyngor yn gwahaniaethu yn erbyn gofalwyr o ran:

- mynediad at gyfleoedd dysgu a datblygu;
- cyfleoedd dyrchafu yn y gweithlu;
- cyfleoedd secondiad; ac
- unrhyw gyfleoedd eraill ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol

4.4 Caiff y polisi hwn ei adolygu yn sgil profiad gweithredol parhaus neu unrhyw newidiadau deddfwriaethol dilynol.

## 5. Diffiniad – pwy sy'n ofalwr

5.1 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio gofalwr fel person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl. Gall hyn fod yn weithiwr sy'n gofalu am berthynas, partner, ffrind neu gymydog nad yw'n gallu ymdopi heb gymorth oherwydd oedran, nam neu gyflwr iechyd, problem cyffuriau neu alcohol neu salwch hirdymor. Mae'r gofal a roddir ganddynt yn ddi-dâl. Mae hefyd yn cynnwys rhieni-ofalwyr (neu berson sydd wedi cymryd cyfrifoldeb rhiant) ar blentyn neu berson ifanc o dan 18 oed sydd angen cymorth oherwydd nam corfforol neu feddyliol neu gyflwr iechyd hirdymor.

5.2 O ran cefnogi gweithwyr yn y gweithle, mae Cyngor Sir Ceredigion a'i bartneriaid wedi cymeradwyo defnyddio diffiniad Cyflogwyr i Ofalwyr, sef: "Mae gofalwyr yn cynorthwyo aelodau o'r teulu, partneriaid neu ffrindiau sydd angen help oherwydd eu bod yn anabl, yn hŷn neu'n ddifrifol wael. Mae gofalwyr yn weithwyr sydd â chryn gyfrifoldebau gofalu sy'n cael effaith sylweddol ar eu bywydau gwaith. Mae'r gweithwyr hyn yn gyfrifol am ofalu a chefnogi teulu neu ffrindiau hŷn, anabl neu sâl nad ydynt yn gallu gofalu amdanynt eu hunain."

5.3 Gall gofalwyr yn y Cyngor fod yn cefnogi plentyn, oedolyn ifanc neu aelod hŷn o'r teulu, partner neu ffrind sy'n ddifrifol wael neu'n anabl.

# Rhan 2 – Rôl a Chyfrifoldebau

## 6 Rôl a Chyfrifoldebau

Mae'n bwysig fod pawb yn deall yn glir eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y broses hon.

6.1 Cyfrifoldebau Gweithwyr
Nid oes rheidrwydd ar weithwyr i ddatgelu i'w rheolwyr eu bod yn gofalu am rywun ond cânt eu hannog i wneud hynny er mwyn elwa o'r gefnogaeth sydd ar gael gan y Cyngor.

- Cydnabod bod angen i reolwyr fod yn ymwybodol o'r problemau y mae gweithiwr yn delio â nhw.
- Cydnabod y gall cydweithwyr fod yn gefnogol iawn, a gallai fod o gymorth iddynt drafod ymrwymiadau gofalu gyda chydweithwyr yn y gwaith.
- Cydweithio â rheolwyr i archwilio'r holl opsiynau ymarferol er mwyn eu galluogi i barhau i fod yn weithwyr effeithiol wrth gydbwyso ymrwymiadau gwaith a gofalu.
- Cydweithredu â'r rheolwyr wrth weithredu'r polisi yn effeithiol, a'i fonitro.
- Sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf ar eu Pasbort Gofalwyr (gweler Adran 5) os ydynt yn dewis cael un.

6.2 Cyfrifoldebau Rheolwyr

Yn ogystal â'u cyfrifoldebau fel gweithwyr, mae rheolwyr hefyd yn gyfrifol am y canlynol:

- Gweithredu'r polisi yn deg ac yn rhesymol heb fawr o effaith niweidiol ar effeithlonrwydd neu wasanaeth cyffredinol.
- Sicrhau bod rheolwyr a gweithwyr yn gyfarwydd â'r polisi hwn ac yn gwybod am y gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr.
- Cefnogi gweithwyr i gyflawni eu potensial yn y gwaith ac i gyflawni eu cyfrifoldebau gofalu.
- Rhoi ystyriaeth gydymdeimladol i geisiadau am gefnogaeth gan weithwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu, gan roi sylw dyledus i faterion cyfrinachedd, ac yn seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth o'r sefyllfa a'r effaith y mae'n ei chael.
- Trefnu cyfarfod cyfrinachol un-i-un gyda'r gweithiwr i drafod Pasbort Gofalwr os yw'r gweithiwr yn dewis cael un.
- Sicrhau yr ystyrir addasiadau rhesymol ar gyfer gweithwyr sy'n Ofalwyr.
- Delio â cheisiadau yn hollol gyfrinachol a pheidio â rhannu gwybodaeth oni bai pan fo'r gofalwr wedi gofyn i hynny ddigwydd.

6.3 Rôl Adnoddau Dynol

- Rhoi cefnogaeth ac arweiniad i reolwyr wrth roi'r polisi hwn ar waith.
- Cefnogi'r gweithiwr gydag unrhyw opsiynau adleoli os oes rhai ar gael.
- Monitro'r defnydd ar y polisi a'i effeithiolrwydd, gan ei adolygu o bryd i'w gilydd.

# Rhan 3 – Hawliau Gofalwyr

## 7. Hawliau Gofalwyr.

- Yr hawl i ofyn am gael gweithio'n hyblyg (26 wythnos o wasanaeth parhaus)
- Yr hawl i gael amser o'r gwaith ar gyfer pobl ddibynnol (Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996)
- Yr hawl i gael amser o'r gwaith mewn argyfyngau (cyfnod rhesymol o'r gwaith)
- Absenoldeb rhiant (blwyddyn o wasanaeth parhaus, i blentyn o dan 18)
- Amddiffyniad rhag Gwahaniaethu (Deddf Cydraddoldeb 2010)

# Rhan 4 – Cefnogi Gofalwyr

## 8. Opsiynau Cymorth

8.1 Mae ystod o opsiynau ar gael i'r Cyngor i gynorthwyo Gofalwyr i barhau i weithio gan gadw cydbwysedd effeithiol rhwng eu hymrwymiadau gwaith a gofalu. Mae'r opsiynau hyn yn cynnwys:

- Rhaglen Hyfforddi Gwydnwch a Lles Gofalwyr
- Atgyfeirio at wybodaeth bellach drwy Gylchgrawn Gofalwyr Cyngor Sir Ceredigion a Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr, ac at ddigwyddiadau megis Diwrnod Hawliau Gofalwyr
- Pasbort Gofalwyr
- Opsiynau i weithio'n hyblyg
- Opsiynau bod i ffwrdd o'r gwaith gan gynnwys darpariaethau absenoldeb arbennig
- Cymorth iechyd a lles
- Cefnogi gofalwyr sydd am ddychwelyd yn ôl i'r gwaith
- Rhaglen Cymorth i Weithwyr sydd ar gael bob awr o'r dydd (gwasanaethau ffôn ac ar-lein Care First)
- Cefnogaeth wedi'i darparu i ofalwyr trwy wasanaethau gydol oes Porth Gofal, gan gynnwys mynediad at Asesiad Anghenion Gofalwyr

8.2 Yn aml, gall gofalu fod yn brofiad llawn straen ac yn emosiynol flinedig. Gall gweithwyr wynebu argyfyngau trawmatig, sy'n newid eu bywydau, weithiau dros nos – os caiff anwylyn ei daro'n wael neu os yw'n cael damwain wael, er enghraifft. Neu, gallant fod yn gofalu am rywun sydd â salwch angheuol am sawl mis neu'n gofalu am riant oedrannus. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd rhaid i reolwyr fod yn sensitif yn ogystal ag yn hyblyg. Er enghraifft, drwy gydnabod y gall fod angen i weithwyr wneud neu dderbyn galwadau ffôn preifat mewn cysylltiad â'r bobl sy'n ddibynnol arnynt.

## 9. Opsiynau Gweithio'n Hyblyg

9.1 Polisi Gweithio'n Hyblyg
Pwrpas y polisi yw ffurfioli'r 'hawl i ofyn' am newid i oriau gwaith neu weithle er mwyn gweithio'n hyblyg, sef hawl sydd gan bob gweithiwr sydd ag o leiaf 26 wythnos o wasanaeth parhaus. Rhaid i'r penderfyniad ynghylch caniatáu gweithio'n hyblyg ai peidio ystyried anghenion y busnes. Gall enghreifftiau o weithio hyblyg gynnwys hyblygrwydd gydag amser dechrau, gorffen ac amser

egwyl arferol, gweithio'n rhan amser, wythnos waith gywasgedig, gweithio o gartref, desg boeth, gweithio yn ystod amser y tymor yn unig, gweithio oriau blynyddol, rhannu swydd neu newid y diwrnodau arferol a weithir.

9.2 Mae'r polisi:

- yn amlinellu'r weithdrefn ddiffiniedig ar gyfer ystyried ceisiadau gan gynnwys amserlenni a gweithdrefn apelio;
- yn nodi y bydd cais llwyddiannus yn arwain at wneud newid parhaol i'r contract cyflogaeth, ond gellir treialu'r trefniadau yn gyntaf;
- yn caniatáu dim ond un cais fel arfer mewn unrhyw gyfnod o 12 mis; ac
- yn nodi rhai ffactorau i'w hystyried ar gyfer pob cais.

9.3 Gwneud cais am weithio'n hyblyg am gyfnod byr
(amrywiad dros dro i gontract)
Gellir hefyd defnyddio cais i gael gweithio'n hyblyg i wneud newidiadau dros dro i batrymau gweithio. Os yw'r gweithiwr ond yn gofyn am newid i weithio'n hyblyg yn anffurfiol am gyfnod byr, er enghraifft yn dilyn profedigaeth, yna gall y rheolwr ystyried newid dros dro e.e. hyblygrwydd o ran amser dechrau, gorffen ac amser egwyl arferol, lleihau oriau gweithio (gan addasu'r cyflog i adlewyrchu'r trefniant newydd), patrymau gwaith cywasgedig. Gallai'r gweithiwr wedyn fynd yn ôl i'w gontract cyflogaeth gwreiddiol yn dilyn y cyfnod y cytunwyd arno. Rhaid i weithwyr ddeall os yw rheolwr yn cytuno i'r cais dan yr 'hawl i wneud cais' statudol, nid oes ganddynt hawl statudol i wneud cais am amrywiad arall yn eu contract am gyfnod o 12 mis er bod modd iddynt wneud cais heb yr hawl statudol.

9.4 Ystyrir ceisiadau hefyd gan y gweithwyr hynny sydd â llai na 26 wythnos o wasanaeth. I gael rhagor o wybodaeth, gweler y polisi Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith sydd ar gael ar Cerinet https://cerinet.ceredigion.gov.uk/home

9.5 Cynllun Gweithio Oriau Hyblyg
Pwrpas y cynllun hwn yw rhoi modd i weithwyr ddewis eu horiau gwaith (o fewn paramedrau) wrth sicrhau nad oes unrhyw effaith niweidiol ar effeithlonrwydd cyffredinol darparu gwasanaeth o safon i'r cyhoedd.

9.6 Mae'r cynllun:

- yn berthnasol i weithwyr os ydynt yn llawn amser, yn rhan amser neu'n rhannu swydd (ac eithrio'r rheiny mewn swyddi a nodwyd i fod yn anghydnaws â'r cynllun);
- yn caniatáu i weithwyr gael hyblygrwydd o ran eu hamser dechrau a gorffen ac amser egwyl arferol;
- yn rhoi modd cario uchafswm credyd o 16 awr ac 8 awr o ddebyd i'r cyfnod 8 wythnos canlynol; pro rata ar gyfer staff rhan amser;
- yn caniatáu i staff gymryd hyd at 2 ddiwrnod o absenoldeb hyblyg am bob cyfnod o 8 wythnos; pro rata ar gyfer staff rhan amser.

9.7 Gan gydnabod y ffaith na all pob gweithiwr ddefnyddio'r Cynllun Gweithio Oriau Hyblyg, dylid ystyried dod o hyd i ateb sy'n cynnig cydbwysedd bywyd a gwaith i weithwyr na allant o reidrwydd fanteisio ar y cynllun hwn. Gall hyn gynnwys gwasanaethau a thimau yn gweithio gyda'u rheolwyr ac Adnoddau Dynol i ddatblygu patrwm gweithio hyblyg posibl sy'n gweddu i gydbwysedd bywyd a gwaith gweithwyr ynghyd ag anghenion y busnes.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y polisi Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith sydd ar gael yn Cerinet https://cerinet.ceredigion.gov.uk/home

## 10 Opsiynau Absenoldeb

10.1 Yn ogystal â gwyliau blynyddol (ac absenoldeb gweithio hyblyg yn unol â'r uchod, pan fo ar gael), gall gweithwyr hefyd wneud cais am Absenoldeb Arbennig yn y polisi Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith, Amser i Ffwrdd ar gyfer Pobl Ddibynnol ac Absenoldeb Rhiant. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r rhain yn absenoldeb gyda chyflog.

10.2 **Absenoldeb Arbennig**
Y diben yw galluogi gweithwyr i gael cyfnodau o absenoldeb byr o'r gwaith i ddelio ag amrywiol faterion.

Mae darpariaethau ar gyfer absenoldeb arbennig i'w gweld yn y polisi Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith, sydd:

- yn diffinio'r nifer bach o ddiwrnodau pan fo'n bosib caniatáu absenoldeb arbennig (ar ben eich hawliad gwyliau blynyddol) a nifer y diwrnodau a ganiateir, nid yw'n rhestr gyflawn;
- yn cydnabod y gall amgylchiadau eithriadol godi pan fyddai'n briodol caniatáu absenoldeb arbennig;
- yn rhoi rhywfaint o amser amrywiol a rhesymol i ffwrdd o'r gwaith ar gyfer achlysuron megis profedigaeth, argyfyngau domestig / personol, apwyntiadau meddygol, dyletswyddau cyhoeddus, hyfforddiant ac ati;
- fel arfer yn drech na pholisïau megis Absenoldeb Rhiant ac Amser o'r Gwaith ar gyfer Pobl Ddibynnol pan fo modd cymeradwyo'r absenoldeb o dan y polisïau hynny hefyd;
- Bydd gofalwyr sydd â Phasbort Gofalwr (gweler Rhan 5) yn gallu hawlio hyd at bum diwrnod o Absenoldeb Gofalwyr (gyda chyflog llawn) o fewn unrhyw gyfnod o 12 mis bob blwyddyn i gyflawni eu cyfrifoldebau gofalu gan gynnwys pan fo'r unigolyn yn mynd yn sâl, angen mynychu apwyntiad meddygol, a mynychu apwyntiadau yn ymwneud â lles a gofal. Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth.

10.3 **Amser o'r Gwaith ar gyfer Pobl Ddibynnol**
O dan Ddeddf Gwaith a Theuluoedd 2006, diben yr hawl hwn yw galluogi pob gweithiwr i gael cyfnod rhesymol o amser di-dâl i ffwrdd o'r gwaith i ddelio â sefyllfaoedd annisgwyl sy'n gysylltiedig â dibynnydd ac i wneud unrhyw drefniadau tymor hirach angenrheidiol.

10.4 Mae'r polisi:

- yn diffinio "dibynnydd" at ddibenion y polisi hwn fel gŵr neu wraig, partner, plentyn neu riant y gweithiwr, person sy'n byw yn yr un aelwyd â'r gweithiwr (ac eithrio tenantiaid, lletywyr neu weithwyr sy'n byw ar y safle), neu berson sy'n dibynnu'n rhesymol ar y gweithiwr am gymorth;
- yn nodi'r rhesymau pam y gellir cymryd absenoldeb o'r math hwn;
- yn nodi y bydd darpariaethau Absenoldeb Arbennig Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith yn drech nag ef os oes modd cymeradwyo'r absenoldeb drwy hawl y ddarpariaeth Absenoldeb Gofalwyr.

10.5 **Absenoldeb Rhiant**

Y diben yw galluogi rhiant (biolegol, llys neu sy'n mabwysiadu) i dreulio amser di-dâl i ffwrdd o'r gwaith i ofalu am blentyn neu wneud trefniadau ar gyfer llesiant plentyn.

10.6 Mae'r Polisi:

- yn cynnig hyd at 4 wythnos o absenoldeb di-dâl mewn cyfnod o 12 mis hyd at ddim mwy na 18 wythnos ar gyfer pob plentyn;
- yn nodi bod yn rhaid cymryd yr absenoldeb mewn blociau o un wythnos (gellir cymryd diwrnodau unigol ar gyfer plentyn anabl);
- mae'r absenoldeb yn un gwahanol i absenoldeb sy'n gysylltiedig â chyfnod mamolaeth, absenoldeb rhiant a rennir, absenoldeb cefnogi mamolaeth, absenoldeb arbennig neu seibiant gyrfa;
- mae'r absenoldeb yn hawl unigol ac ni ellir ei drosglwyddo i rywun arall.

10.7 **Iechyd a Lles**

Fel rhan o ymrwymiad parhaus y Cyngor i lunio strategaeth iechyd a llesiant, caiff buddion i weithwyr eu hychwanegu'n barhaus. Mae rhagor o wybodaeth am fuddion i weithwyr cyflogedig ar dudalen wybodaeth y Cyngor ar y fewnrwyd, CeriNet.

10.8 **Cefnogi gofalwyr pan ddychwelant i'r gwaith**

Efallai y bydd y gweithiwr yn dioddef cyfnod gofidus dros ben ac angen cyfnod o amser i ffwrdd o'r gwaith a bydd angen eu cynorthwyo i ddychwelyd i'r gweithle os daw eu rôl gofalu i ben.

10.9 Yn ystod cyfnod absenoldeb y gweithiwr o'r gweithle, mae'n gyfrifoldeb ar y rheolwr i sicrhau ei fod yn cadw mewn cysylltiad â'r gweithiwr er mwyn rhoi gwybod iddo am unrhyw ddatblygiadau yn y gweithle ac unrhyw wybodaeth arall y gall fod ei hangen ar y gweithiwr i sicrhau ei fod yn dal i deimlo ei fod yn aelod o'r tîm. Bydd hyn yn sicrhau nad yw gweithwyr yn dechrau teimlo'n unig a hefyd yn gwneud y dasg o ddychwelyd i'r gwaith yn haws.

10.10 Gellir cynnig cymorth i weithwyr hefyd drwy wneud asesiad o anghenion hyfforddiant a gellid cynnal yr asesiad hwn cyn iddynt ddychwelyd i'r gwaith.

10.11 Dylid cynnig yr hyfforddiant a'r datblygu sydd eu hangen ar weithwyr i'w galluogi i ailymuno â'r gweithle. Mae'n bosib y bydd llawer o ofalwyr yn teimlo eu bod wedi colli eu sgiliau a'u hunanhyder a'u bod angen eu hyfforddi neu ailhyfforddi cyn y gallant wneud y gwaith. Y gofalwr a'r rheolwr ddylai fynd i'r afael â hyn wrth i'r gweithiwr ddychwelyd i'r gwaith neu cyn hynny. Gall y rheolwr nodi anghenion hyfforddi a datblygu trwy Gynllun Gwerthuso'r Cyngor ac/neu yn ystod sesiynau goruchwylio un-i-un.

10.12 **Rhaglen Cymorth i Weithwyr CERI+**

Gall gofalu am rywun arall roi llawer o straen ar ofalwyr. Mae'r Cyngor yn ymwybodol iawn o'r angen i gynnig Rhaglen Cymorth i Weithwyr a rhoi mesurau rheoli straen ar waith i sicrhau bod gweithwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr.

10.13 Gwybodaeth a rhif ffôn Care First – mae Care First yn agored i bob gweithiwr cyflogedig, gan gynnwys staff ysgolion ac mae'n cynnig cyngor a chymorth annibynnol, cyfrinachol dros y ffôn drwy'r dydd, bob dydd o'r flwyddyn ar gyfer

unrhyw faterion personol neu faterion sy'n gysylltiedig â'r gwaith. Rhif ffôn tîm Care First yw 0800 174319.

10.14 Mae'r gwasanaeth am ddim i weithwyr cyflogedig ac mae pob croeso iddynt ei ddefnyddio pryd bynnag y mae ei angen arnynt.

10.15 Gall gweithwyr gysylltu â Care First eu hunain. Nid oes angen gofyn am ganiatâd gan eu rheolwyr cyn cysylltu.

10.16 Drwy Care First gall gweithwyr fanteisio ar nifer o wasanaethau gan gynghorwyr Care First i'w helpu i ddod o hyd i ffyrdd ymarferol i symud ymlaen pan fyddan nhw'n teimlo eu bod yn cael eu llethu gan broblemau. Weithiau, y cyfan sydd ei angen i deimlo'n well yw cael y wybodaeth i wneud cynllun synhwyrol, a chymorth i wneud hynny.

10.17 Mae cynghorwyr Care First wedi cael hyfforddiant sylweddol i'w galluogi i ganfod beth sydd ei angen ar weithwyr a'u helpu i ailafael yn eu bywydau eto. Ymhlith y pynciau sy'n codi amlaf mae:

- *Materion Teuluol a Phersonol*: perthynas ag eraill, ysgariad, cynnal plant, trais domestig, gofalu am bobl oedrannus, gofal cymunedol, newid enw;
- *Dyledion*: credyd, dyled, banciau, benthyciadau, cydgrynhoi dyledion;
- *Yn y gweithle*: bwlio ac aflonyddu, hawliau/tâl mamolaeth, tâl salwch, iechyd a diogelwch yn y gwaith.

10.18 Rheoli Straen
Mae'r Cyngor yn cynnig cyrsiau ymwybyddiaeth straen, asesu risg straen a chyrsiau rheoli straen.

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch cyrsiau, ewch i CeriNet neu i'ch cyfrif hunanwasanaeth ar Ceri o dan y pennawd Dysgu a Datblygu.

## 11 Cymorth Ychwanegol

11.1 Mae'n bosib nad yw llawer o ofalwyr yn gwybod am y gwasanaethau statudol a gwirfoddol, budd-daliadau ariannol a buddion eraill sydd ar gael iddynt. Mae'n bwysig bod gweithwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu yn cael gwybod am y gwasanaethau cymorth hyn.

11.2 I gael rhagor o wybodaeth gweler http://www.ceredigion.gov.uk/Gofalwyr lle cewch wybodaeth ar Uned Gofalwyr Cyngor Sir Ceredigion a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr, a drwy'r gwasanaeth hwn byddwch yn gallu gweld y "Cylchgrawn i Ofalwyr" ac adnoddau taflen ffeithiau defnyddiol eraill, gwybodaeth am y Fforwm Gofalwyr a'u digwyddiadau, a'r llyfr "Dywedwch 'Dw i'n iawn'...a'i Olygu!", sydd wedi'i ysgrifenni'n benodol gyda gofalwyr ar gyfer gofalwyr.

11.3 Mae Cyngor Sir Ceredigion yn comisiynu Gwasanaeth Gofalwyr i gefnogi gofalwyr gyda chymorth personol i helpu gofalwyr i feddwl am eu lles eu hunain, ac opsiynau seibiannau tymor byr i ofalwyr. I gael rhagor o wybodaeth gweler www.gofalwyrceredigioncarers.cymru ac ar gyfer Gofalwyr Ifanc a Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc (18-25 oed), gweler www.afcwestwales.co.uk

11.4 Mae yna nifer fawr o sefydliadau elusennol/gwirfoddol lleol a chenedlaethol sy'n cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth i ofalwyr. Mae rhai ar gyfer salwch neu gyflwr penodol megis sefydliadau sy'n cefnogi pobl ag Alzheimer, er enghraifft, a'u gofalwyr/teuluoedd, neu bobl sydd wedi cael strôc a'u gofalwyr/teuluoedd. Gall eraill fod yn agored i bob oedran, neu wedi'u targedu at grŵp oedran penodol fel pobl dros 55 oed neu dan 18 oed a gallant roi cefnogaeth ac arweiniad ynghylch cymorth ymarferol, cefnogaeth emosiynol, cyngor ariannol a chyfle i gymdeithasu ac weithiau cefnogaeth i gael gafael ar gymorth ariannol. I gael rhagor o wybodaeth gweler y cyfeiriadur ar-lein yn www.dewis.cymru.

11.5 Mae rhai gofalwyr yn ei chael hi'n fuddiol cwrdd ag eraill sydd â phrofiad o fod yn ofalwr ac/neu eraill sydd â'r un cyflwr â'r person rydych chi'n gofalu amdano. Mae grwpiau cymorth yn gyfle i gwrdd ag eraill mewn sefyllfaoedd tebyg, rhannu cyngor, gwybodaeth, awgrymiadau, a chyfle i ymlacio a gwneud ffrindiau. I gael rhagor o fanylion am grwpiau cymorth yng Ngheredigion, a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, cysylltwch â Phorth y Gymuned y Cyngor ar 01545 574200.

11.6 Os yw gofalwyr yn ei chael yn fwyfwy anodd ymdopi ac angen cefnogaeth ddwysach, mae gwahanol ffyrdd y gall Gwasanaethau Cymdeithasol helpu, a gall y cymorth ychwanegol gynnwys cefnogaeth ar gyfer opsiynau mwy unigol megis Taliadau Uniongyrchol. Mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ddyletswydd statudol i sicrhau bod gofalwr yn cael cefnogaeth i gael asesiad am ddim o sefyllfa'r gofalwr, gelwir hyn yn Asesiad Anghenion Gofalwyr. I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn all fod ar gael, cysylltwch ag adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol lle mae'r person rydych yn gofalu amdano yn byw. Os yw'r person rydych yn gofalu amdano yn byw yng Ngheredigion, cysylltwch â Phorth Gofal Cyngor Sir Ceredigion 01545 574000 a mynd i http://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/lles-a-gofal/

11.7 Gwybodaeth i Ofalwyr am yr Asesiad Anghenion Gofalwyr, Dod Allan o'r Ysbyty, Canllaw Gofalwyr i Gynllunio ar gyfer Argyfyngau a'r Cerdyn Brys Gofalwyr www.ceredigion.gov.uk/gofalwyr

11.8 Gofalwyr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.
Mae cefnogi Gofalwyr yn flaenoriaeth i Hywel Dda. I gael rhagor o wybodaeth, gweler www.wales.nhs.uk/gofalwyr
Gofal iechyd a'ch Meddygfa.
Caiff gofalwyr eu hannog hefyd i gofrestru fel gofalwr gyda'u meddygfa. Mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi ennill dyfarniad "Buddsoddwyr mewn Gofalwyr", a byddant yn eich annog i gael y brechlyn ffliw sydd yn rhad ac am ddim i ofalwyr bob blwyddyn. Ewch i http://www.wales.nhs.uk/gofalwyr a chlicio drwyddo i'r dudalen Buddsoddwyr mewn Gofalwyr i gael ffurflen gofrestru a thaflen ar gyfer Ceredigion.

11.9 Gall eich meddygfa hefyd eich cefnogi i ystyried eich lles corfforol eich hun trwy'r Cynllun Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff; i gael rhagor o fanylion ewch i www.ceredigionactif.org.uk/gp

## 12. Rhwydwaith Gofalwyr

12.1 Mae pobl sydd â chyfrifoldebau gofalu yn wynebu llawer o wahanol sefyllfaoedd sy'n cael effaith uniongyrchol ar eu hiechyd a'u lles, eu perthynas gyda'u teuluoedd, a'u bywyd yn y gwaith. Gall gofalwyr wynebu llawer iawn o straen a gallant deimlo'n unig dros ben yn sgil eu cyfrifoldebau. Gall cwrdd ag eraill sydd mewn sefyllfaoedd tebyg gael effaith gadarnhaol iawn ar sut mae gofalwyr yn ymdopi. Mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod yn bwysig i'w weithwyr sy'n ofalwyr gael y cyfle i rannu gwybodaeth a phrofiad gyda gofalwyr eraill. Bydd y Cyngor yn ceisio annog creu Rhwydwaith Gofalwyr a allai fod ar ffurf cyfarfodydd anffurfiol neu drefnu i ofalwyr ddod i gysylltiad â'i gilydd.

12.2 Cynigir bod gweithwyr sy'n ofalwyr yn cyflwyno eu hunain er mwyn ymuno â'r Rhwydwaith Gofalwyr, gyda'r nod o gynnig fforwm i ofalwyr lle gallant fynegi eu barn, bod mewn cysylltiad â gofalwyr eraill a chefnogi ei gilydd er mwyn rhannu profiadau personol mewn lleoliad diogel a chyfrinachol. Gall yr aelodau fynychu cyfarfodydd/cymryd rhan yn ystod oriau gwaith.

12.3 Gall y Rhwydwaith Gofalwyr ddewis gwahodd aelod enwebedig o Adnoddau Dynol i fynychu'r cyfarfodydd yn rheolaidd neu'n achlysurol i roi gwybodaeth am unrhyw newidiadau a all fod yn berthnasol, neu i gynnig cyngor cyffredinol ar faterion penodol.

12.4 Bydd AD yn gofyn am farn a safbwyntiau'r Rhwydwaith Gofalwyr wrth barhau i ddatblygu'r Polisi Gofalwyr.

# Rhan 5 – Pasbort Gofalwyr

## 13 Pasbort Gofalwyr

13.1 Mae'r Pasbort Gofalwyr wedi'i ddatblygu (gweler Atodiad 1) er mwyn helpu a chefnogi gweithwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu penodol. Os cytunir ar unrhyw addasiadau i drefniadau gweithio, bydd y pasbort yn gofnod y gellir ei adolygu os bydd y gweithiwr yn newid rôl neu os bydd ei amgylchiadau gofalu yn newid.

13.2 Pwrpas y pasbort yw galluogi gofalwr a'i reolwr i gael sgwrs gefnogol ac i gofnodi'r hyblygrwydd sydd ei angen i gefnogi'r gofalwr i gyfuno gofalu a gweithio. Y nod yw lleihau'r angen i aildrafod yr hyblygrwydd hwn bob tro y mae gweithiwr yn symud swydd, yn symud rhwng adrannau neu'n cael rheolwr newydd. Mae'r ddogfen hon yn eiddo i'r gweithiwr a dylai fod gan y rheolwr gopi. Cynlluniwyd hon i fod yn ddogfen fyw sydd i'w hadolygu bob blwyddyn ac mewn ymateb i unrhyw newidiadau yn natur neu effaith y cyfrifoldebau gofalu.

13.3 Pan gaiff pasbort ei adolygu (boed yn adolygu cam gweithredu neu'r pasbort yn gyffredinol), pan fydd rheolwr newydd, neu pan fydd gweithiwr yn symud i rôl newydd, nid yw'r pasbort yn gwarantu y bydd y trefniadau y cytunwyd arnynt yn flaenorol yn gallu parhau.

13.4 Mae cwblhau Pasbort Gofalwyr yn wirfoddol ac mae'r gweithiwr yn cadw perchnogaeth ar y ffurflen. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai gweithwyr ei chael

hi’n anodd egluro eu hamgylchiadau, eu problemau a’u heriau personol. Felly, nid oes rhaid ei wneud.

13.5 **Cyfarfod cyfrinachol**
Ar ôl i’r gweithiwr lenwi’r ffurflen, dylent roi copi i’w rheolwr a fydd yn trefnu cyfarfod un-i-un cyfrinachol i drafod y manylion. Bydd y cyfarfod yn rhoi cyfle i’r ddwy ochr drafod y materion a nodwyd a thrafod y cwestiynau canlynol (nid yw’n rhestr sy’n cynnwys popeth).

- Beth yw eich cyfrifoldebau gofalu?
- Sut maen nhw’n effeithio ar eich gwaith?
- Pa effaith y mae gweithio yn cael ar eich cyfrifoldebau gofalu?
- A ydych eisoes yn cael unrhyw gefnogaeth yn y gwaith i helpu i gyfuno gofalu â gweithio?
- A oes angen i chi wneud cais i gael gweithio’n hyblyg i barhau â’ch cyfrifoldebau gofalu?
- Sut fyddai orau gennych chi gyfathrebu â’ch rheolwr os na allwch ddod i’r gwaith?
- Beth fyddai’n helpu i sicrhau bod anghenion y tîm/y Cyngor yn parhau i gael eu cyflawni?
- A oes angen unrhyw gymorth arnoch gan y Rhaglen Cymorth i Weithwyr, Iechyd Galwedigaethol neu sefydliadau allanol?
- A oes angen unrhyw offer gan y Cyngor arnoch i gynorthwyo â’ch rôl gyfunol e.e. ffôn symudol neu liniadur?
- Sut ydych chi’n disgwyl y bydd eich cyfrifoldebau gofalu yn newid yn y dyfodol?

13.6 Y gweithiwr sydd â’r hawl i benderfynu faint o fanylion i’w rhannu, mae’n bwysig bod gweithwyr yn rhoi digon o wybodaeth i’w rheolwr i’w galluogi hwy i ddeall problemau a heriau’r gweithiwr.

13.7 Dylid nodi ar y pasbort unrhyw gamau y cytunwyd arnynt a dyddiad adolygu, a’u llofnodi gan y gweithiwr a’r rheolwr. Bydd gofyn i’r Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol lofnodi’r pasbort hefyd. Y gweithiwr sydd i gadw’r gwreiddiol a rhoddir copi i’r rheolwr.

13.8 Bydd angen i weithwyr ddilyn gweithdrefnau perthnasol y Cyngor h.y. polisi gweithio hyblyg ar gyfer ceisiadau ffurfiol.

## Rhan 6 – Cysylltiadau defnyddiol

**Gofalwyr Cymru / Carers Wales**
Uned 5, Ynys Bridge Court Caerdydd
Ffôn: 029 2081 1370
Ebost: info@carerswales.org
www.carerswales.org

**Ymddiriedolaeth Gofalwyr / Carers Trust Wales**
33-35 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9HB
Ffôn: 0300 772 9702
Ebost: wales@carers.org
https://carers.org/around-the-uk-our-work-in-wales/our-work-in-wales-welsh
www.carers.org

**Galw Iechyd Cymru / NHS Direct Wales**
https://111.wales.nhs.uk/=cy
www.nhsdirect.wales.nhs.uk

**IAWN**
Datblygwyd y wefan hon i roi gwybodaeth am y gwasanaeth cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol (LPMHSS) yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Ei nod yw darparu adnoddau a gwybodaeth ar-lein ar faterion iechyd meddwl er mwyn galluogi pobl i gynorthwyo eu hunain a gwybod ble i gael gafael ar gymorth pellach pe bai ei angen arnynt.
www.iawn.wales.nhs.uk

**Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan** (AWF)
Yr AWF yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n cynrychioli barn Rhieni a Gofalwyr pobl ag anableddau dysgu.
21 Heol Caerdydd
Ffynnon Taf
Caerdydd CF15 7RB
Ffôn: 029 2081 1120
www.allwalesforum.org.uk

**DEWIS Cymru**
Cyfeiriadur lleol rhyngweithiol sydd ar-lein
www.dewis.cymru

**ATODIAD 1**

| **Pasbort Gofalwyr**<br>(i'w lenwi gan y gweithiwr) | |
|---|---|
| Enw'r Gweithiwr: | Enw'r Rheolwr: |
| **Trosolwg o'ch cyfrifoldebau gofalu**<br>Dylai'r rhan hon gynnwys:<br>• Crynodeb o'ch cyfrifoldebau gofalu<br>• Yr effaith y mae hyn yn ei chael ar eich bywyd gwaith<br>• Unrhyw wybodaeth bellach a allai helpu'ch rheolwr i ddeall yr effaith y mae eich cyfrifoldebau gofalu yn ei chael arnoch chi a'ch gwaith | |
| **Trosolwg o'ch rôl a'r tîm:** | |
| **Hyblygrwydd a allai fod yn ddefnyddiol:**<br>Mae'r rhan hon yn delio â hyblygrwydd sy'n benodol i'ch swydd bresennol a fyddai'n eich helpu i gyfuno gofalu a gweithio. Bwriad y rhain yw bod yn sail i'ch trafodaeth â'ch rheolwr. | |

**Hyblygrwydd y cytunwyd arno rhyngoch chi a'ch rheolwr:**
Mae'r rhan hon yn delio â hyblygrwydd sy'n benodol i'ch swydd bresennol a allai eich helpu i gyfuno'ch cyfrifoldebau gofalu a'ch ymrwymiadau gwaith. Ysgrifennwch y camau gweithredu y cytunwyd arnynt gyda dyddiadau perthnasol. Dylid cynnal adolygiadau bob 12 mis.

| Cam gweithredu y cytunwyd arno | Dyddiad ei roi ar waith | Dyddiad adolygu'r gweithredu |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

**Unrhyw gamau eraill y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod:**
Gallai'r rhan hon gynnwys, er enghraifft, cysylltu â CareFirst neu'r Gwasanaeth Cwnsela Gweithwyr, Asesu Gofalwyr neu atgyfeirio at wasanaethau eraill.

Rwy'n cydsynio i fy rheolwr gadw copi o'r pasbort.

Mae'n bwysig cofio bod y pasbort yn eiddo i'r gweithiwr perthnasol a'i fod yn gyfrinachol. Os yw'r rheolwr neu'r gweithiwr yn symud i swydd arall, ni ddylai'r rheolwr drosglwyddo'r ffurflen i'r rheolwr nesaf heb ganiatâd y gweithiwr dan sylw.

**Rhaid cael caniatâd y gweithiwr i gadw copi yng nghofnod personol AD y gweithiwr.**

| | |
|---|---|
| Llofnod y gweithiwr: | Dyddiad: |
| Llofnod y rheolwr: | Dyddiad: |
| Dyddiad y Cyfarfod Adolygu Nesaf: | |
| Gwelwyd gan Swyddog Arweiniol Corfforaethol: | |
| Llofnod y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: | Dyddiad: |

# Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**ADRODDIAD I'R:** **Cabinet**

**DYDDIAD:** **18 Mai 2021**

**BLE:** **Cyfarfod Rhithiol**

**TEITL:** **Polisi Adnoddau Dynol: Polisi Gofalwyr**

**DIBEN YR ADRODDIAD:** **Er mwyn darparu adborth yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 13 Mai 2021**

**CEFNDIR:**

Yn ei gyfarfod ar 13 Mai 2021, ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol y Polisi Adnoddau Dynol: Polisi Gofalwyr.

Diben y 'Polisi Gofalwyr' newydd hwn yw nodi gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer cydnabod a chefnogi gweithwyr sy'n ymgymryd â chyfrifoldebau gofalu sylweddol ochr yn ochr â'u cyflogaeth â thâl.

Mae'r Polisi'n egluro'r gefnogaeth sydd eisoes ar gael i ofalwyr fel gweithwyr Cyngor Sir Ceredigion, er enghraifft opsiynau gweithio oriau hyblyg, amser o'r gwaith ar gyfer pobl ddibynnol (di-dâl), absenoldeb rhiant (di-dâl), cefnogaeth gan yr Uned Gofalwyr a'r gwasanaethau a ddarperir gan ein rhaglen cymorth i weithwyr, Care First.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhelliad canlynol:

**ARGYMHELLIAD:**
- Argymell i'r Cabinet gymeradwyo'r Polisi Gofalwyr

Cytunodd yr Aelodau i argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Polisi Gofalwyr yn amodol ar ystyried y pwyntiau canlynol:

- cynnwys rhif ffôn cyswllt ar gyfer Uned Gofalwyr Cyngor Sir Ceredigion ym mhwynt 11.2 ac ar gyfer sefydliadau allanol yn Rhan 6 y polisi gan nad oes sicrwydd bod gan bob unigolyn fynediad i'r rhyngrwyd;
- ychwanegu paragraff at y polisi a fydd yn cyfeirio at weithio gartref yn ystod y pandemig a sut y gallai hyn fod yn opsiwn posibl i unigolion ar gyfer gweithio'n hyblyg yn y dyfodol;
  a;
- chyfeirio at y ffaith ei bod yn ddyletswydd statudol i gynnig Asesiad Gofalwyr i Ofalwyr.

**Y Cynghorydd Keith Evans**
***Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol***

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cabinet |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 18 Mai 2021 |
| **Teitl:** | Mabwysiadu Coed y Bryn, Aberaeron |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Ceisio am awdurdodiad i godi hysbysiad ar y safle i ddatgan bwriad y Cyngor i geisio mabwysiadu Coed y Bryn fel Priffordd a gynhelir ar gost y cyhoedd. |
| **Er:** | Penderfyniad |
| **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dafydd Edwards, Aelod o'r Cabinet dros Briffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, Tai a Chyswllt Cwsmeriaid |

## 1.0 CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r adroddiad yn ceisio am awdurdodiad i godi hysbysiad ar y safle o dan Adran 228 o Ddeddf y Priffyrdd 1980 er mwyn mabwysiadu Coed y Bryn, Aberaeron fel priffordd a gynhelir ar gost y cyhoedd.

Gofynnwyd am y mabwysiadu hwn gan drigolion heol yr ystâd ac er gwaethaf sawl ymgais i gysylltu â'r datblygwr, sy'n parhau i berchen ar y ffordd, ni chafwyd ymateb ganddo. O archwilio seilwaith y briffordd (10/10/2017), mae'n addas ar y cyfan i'w mabwysiadu ac felly y llwybr mwyaf addas ar gyfer ei mabwysiadu yw drwy Adran 228 o Ddeddf Priffyrdd 1980.

## 2.0 GWYBODAETH GEFNDIROL

2.1 Adeiladwyd Coed y Bryn yn yr 1990au ar sail cynlluniau cymeradwy ac er i heol yr ystâd gael ei chwblhau i safon uchel, ni aethpwyd ymlaen i'w mabwysiadu'n derfynol.

2.2 Cysylltodd un o drigolion Coed y Bryn â'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2016 i ystyried ei mabwysiadu'n ffurfiol. Roedd gan y preswylydd awdurdod gan drigolion eraill heol yr ystâd i fynd ar drywydd mabwysiadu'n ffurfiol ac i weithredu ar eu rhan.

## 3.0 PRIF FATERION

3.1 Datblygwr heol yr ystâd yw perchennog y ffordd fetlin a thra bod pob un o'r trigolion yn dymuno i'r ffordd gael ei mabwysiadu, nid yw'r perchennog wedi ymateb. Mae gweithredoedd pob eiddo yn sicrhau fod pob preswylydd yn cynnal y gerbytffordd hyd nes y caiff ei mabwysiadu gan yr Awdurdod Priffyrdd, sy'n golygu nad oes angen na rheswm i'r datblygwr fynd ar drywydd mabwysiadu. Fodd bynnag, nid oes yr un o'r preswylwyr yn berchen ar y ffordd ac felly maent wedi'u cyfyngu'n gyfreithiol o ran trefnu cynhaliaeth barhaus drwy'r broses fabwysiadu. Dim ond yr Awdurdod Priffyrdd neu'r Perchennog (Datblygwr) all wneud hyn.

3.2 Ni chafwyd **dim** cyfarwyddyd clir gan y Datblygwr er gwaethaf sawl ymgais gan Swyddogion y Cyngor i ofyn am eglurhad na fyddai'n gwrthwynebu'r camau gweithredu hyn:

- Llythyr gan y Cyngor at y Datblygwr 26/04/2017 yn gofyn am sgwrs – dim ymateb.
- Llythyr gan y Cyngor at y Datblygwr 26/06/2017 yn cyflwyno hysbysiad adran 297 i roi pob buddiant yn y tir i'r Cyngor – ni chafwyd ymateb.
- Llythyr gan y Cyngor at y Datblygwr 18/12/2020 yn gofyn am gadarnhad o'i fuddiant yn y tir ac o fwriad yr Awdurdod i fabwysiadu'r briffordd.

3.3 Mae'r cyngor a gafwyd gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu yn cadarnhau y gellir mabwysiadu'n ffurfiol o dan Adran 228 o Ddeddf Priffyrdd 1980 heb ganiatâd perchennog cyfreithiol heol yr ystâd. Byddai angen i'r perchennog tir wrthwynebu ar ôl cael hysbysiad o fwriad y Cyngor i fabwysiadu. Hysbysir drwy godi hysbysiad ar y safle am "un mis" h.y. 28 diwrnod.

**4.0 CAMAU GWEITHREDU'R CYNGOR A'R GOBLYGIADAU**

4.1 Cyflwr y briffordd

Cyflwr presennol y ffordd a'i seilwaith ategol sy'n pennu sut y gall y Cyngor a'r trigolion fabwysiadu heol ystâd. Bydd archwiliad gan beiriannydd o'r Cyngor yn datgelu faint o waith sydd i'w wneud cyn bod heol ystâd mewn cyflwr digon da i'w mabwysiadu. Mae'r Cod Ymarfer Gwaith Stryd Preifat yn nodi'r broses pan gyflwynir heol ystâd mewn cyflwr is na'r safon. Gall heolydd ystadau sydd mewn cyflwr boddhaol hepgor proses y Cod Ymarfer a chyda diwydrwydd dyladwy gellir eu mabwysiadu drwy hysbysiad syml o dan adran 228 o Ddeddf Tai 1980.

4.2 Gwnaed arolygiad o Goed y Bryn ac fe'i cyflwynwyd mewn adroddiad ar 10/10/2017 (gweler Atodiad A). Yr argymhellion ar ôl derbyn yr adroddiad arolygu oedd:

- Archwilio'r Goleuadau Stryd i weld a ydynt yn dderbyniol
- Bod stribyn gwasanaethu o 1.8m yn cael ei neilltuo i'r Awdurdod Priffyrdd i osgoi dargyfeirio'r draeniau tanddaearol a chyfarpar y goleuadau stryd.
- Arolygu pibellau draenio'r briffordd a bod hawddfraint yn cael ei darparu ar gyfer cynnal a chadw yn y dyfodol.

Cynhelir arolygiad terfynol o'r safle cyn codi'r hysbysiad adran 228 i ddangos bwriad y Cyngor i fabwysiadu.

4.3 Mae'r system Goleuadau Stryd wedi'i harchwilio gan yr adain Goleuadau Stryd ac mae'r gwelliannau angenrheidiol wedi'u gwneud ar gost y trigolion. Cynhaliwyd prawf cydymffurfiaeth drydanol gan SSE ar 04/03/2019 ac roedd hwn yn llwyddiannus. Cynhelir archwiliad terfynol o'r Goleuadau Stryd cyn codi'r hysbysiad adran 228 i ddangos bwriad y Cyngor i fabwysiadu.

4.4 Yn dilyn proses i ddilysu diddordeb y perchnogion tir ymhlith pob un o'r trigolion, neilltuwyd stribyn gwasanaethu o 1.8m i'r Cyngor.

4.5 Mae'r perchennog tir yn Rhif 4 yn cytuno i gael hawddfraint ar draws ei dir er mwyn parhau i gynnal gwaith draenio dŵr wyneb y briffordd. Bydd angen

sicrhau a chwblhau hawddfraint ar gyfer y system ddraenio cyn codi hysbysiad adran 228.

4.6. Mae angen arolygu system ddraenio'r briffordd gyda chamera cylch cyfyng i weld beth yw cyflwr y pibellau sy'n arwain i'r pwynt gollwng yn Berllan Deg, y tu cefn i Goed y Bryn. Caiff unrhyw waith cywiro ei wneud ar gost y trigolion cyn codi'r hysbysiad adran 228.

| | | |
|---|---|---|
| | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam** | Nac oes – ni chynigir newidiadau ar hyn o bryd. |

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

***Crynodeb:***

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Ddim yn berthnasol |
| **Cydweithio:** | Ddim yn berthnasol |
| **Cynnwys:** | Ddim yn berthnasol |
| **Atal:** | Ddim yn berthnasol |
| **Integreiddio:** | Ddim yn berthnasol |

**Argymhellion:**

**ARGYMHELLIR BOD y Cabinet yn:**

1. **Awdurdodi codi Hysbysiad Adran 228, ac**
2. **Os na ddaw gwrthwynebiadau, yn bwrw ymlaen â'r broses fabwysiadu.**

**Rheswm dros y penderfyniad:** I sicrhau y cynhelir llesiant y trigolion drwy gydol y gwaith parhaus o arolygu a chynnal heol yr ystâd.

**Trosolwg a Chraffu:** Cymunedau Ffyniannus

**Fframwaith Polisi:** Creu ffyrdd gwell a mwy diogel.

**Blaenoriaethau Corfforaethol:**
Hybu'r Economi
Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl
Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd
Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol


**Goblygiadau Ariannol a Chaffael:** Bydd y trigolion yn ysgwyddo'r gost sy'n weddill o ran mabwysiadu.
Bydd y gwaith o gynnal a chadw heol yr ystâd yn y dyfodol yn cael ei ariannu gan gyllideb Refeniw'r Adran Briffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol.

**Goblygiadau Cyfreithiol:** Bod her i'r Hysbysiad Adran 228 gan berchennog tir heol yr ystâd.


**Goblygiadau Staffio:** Ni ddynodwyd dim

**Goblygiadau o ran Eiddo / Asedau:** Ni ddynodwyd dim

| | |
|---|---|
| **Risg(iau):** | Mae'r risgiau wedi'u lleihau gan y camau sydd wedi'u cymryd eisoes |
| **Pwerau Statudol:** | Deddf Priffyrdd 1980 |
| **Papurau Cefndirol:** | Dim |
| **Atodiadau:** | Atodiad 1: Dyluniadau o Gynllun y Safle<br>Adroddiad Arolygiad EDS |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Rhodri Llwyd |
| **Swyddog Adrodd:** | Steve Hallows |
| **Dyddiad:** | 27/01/2021 |




*SITE LAYOUT. SCALE 1/400*




*TYPICAL CROSS SECTION. SCALE - 1/20*

CEREDIGION DISTRICT COUNCIL
**PLAN APPROVED**
FOR SECTION 38 AGREEMENT
HIGHWAYS ACT 1980
DATE 13/02/90 [signature]
TECHNICAL SERVICES

*NOTES*

1) *ACCESS DRIVES WILL BE SIX METRES OR MORE IN LENGTH FROM REAR OF VERGE TO GARAGE DOORS*
2) *CARRIAGEWAY WIDTH 5 METRES*
3) *VERGE WIDTH 1.8 METRES*
[redacted]
5) *TRANSITION STRIP. REFER DYFED C.C. DESIGN GUIDE. FIGS. 4/7 & 4/8*
6) *STREET LIGHTS. TUBULAR ALUMINIUM COLUMNS. KEY-MECH LOCK NON BARREL TYPE BSCP1004 POST TOP LANTERN P/CARBONATE BOWL. 26 WATT SOX E.SWITCHINGTWO PART PHOTO/CELL TYPE (RTE P.42) INCLUDE FOR THE PROVISION OF FEEDER PILLAR*
7) *CASUAL PARKING IN HAMMERHEAD DELINEATED BY DOTTED LINE.* 6 M. RADIUS TO BE DELINEATED IN ENGINEERING BRICK OR SIMILAR CONTRASTING MATERIAL [initials]
8) *ROOF WATER TO BE TRAPPED AND DISPOSED OF VIA SOAKAWAYS*
9) *FOOTPATHS TO BE CONSTRUCTED TO MARRY IN TO EXISTING PANTEG ROAD FOOTPATHS*

# DEVELOPMENT AT PANTEG ROAD ABERAERON

| | |
|---|---|
| SCALES - 1/400 AND 1/20 | |
| *SITE LAYOUT* <br> *TYPICAL CROSS SECTION* | |
| DRAWING NO. 1/112/1189 | |

**ED4414 Condition Report.**
**Site: - Coed y Bryn. Aberaeron.**

Report on Joint inspection by Marc Chapple and Carl Fitches.
Date of Inspection – 10-10-2017
Weather Conditions – Dry but cloudy.

**This report should be read in conjunction with the site drawings.**

**Condition of Carriageway and Footways –**

The condition of the main carriageway and footways is good with no evidence of settlement or crazing, no potholes are evident and the likelihood of any appearing is very low. There was one stop valve that was low within the footway but was located at the rear of the footway and shouldn’t cause a problem. The disabled crossing points alongside the main road have been done by the highways department; whilst these require some attention it should not be the responsibility of the developer. The drawing shows a rumble strip as you enter the estate; whilst this is not in place, CCC no longer require it. Kerbs are in good condition and will not require any repairs.



**Signing and road markings -**

The junction with the main road is covered with the correct give way markings. The site has signs advertising its name on both sides of the entrance.






**Drainage –**

The site consists of 3 gullies; these are in good condition but are dated; the gullies are constructed using concrete pot's, the gully gratings are in good condition and are accessible without too much effort but replacing the gully covers with more modern D400 ones might be an option. The gullies connect up to the carrier drain via a "Y" system.

There is one manhole within the carriageway and whilst the cover is sound, further investigation work will be required to establish the condition of the chamber itself. There is a further manhole within property No8 (see drawing No1/112/1189); this is within an easement that allows access for maintenance; this manhole is a light pedestrian cover that will have to be changed to a heavy duty one. (see photos below).







Drawing No3/112/1289 shows the drainage run leaving the grounds of No8 and entering the property known as Llawr y Glyn and eventually discharges into the highway system via a manhole within the footway on the A482. (Eventually discharges into the Aeron). There does not seem to be an easement for the section running along Llawr y Glyn?



The main carrier drain and the gully connections will have to be camera surveyed before the council can consider adopting this estate road; there could be issues with the drainage run within Llawr y Glyn as there are trees growing in this area and the pipes might have suffered tree root damage? There could be a dropped manhole within this property or at No8; the levels indicate this could be the case?

**Visibility Splays.**

There are no issues to concern CCC.

**Retaining Walls –**

There is no mention of retaining walls on the drawing; however the wall surrounding No1 is retaining the footway and will be deemed part of the highway if we adopt. The top of the wall has a wooden fence; this fence has recently been repaired but the rails are on the wrong side. We are not aware of the walls construction but there are no visible cracks, the wall has been re-pointed in some areas and has been done well.






**Lighting System -**

There are 2 lighting columns within the site; there is a large gap between both columns, this might be too large a gap? The columns are old and shorter in height than today's standards, one of the columns has an old lamp fitting but one seems to have a newer version, maybe this was changed due to a failure. The site has a feeder pillar and seems to be in good condition. The whole estate will have to be tested and inspected by our lighting section before adoption can take place.














Whilst the drawing shows that the estate road has a service strip outside the properties lawns and drives, there is no visible line (i.e. edging kerbs). The lighting column on the right is in the verge but is inside the service strip. Should the developer lay a visible line?

**Summary –**

1) A camera and condition survey should be carried out to determine the size of the drainage pipe used and its condition; the manholes within the drainage run should also be inspected.
2) The lighting layout should be looked at as well as its condition; are the columns and lantern's correct, is the wiring safe and up to current standards?
3) Do we adopt the retaining wall without further investigations?
4) Do we insist on marking the service strip? (see below)
5) There is slight encroachment onto the service strip, two incidents can be removed easily but a hedge will have to be cut back to achieve the 1.8m.
6) What easements do we possess and do we need more?



Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

## CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **18 Mai 2021** |
| **Teitl:** | **Cludo, didoli ac ailgylchu Deunydd Eildro Sych Cymysg** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Rhoi canlyniad yr ymarfer caffael ar gyfer cludo, didoli ac ailgylchu deunydd eildro sych cymysg** |
| **I** | **Benderfynu arno** |
| **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dafydd Edwards, Aelod Cabinet ar gyfer Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, Tai a Chyswllt Cwsmeriaid** |

**CEFNDIR:**

Cynhaliwyd proses gaffael eisoes ar gyfer cludo, didoli ac ailgylchu deunydd eildro sych cymysg a gesglir o ddrws i ddrws.

Mae cyfnod y contract yn rhedeg o 1 Gorffennaf 2021 i 31 Mai 2026 gyda dau gyfnod ymestyn posibl o hyd at 12 mis yr un.

Y nod yw trefnu bod cyfnod y contract yn cyd-fynd ag oes ddisgwyliedig y fflyd casglu gwastraff gyfredol a fydd, yn ei dro, yn seiliedig ar y gwasanaeth casglu o ddrws i ddrws.

Mae'r deunydd y gellir ei ailgylchu a gesglir o ddrws i ddrws yn cyfrannu'n sylweddol at berfformiad ailgylchu'r Cyngor ac mae'n cynorthwyo'r Cyngor i fodloni targedau perfformiad statudol fel y'u pennir gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r contract yn cynnwys y cludiant o orsafoedd trosglwyddo gwastraff yng Ngheredigion i'r cyfleuster didoli, didoli'r deunydd cymysg a'i werthu ymlaen i ailbroseswyr

Mae effeithlonrwydd y cyfleuster didoli a gallu'r contractwr i gael gafael ar farchnadoedd pen y daith cynaliadwy ar gyfer y deunydd a ddidolir, felly, yn ffactor allweddol ym mherfformiad y gwasanaeth casglu o ddrws i ddrws.

**YMARFER CAFFAEL:**

Defnyddiwyd y broses gaffael agored a hysbysebwyd y contract drwy E-dendro Cymru.

Roedd 3 cham i'r broses dendro, cyfres o gwestiynau cymhwyso llwyddo/methu, 3 chwestiwn Technegol (Ansawdd) a oedd yn cael eu sgorio, a'r cais masnachol.

Roedd y cwestiynau technegol a'r sgoriau fel a ganlyn:

| Cwestiynau | Disgrifiad | Math o Gwestiwn | Sgôr (Uchaf) i'r Cwestiynau |
|---|---|---|---|
| Tech.01 | Cynllun Cyflenwi Gwasanaeth Gweithredol | Atodiad: | 100 |
| Tech.02 | Adennill Deunydd a Safleoedd Pen y Daith | Atodiad: | 250 |
| Tech.03 | Manteision Cymunedol | Atodiad: | 50 |

Daeth pedwar tendr i law ar y dyddiad cau.

Roedd trothwy isafswm sgôr yn berthnasol i bob cwestiwn technegol a dim ond y tendrau hynny a oedd yn cwrdd â'r safonau gofynnol hyn ym mhob cwestiwn oedd yn symud i'r cam amlen fasnachol.

Bodlonodd dau dendr yr isafswm trothwy gan symud ymlaen i'r cam masnachol.

Roedd y meini prawf y pennwyd y Tendr Mwyaf Manteisiol yn Economaidd arnynt fel a ganlyn:

Ansawdd 60%; Pris 40%

Ceir canlyniadau'r ymarfer caffael isod:

| Enw'r Cynigydd | Sgôr Dechnegol a bwysolwyd | Sgôr Ariannol a bwysolwyd | Cyfanswm Sgôr a bwysolwyd |
|---|---|---|---|
| Cyflenwr A | 290 | 503 | 793 |
| Cyflenwr B | 370 | 600 | 970 |

Cyflwynwyd y Tendr Mwyaf Manteisiol yn Economaidd gan Gyflenwr B a cheir mwy o wybodaeth yn yr adroddiad esempt sy'n cyd-fynd â'r papur hwn.

| | | |
|---|---|---|
| | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam**<br>Nid yw'r adroddiad yn newid polisi neu wasanaeth | Na |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | ***Crynodeb*:**<br>**Hirdymor:** Amherthnasol<br>**Cydweithio:** Amherthnasol<br>**Cynnwys:** Amherthnasol<br>**Atal:** Amherthnasol<br>**Integreiddio:** Amherthnasol | |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad/Argymhellion:** | Argymhellir bod y Cabinet yn cytuno i ddyfarnu'r contract i'r Tendr Mwyaf Manteisiol yn Economaidd, yn amodol ar gyfnod segur statudol o 10 niwrnod |
| **Rheswm dros y penderfyniad:** | Galluogi cludo, didoli ac ailgylchu deunydd eildro sych cymysg a gesglir o ddrws i ddrws. |
| **Trosolwg a Chraffu:** | Amherthnasol |
| **Fframwaith Polisi:** | Strategaeth Rheoli Gwastraff |
| **Blaenoriaethau Corfforaethol:** | Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol |
| **Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** | O fewn y Gyllideb Refeniw bresennol |
| **Goblygiadau Cyfreithiol:** | Amherthnasol |
| **Goblygiadau Staffio:** | Amherthnasol |
| **Goblygiadau Eiddo/Asedau:** | Amherthnasol |
| **Risg/Risgiau:** | Amherthnasol |
| **Pwerau Statudol:** | Amherthnasol |
| **Papurau Cefndir:** | Amherthnasol |
| **Atodiadau:** | Amherthnasol |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Rhodri Llwyd |
| **Swyddog Adrodd:** | Gerwyn Jones |
| **Dyddiad:** | 3 Mai 2021 |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **CABINET** |
| **DYDDIAD:** | **18 Mai 2021** |
| **LLEOLIAD:** | **SKYPE – Siambrau'r Cyngor, Penmorfa, Aberaeron** |
| **TEITL:** | **Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS Chwarter 3 2020-21** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Monitro gweithgarwch ar sail amlasiantaethol o ran y camau a gymerwyd i ddiogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion. |
| **RHESWM Y MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:** | Sicrhau bod aelodau'n monitro cynnydd yng nghyfarfodydd rheoli chwarterol Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS |

**CEFNDIR:**

Amgaeir Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS ar gyfer Chwarter 3 2020-21.

Adroddiadau rheoli amlasiantaethol yw'r rhain ar ddiogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion yn ystod y cyfnod rhwng 1 Hydref a 31 Rhagfyr 2020. Darparant wybodaeth reoli ar y camau a gymerwyd o dan Ganllawiau Diogelu Cymru.

Mae'r Adroddiadau yn cynnwys yr wybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau eraill sy'n ymwneud â diogelu llesiant plant ac oedolion yng Ngheredigion.

Mae aelodau Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS (Ceredigion) yn trafod yr wybodaeth reoli hon er mwyn monitro a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r trefniadau ar gyfer diogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion a'r canlyniadau.

Mae'r cyfarfodydd amlasiantaethol hyn yn rhoi cyfle i nodi a gweithredu ar unrhyw faterion perfformiad a materion eraill o fewn y maes gwaith hwn.

Mae gwybodaeth am berfformiad hefyd yn cael ei darparu i Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru sydd hefyd yn gyfle i ddadansoddi perfformiad, tueddiadau a materion ar draws y Rhanbarth.

| | | |
|---|---|---|
| | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os nac oes, esboniwch pam** | Nac oes |

*Crynodeb:*

Caiff yr adroddiad hwn ei ddarparu'n barhaus ac mae'n dangos y gwaith parhaus a wneir ar ddiogelu plant yng Ngheredigion*.*

| | | |
|---|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **Hirdymor:** | Cael cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a chynllunio hirdymor ar gyfer y dyfodol |
| | **Integreiddio:** | Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a'r diwylliant a cheisio dod â budd i bob un ohonynt |
| | **Cydweithio:** | Cydweithio â phartneriaid eraill i gyrraedd y nod |
| | **Cynnwys:** | Cynnwys y rhai hynny sydd â diddordeb a cheisio eu safbwyntiau; ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid |
| | **Atal:** | Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu. |

**ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):**
Nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefelau gweithgarwch â'r Awdurdod Lleol

**RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):**
Er mwyn monitro dull llywodraethu gweithgarwch yr Awdurdod Lleol a'i asiantaethau partner.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | **Siân Howys** |
| **Swydd:** | **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal** |
| **Enw Cyswllt:** | **Elizabeth Upcott** |
| **Swydd:** | **Rheolwr Diogelu Corfforaethol** |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 3 Mawrth 2021 |

**Acronymau:**

CP – Amddiffyn Plant
CPR – Cofrestr Amddiffyn Plant
Part 4 – Honiadau a wnaed yn erbyn aelod o staff neu'r rhai sy'n gweithio gyda phlant e.e. - gofalwyr maeth, gwirfoddolwyr, cylchoedd chwarae at ati
CPCC – Cynhadledd Achos Amddiffyn Plant
ICPC – Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant

# GRŴP GWEITHREDOL LLEOL CYSUR CEREDIGION

## Adroddiad Rheoli Perfformiad

**Chwarter: 3**

**1.10.20 – 31.12.20**

| **CYNNWYS:** | **TUDALEN** |
|---|---|
| **ADRAN 1:**<br>**Cyflwyniad** | 3 |
| **ADRAN 2:**<br>**Prif Ddata a Data Cymharol** | 4 |
| **ADRAN 3:**<br>**Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant** | 5 |
| **ADRAN 4:**<br>**Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant** | 9 |
| **ADRAN 5:**<br>**Cynadleddau Amddiffyn Plant** | 11 |
| **ADRAN 6:**<br>**Y Gofrestr Amddiffyn Plant** | 19 |
| **ADRAN 7:**<br>**Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn mewn Amgylchiadau Arbennig** | 23 |
| **ADRAN 8:**<br>**Cyfarfodydd Amlasiantaethol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (MACSE)** | 24 |
| **ADRAN 9:**<br>**Yr Heddlu – Cynadleddau Amlasiantaethol Asesu Risg (MARAC)** | 25 |
| **ADRAN 10:**<br>**Gwasanaethau Dysgu** | 28 |
| **ADRAN 11:**<br>**Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** | 34 |
| **ADRAN 12:**<br>**Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (S-CAMHS)** | 35 |
| **ADRAN 13**<br>**Diogelu Oedolion** | 42 |

## ADRAN 1: CYFLWYNIAD

Dyma'r adroddiad rheoli amlasiantaethol ar gyfer diogelu plant yng Ngheredigion yn ystod y cyfnod rhwng 1 Hydref a 31 Rhagfyr 2020. Mae'n darparu gwybodaeth rheoli perfformiad am y camau a gymerwyd i ddiogelu plant.

Mae'n cynnwys adroddiadau gan asiantaethau sy'n bartneriaid ynglŷn â diogelu a hybu llesiant plant yng Ngheredigion.

Mae'r dangosyddion a'r mesurau a ddefnyddir yn cael eu diffinio a'u hadrodd yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae aelodau Grŵp Gweithredol Lleol CYSUR Ceredigion yn trafod yr wybodaeth reoli hon yn gyson er mwyn monitro a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r trefniadau diogelu plant yng Ngheredigion a'r canlyniadau.

Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau neu gwestiynau am yr adroddiad hwn at:

Elizabeth Upcott
Rheolwr Corfforaethol Diogelu
Elizabeth.Upcott@ceredigion.gov.uk
01545 574212

## ADRAN 2: Prif Ddata a Data Cymharol

| **Canlyniadau'r Atgyfeiriadau** | **Hyd-Rhag 2020** | **Gorff-Medi 2020** | **Ebrill-Meh 2020** | **Ion-Maw 2020** | **Hyd-Rhag 2019** |
|---|---|---|---|---|---|
| Adroddiadau / Atgyfeiriadau sy'n arwain at Drafodaethau / Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn Plant | 102 | 92 | 85 | 106 | 75 |
| | | | | | |
| Nifer y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant (ac eithrio cynadleddau trosglwyddo a chyn geni) | 13 | 10 | 5 | 11 | 7 |
| Nifer y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant Cyn Geni | 1 | 2 | 2 | - | - |
| Nifer y Cynadleddau Trosglwyddo Amddiffyn Plant | - | - | - | 1 | - |
| **Cyfanswm y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant (gan gynnwys cynadleddau trosglwyddo a chyn geni)** | **14** | **12** | **7** | **12** | **7** |
| **Cyfanswm y plant a fu'n destun Cynadleddau Cychwynnol / Cyn Geni / Trosglwyddo** | **20** | **23** | **9** | **30** | **13** |
| | | | | | |
| Nifer y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (ac eithrio cynadleddau cyn geni a throsglwyddo) | 15 | 18 | 7 | 23 | 12 |
| Nifer y plant â'u henwau i'w rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant pan gânt eu geni | 1 | 2 | 2 | - | - |
| Nifer y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ôl eu trosglwyddo o Awdurdodau Lleol eraill | - | - | - | 3 | - |
| **Cyfanswm y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ôl Cynadleddau Cychwynnol** | **16** | **20** | **9** | **26** | **12** |
| Cyfanswm y plant na roddwyd eu henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | 4 | 3 | - | 4 | 1 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant** | **17** | **16** | **19** | **11** | **22** |
| **Cyfanswm y plant a fu'n destun Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant** | **39** | **26** | **42** | **15** | **46** |
| **Cyfanswm y plant sy'n dal ar y Gofrestr Amddiffyn Plant** | **18** | **11** | **24** | **9** | **17** |
| Cyfanswm y plant y tynnwyd eu henwau oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | 21 | 15 | 18 | 6 | 29 |

**Dadansoddiad:**

Roedd cynnydd pellach yn nifer yr atgyfeiriadau a arweiniodd at weithredu o dan Ganllawiau Diogelu Cymru yn ystod y chwarter hwn ac mae'n llawer uwch nag yn ystod y cyfnod hwn y flwyddyn flaenorol, yn enwedig ffigurau mis Medi a mis Rhagfyr.
Canran y plant a drafodwyd mewn cynadleddau adolygu ac a gafodd eu datgofrestru oedd 54%.


## ADRAN 3: Adroddiadau ac Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant:


Mae Argymhelliad 39 Ymchwiliad Victoria Climbie yn ei gwneud hi'n ofynnol i staff ar y rheng flaen i drosglwyddo ymholiadau am ddiogelwch a llesiant plant i'r tîm priodol yn ddi-oed ac o fewn yr awr. Yng Ngheredigion, mae'r Porth Gofal yn derbyn ac yn cofnodi pob galwad gan y cyhoedd, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau ac yn eu trosglwyddo i'r Tîm Asesu a Chymorth i Blant a Theuluoedd.

**Mae'r tabl canlynol yn dangos lefel cydymffurfio â'r argymhelliad:**

Dim ond 6 ymholiad gafodd eu cynnal gyda'r canlyniad bod angen rhoi cynllun amddiffyn ar waith ar unwaith, o'i gymharu â 24 yn Chwarter 2, ac mae hyn yn ostyngiad sylweddol o'r chwarteri blaenorol. Cafodd 3 o bobl eu gwneud yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain trwy gynllun amddiffyn gofal a chymorth, o ganlyniad i'r ymholiadau a gwblhawyd, 2 mewn lleoliad cartref gofal ac 1 mewn lleoliad gofal iechyd. Cafodd 5 cynllun Gofal a Chymorth eu rhoi yn eu lle o ganlyniad i amheuaeth o gam-drin neu esgeulustod gan weithiwr cyflogedig a chafodd 1 ei roi yn ei le oherwydd cam-drin a/neu esgeulustod gan berthynas neu ffrind.


| CYSUR Cartrefi Eu Hunain | 1 |
|---|---|
| **Lle – Cartrefi Eu Hunain** | |
| **Labeli Rhes** | **Rhif Adnabod Asesu** |
| 2019-2020 – Chwarter 3 | 20 |
| 2019-2020 – Chwarter 4 | 27 |
| 2020-2021 – Chwarter 1 | 27 |
| 2020-2021 – Chwarter 2 | 13 |
| 2020-2021 – Chwarter 3 | 3 |
| **Cyfanswm** | **90** |





| CYSUR Yn y Gymuned | 1 |
|---|---|
| **Lle – Cymuned** | |
| **Labeli Rhes** | **Rhif Adnabod Asesu** |
| 2019-2020 – Chwarter 3 | 3 |
| 2019-2020 – Chwarter 4 | 9 |
| 2020-2021 – Chwarter 1 | 2 |
| 2020-2021 – Chwarter 2 | 5 |
| **Cyfanswm** | **19** |




| CYSUR Lleoliad Cartrefi Gofal | 1 |
|---|---|
| **Lle – Cartrefi Gofal** | |
| **Labeli Rhes** | **Rhif Adnabod Asesu** |
| 2019-2020 – Chwarter 3 | 6 |
| 2019-2020 – Chwarter 4 | 18 |
| 2020-2021 – Chwarter 1 | 9 |
| 2020-2021 – Chwarter 2 | 2 |
| 2020-2021 – Chwarter 3 | 2 |
| **Cyfanswm** | **37** |




| CYSUR Lleoliad Iechyd | 1 |
|---|---|
| **Lle – Iechyd** | |
| **Labeli Rhes** | **Rhif Adnabod Asesu** |
| 2019-2020 – Chwarter 4 | 4 |
| 2020-2021 – Chwarter 1 | 2 |
| 2020-2021 – Chwarter 2 | 5 |
| 2020-2021 – Chwarter 3 | 1 |
| **Cyfanswm** | **12** |





| Cyfnod | Cartrefi eu Hunain | Cymuned | Cartrefi Gofal | Iechyd |
|---|---|---|---|---|
| 2019-2020 – Chwarter 3 | 20 | 3 | 6 | 0 |
| 2019-2020 – Chwarter 4 | 27 | 9 | 18 | 4 |
| 2020-2021 – Chwarter 1 | 27 | 2 | 9 | 2 |
| 2020-2021 – Chwarter 2 | 13 | 5 | 2 | 5 |
| 2020-2021 – Chwarter 3 | 3 | 0 | 2 | 1 |




| | |
|---|---|
| Person – Gweithiwr Cyflogedig | 1 |
| **Person – Gweithiwr Cyflogedig** | |

| **Labeli Rhes** | **Rhif Adnabod Asesu** |
|---|---|
| 2019-2020 – Chwarter 3 | 9 |
| 2019-2020 – Chwarter 4 | 27 |
| 2020-2021 – Chwarter 1 | 11 |
| 2020-2021 – Chwarter 2 | 7 |
| 2020-2021 – Chwarter 3 | 5 |
| **Cyfanswm** | **59** |







| Person – Perthynas / Ffrind | 1 |
|---|---|
| **Person – Perthynas / Ffrind** | |
| **Labeli Rhes** | **Rhif Adnabod Asesu** |
| 2019-2020 – Chwarter 3 | 6 |
| 2019-2020 – Chwarter 4 | 21 |
| 2020-2021 – Chwarter 1 | 22 |
| 2020-2021 – Chwarter 2 | 14 |
| 2020-2021 – Chwarter 3 | 1 |
| **Cyfanswm** | **64** |

| | |
|---|---|
| **Person – Gwirfoddolwr / Gweithiwr Di-dâl** | 0 |

| Person – Defnyddiwr Gwasanaeth Arall | 1 |
|---|---|
| **Person – Defnyddiwr Gwasanaeth Arall** | |
| **Labeli Rhes** | **Rhif Adnabod Asesu** |
| 2019-2020 – Chwarter 3 | 3 |
| 2020-2021 – Chwarter 1 | 1 |
| 2020-2021 – Chwarter 2 | 2 |
| **Cyfanswm** | **6** |


Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad fod angen gweithredu – Defnyddiwr Gwasanaeth Arall



| Person – Arall | 1 |
|---|---|

**Person – Arall**


| **Labeli Rhes** | **Rhif Adnabod Asesu** |
|---|---|
| 2019-2020 – Chwarter 3 | 11 |
| 2019-2020 – Chwarter 4 | 7 |
| 2020-2021 – Chwarter 1 | 6 |
| 2020-2021 – Chwarter 2 | 3 |
| **Cyfanswm** | **27** |




| | |
|---|---|
| 2019-2020 – Chwarter 3 | 11 |
| 2019-2020 – Chwarter 4 | 7 |
| 2020-2021 – Chwarter 1 | 6 |
| 2020-2021 – Chwarter 2 | 3 |
| 2020-2021 – Chwarter 3 | 0 |







| Cyfnod | Gweithiwr Cyflogedig | Perthynas / Ffrind | Gwirfoddolwr | Defnyddiwr Gwasanaeth Arall | Arall |
|---|---|---|---|---|---|
| **2019-2020 – Chwarter 3** | 9 | 6 | 0 | 3 | 11 |
| **2019-2020 – Chwarter 4** | 27 | 21 | 0 | 0 | 7 |
| **2020-2021 – Chwarter 1** | 11 | 22 | 0 | 1 | 6 |
| **2020-2021 – Chwarter 2** | 7 | 14 | 0 | 2 | 3 |
| **2020-2021 – Chwarter 3** | 5 | 1 | 0 | 0 | 0 |

| 2020-2021 – cyfarfodydd a gynhaliwyd yn Chwarter 3 | |
|---|---|
| Cyfarfodydd Strategaeth Gychwynnol | 8 |
| Cyfarfodydd Strategaeth Bellach | 5 |
| Cyfarfodydd Proffesiynol Cychwynnol | 4 |
| Cyfarfodydd Proffesiynol Pellach | 3 |

**Holiadur Gwerthuso Defnyddiwr Gwasanaeth:**
Mae hwn wedi'i gwblhau bellach ac wedi'i anfon at staff yn y tîm iddynt ddechrau ei ddefnyddio cyn gynted â phosibl. Cytunwyd os gall staff gael adborth gan unigolion a/neu deuluoedd dros y ffôn, dylent wneud hynny. Fodd bynnag, cydnabyddir bod natur y cwestiynau a ofynnir ar yr holiadur gwerthuso yn fwy addas ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb, ac felly disgwylir i fwy gael eu cwblhau pan fyddwn yn gallu cynnal ymweliadau wyneb yn wyneb.

## CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **18 Mai 2021** |
| **Teitl:** | **Gwasanaethau Arbenigol Porth Cynnal (Plant ac Oedolion)<br>ADRODDIAD RHEOLI PERFFORMIAD Y GWASANAETH ADOLYGU ANNIBYNNOL<br>Chwarter 3 2020/21** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Monitro cynnydd y Plant sy'n Derbyn Gofal drwy waith craffu'r Swyddog Adolygu Annibynnol** |
| **Er:** | **Gwybodaeth** |
| **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** | **Gofal, Amddiffyn a Ffordd o Fyw<br>Y Cynghorydd Alun Williams** |

Yn yr adroddiad hwn cyflwynir gwybodaeth am y gwaith monitro a sicrhau ansawdd mewn perthynas â'r Plant sy'n Derbyn Gofal a adolygwyd yn ystod trydydd chwarter 2020/21.

Mae'r wybodaeth hon yn cynorthwyo'r Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau fel Rhieni Corfforaethol.

Sail yr wybodaeth yw'r ffurflenni monitro a gwblhaodd y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn dilyn pob Adolygiad Statudol o Blant sy'n Derbyn Gofal, yn ogystal â'r wybodaeth arall y mae'r Gwasanaethau Plant yn ei chasglu am berfformiad.

Mae'r adroddiad yn cynnwys y safonau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur y canlyniadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal adeg eu hadolygiadau statudol, gan gynnwys Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru a Thargedau Perfformiad Lleol.

Ar sail yr wybodaeth sydd ar gael a'r hyn a fynegwyd yn ystod y cyfarfod adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal, daw'r Swyddog Adolygu Annibynnol i farn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd cynllun gofal y plentyn / person ifanc o ran bodloni ei anghenion a gall argymell newidiadau i'r cynllun gofal.

Yn ystod y cyfarfod adolygu bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes angen cymorth ar blentyn / person ifanc sy'n cael ei adolygu i adnabod pobl eraill berthnasol er mwyn derbyn cyngor cyfreithiol / cymryd camau ar ei ran. Roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn nad oedd angen cymryd y cam hwn ar gyfer unrhyw blentyn yn ystod y cyfnod dan sylw.

Yn ogystal â hynny, bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn / person ifanc, a gallai gyfeirio'r achos at CAFCASS. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw adolygiad.

| | | |
|---|---|---|
| | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig?** | Naddo |

**Os naddo, esboniwch pam**
***Crynodeb:***
Caiff yr adroddiad hwn ei ddarparu'n barhaus ac mae'n dangos y gwaith parhaus a wneir gyda Phlant sy'n Derbyn Gofal yng Ngheredigion.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Cael cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a chynllunio hirdymor ar gyfer y dyfodol. |
| **Integreiddio:** | Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a'r diwylliant a cheisio dod â budd i bob un ohonynt |
| **Cydweithio:** | Cydweithio â phartneriaid eraill i gyrraedd y nod |
| **Cynnwys:** | Cynnwys y rhai hynny sydd â diddordeb a cheisio eu safbwyntiau; ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid. |
| **Atal:** | Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu. |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad / Argymhellion:** | **Yr Aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad.** |
| **Rheswm dros y penderfyniad:** | Er mwyn sicrhau bod Awdurdod Lleol Ceredigion, ei swyddogion a'i bartneriaid diogelu yn cyflawni eu dyletswyddau statudol yn effeithiol. |
| **Trosolwg a Chraffu:** | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach |
| **Fframwaith Polisi:** | Y Strategaeth Gorfforaethol |
| **Blaenoriaethau Corfforaethol:** | Galluogi cydnerthedd unigolion a theuluoedd |
| **Goblygiadau Ariannol a Chaffael:** | O fewn y gyllideb graidd |
| **Goblygiadau Cyfreithiol:** | Dim |
| **Goblygiadau o ran Staff:** | Dim |
| **Goblygiadau o ran Eiddo / Asedau:** | Dim |
| **Risg(iau):** | Mae'r adroddiad yn nodi'r risgiau o ran niwed i blant a sut y cânt eu diogelu. |

| | |
|---|---|
| **Pwerau Statudol:** | Deddf Plant 1989, Deddf Plant 2004 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 |
| **Papurau Cefndir:** | Dim ond dogfennau mewnol y Gwasanaethau Arbenigol |
| **Atodiadau:** | Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol ar gyfer Chwarter 2 2020/21 |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | **Sian Howys**<br>**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal** |
| **Swyddog Adrodd:** | **Sian Howys**<br>**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal**<br>**Elizabeth Upcott, Rheolwr Diogelu Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **16 Mawrth 2021** |

# Cyngor Sir CEREDIGION County Council

## Gwasanaeth Diogelu

## Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol

## Chwarter 3: 1 Hydref 2020 - 31 Rhagfyr 2020

...yn gofalu i wneud gwahaniaeth
...taking care to make a difference

| CYNNWYS | | |
|---|---|---|
| **TUDALEN:** | | |



| | | |
|---|---|---|
| **ADRAN UN:** | **CYFLWYNIAD** | **3** |
| **ADRAN DAU:** | **CYNLLUNIO GOFAL** | **4** |
| **ADRAN TRI:** | **YMGYNGHORI A CHYFRANOGI** | **20** |
| **ADRAN PEDWAR:** | **PROTOCOL DATRYS PROBLEMAU** | **23** |
| **ADRAN PUMP:** | **GWERTHUSO** | **23** |
| **ADRAN CHWECH:** | **CYNLLUNIAU LLWYBR** | **24** |
| **ADRAN SAITH:** | **PRESWYL / (HEBLAW AM BLANT SY'N DERBYN GOFAL)** | **26** |
| **ADRAN WYTH:** | **SEIBIANNAU RHEOLAIDD** | **26** |
| **ADRAN NAW:** | **SEIBIANNAU BYR** | **26** |
| **ADRAN DEG:** | **GOFALWYR MAETH** | **27** |

## ADRAN UN: CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth a gasglwyd gan y Gwasanaeth Sicrhau Ansawdd ac Adolygu Annibynnol er mwyn monitro perfformiad a sicrhau ansawdd y gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal, plant sydd wedi gadael gofal, plant sydd mewn lleoliadau preswyl a phlant sy'n derbyn gofal seibiant a seibiannau byr. Mae'r wybodaeth yn seiliedig ar y ffurflenni monitro gaiff eu cwblhau gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol (SAA) yn dilyn pob cyfarfod adolygu yn ystod y chwarter hwn, ynghyd â gwybodaeth arall am berfformiad a gedwir gan y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd.

## MEINCNODI

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y mesurau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur y canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi gadael gofal adeg eu cyfarfod adolygu.

Ar sail yr wybodaeth sydd ar gael a'r hyn a fynegir yn ystod y cyfarfod adolygu, daw'r Swyddog Adolygu Annibynnol i farn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd cynllun gofal y plentyn / person ifanc o ran bodloni ei anghenion, a bydd yn tynnu sylw rheolwyr at unrhyw ymarferion gwael.

Yn ystod y cyfarfod adolygu bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes angen cymorth ar y plentyn / person ifanc i adnabod pobl eraill berthnasol er mwyn derbyn cyngor cyfreithiol / cymryd camau ar ei ran. Roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn nad oedd angen cymryd y cam hwn ar gyfer unrhyw blentyn yn ystod y cyfnod dan sylw.

Yn ogystal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn / person ifanc ac, os oes, gallai gyfeirio'r achos at CAFCASS Cymru. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw adolygiad yn ystod y cyfnod hwn.

*Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau, cysylltwch ag:*

Elizabeth Upcott
Gwasanaeth Diogelu
Penmorfa
Aberaeron
SA46 0PA

## ADRAN DAU

## CYNLLUNIO GOFAL

**1. Prif Ffigurau ar gyfer Chwarter 3:**

| Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal | **Cyfanswm** |
|---|---|
| 30 Medi 2020 | **75** |
| 31 Rhagfyr 2020 | **79** |


**2. Nifer a chanran yr Adolygiadau o Blant sy'n Derbyn Gofal a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser statudol.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%


Cafodd 66 o blant eu hadolygu o fewn y Chwarter, fodd bynnag cafwyd 6 adolygiad lle na fu modd monitro perfformiad oherwydd absenoldeb staff a gwaith papur oedd heb ei gwblhau.
Yn sgil hyn, mae perfformiad a monitro'r adroddiad hwn felly'n seiliedig ar 60 o Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal.

- Cynhaliwyd pob un o'r 60 (100%) o gyfarfodydd adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal o fewn y terfynau amser statudol.

| | **Hyd-Rhag 2020** | **Gorff-Medi 2020** | **Ebrill-Meh 2020** | **Ion-Maw 2020** | **Hyd-Rhag 2019** |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter | 60 | 41 | 62 | 48 | 45 |
| Nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser | 60 | 38 | 60 | 47 | 43 |
| Nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd y tu hwnt i'r terfynau amser | 0 | 3 | 2 | 1 | 2 |





**3. Oed a rhyw'r plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:**




**4. Natur lleoliadau'r plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:**

| Math o Leoliad | Yn y Sir | Tu allan i'r Sir | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Gofalwyr Maeth yr Awdurdod Lleol | 32 | 1 | 33 |
| Lleoli â Rhieni | 9 | 2 | 11 |
| Gofalwyr sy'n Berthnasau | 2 | | 2 |
| Lleoli â Theulu | 4 | | 4 |
| Mabwysiadu | 1 | 3 | 4 |
| Gofalwyr Asiantaeth Maethu Annibynnol | 1 | | 1 |
| Preswyl | | 2 | 2 |
| Gofalwyr Maeth Asiantaeth Maethu Annibynnol ar gyfer Rhiant a Babi | | 2 | 2 |
| Llety â Chymorth | | | |
| Preswyl Mam a Babi | | 1 | 1 |
| Ysbyty | | | |
| Byw'n Annibynnol | | | |
| | **49** | **11** | **60** |




## 5. Statws cyfreithiol y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:

| Statws cyfreithiol y plant a adolygwyd | |
|---|---|
| Gorchymyn Gofal Llawn | 42 |
| Gorchymyn Gofal Dros Dro | 8 |
| Gorchymyn Lleoli | 6 |
| Adran 76 | 4 |
| **Cyfanswm** | **60** |




## 6. Y rhesymau pam fod y plant a adolygwyd wedi gadael gofal.

| Cyfnod | Y nifer sydd wedi gadael gofal | *Y rheswm dros adael gofal* | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | *Mabwysiadu* | *Dychwelyd adref at y teulu* | *'Pan rwyf yn barod'* | *Diddymu'r Gorchymyn Gofal* | *Llety â Chymorth / Byw'n Annibynnol* |
| **1 Hydref hyd 31 Rhagfyr 2020** | **6** | 0 | 4 | 1 | 1 | - |
| **1 Gorffennaf hyd 30 Medi 2020** | **7** | 1 | 4 | - | - | 2 |
| **1 Ebrill hyd 30 Mehefin 2020** | **2** | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 |
| **1 Ionawr hyd 31 Mawrth 2020** | **4** | 0 | 2 | 1 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **19** | **1** | **10** | **3** | **1** | **4** |




**7. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal sydd â Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig.**

<u>Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%</u>


- Ymhob un o'r 60 (100.0%) Adolygiad o Blant sy'n Derbyn Gofal cofnodwyd bod Gweithiwr Cymdeithasol cymwys yn gweithio gyda'r plentyn dan sylw.

**8. Nifer a chanran yr ymweliadau statudol â Phlant sy'n Derbyn Gofal o dan adolygiad a gynhaliwyd yn unol â'r terfynau amser gofynnol.**

<u>Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 86.7%</u>

- Derbyniodd 52 (86.7%) o Blant sy'n Derbyn Gofal ymweliadau gan Weithiwr Cymdeithasol yn unol â'r gofynion statudol.

- Ni dderbyniodd 8 (13.3%) o Blant sy'n Derbyn Gofal ymweliadau gan Weithiwr Cymdeithasol yn unol â'r gofynion statudol.





**Sylw**: Yn ystod y chwarter hwn bu gwelliant yn nifer yr ymweliadau statudol. Fodd bynnag, bydd y diffyg ymweliadau hyn wedi'u cofnodi ar y Ffurflenni Monitro ac mae COVID-19 wedi effeithio ar ymweliadau. Mae pob ymweliad wyneb yn wyneb yn destun asesiad risg.

**9. Nifer a chanran y Cynlluniau Gofal a Chymorth (Rhan 6) a oedd wedi'u sefydlu erbyn dyddiad y lleoliad cyntaf a'r cynlluniau cyfredol a oedd ar gael ar gyfer yr adolygiad.**

<u>Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 77.8%</u>

- Bu 9 lleoliad newydd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn ystod y chwarter hwn; cofnodwyd mewn 7 (77.8%) cyfarfod adolygu fod gan y plentyn / person ifanc Gynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) wedi'i sefydlu erbyn dyddiad y lleoliad.
- Ar gyfer teulu gyda 2 o blant ni chafodd y Cynllun Gofal a Chymorth ei sefydlu erbyn dyddiad y lleoliad cyntaf, fodd bynnag roedd y Cynllun Gofal a Chymorth wedi'i sefydlu adeg yr adolygiad ar gyfer un plentyn / person ifanc.



- Nododd y Swyddog Adolygu Annibynnol fod angen diweddaru cofnodion y Cynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) ar gyfer 7 phlentyn, a nododd 2 adolygiad bod diweddariadau wedi cael eu gwneud wedi hynny.

**Sylw:** Bydd angen gwirio bod y gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn hyn.


**10. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal sydd â Chynllun Parhad wedi'i sefydlu erbyn yr ail adolygiad os na chynlluniwyd ar gyfer dychwelyd adref.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%


- Cynhaliwyd 3 ail adolygiad yn ystod y chwarter hwn, a chofnodwyd ym mhob un o'r 3 (100.0%) adolygiad fod Cynllun Parhad wedi'i gytuno. Mae hyn yn gyson â'r chwarter blaenorol.

- Mewn 1 (2%) adolygiad yn ystod y cyfnod hwn, cofnododd y Swyddog Adolygu Annibynnol bryderon ynghylch cynnydd y lleoliad / Cynllun Gofal a Chymorth / Cynllun Parhad.


  Dyma oedd natur y pryderon:-
  - ➢ Wedi llithro oherwydd y penderfyniad a gafodd ei wneud bod angen nodi lleoliad arall ar gyfer 1 person ifanc i roi cyfle iddo/iddi ddatblygu annibyniaeth yn y dyfodol.



## 11. Yr hyd o amser mewn gofal:




## 12. Natur y Cynlluniau Parhad:





## 13. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a gafodd ofal seibiant gan rywun heblaw am eu prif ofalwyr.

- Mewn 4 (6.7%) adolygiad nodwyd bod y plentyn / person ifanc yn cael gofal seibiant gan rywun heblaw'r prif ofalwyr. Adroddwyd bod pob un o'r lleoliadau seibiant yn bodloni anghenion y plentyn / person ifanc.

**14. Nifer a chanran y bobl ifanc gymwys oedd â Chynllun Llwybr yn unol â'r gofynion.**

Targed a bennwyd: 100% Yr hyn a gyflawnwyd 66.7%

- Dywedodd 4 (66.7%) person ifanc fod Cynllun Llwybr wedi'i sefydlu a bod Ymgynghorydd Personol wedi'i benodi ar eu cyfer.
- Nid oedd Cynllun Llwybr gan 2 (33.3%) berson ifanc, fodd bynnag adroddwyd bod Ymgynghorydd Personol wedi'i ddynodi.




**Sylw:** Angen cwblhau.

**15. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal (o oedran a lefel dealltwriaeth briodol) sy'n deall y rhesymau pam eu bod yn cael eu gofalu amdanynt.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

- Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 42 plentyn / person ifanc oherwydd ystyriwyd nad oedd 12 o'r plant / pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i ddeall pam eu bod yn derbyn gofal.
- Roedd 42 (100%) yn y grŵp hwn yn dangos rhyw fath o ddealltwriaeth pam eu bod yn derbyn gofal gan rywun heblaw am eu teuluoedd, o gymharu â 96.2% yn y chwarter blaenorol. Adroddwyd bod angen rhoi eglurhad pellach i 3 phlentyn.

**16.** **Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal (fel y bo'n briodol o ran eu hoedran a'u crebwyll) a oedd yn deall eu Cynlluniau Gofal a Chymorth.**

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 44 plentyn / person ifanc oherwydd ystyriwyd nad oedd 16 o'r plant / pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigyrau.

- Roedd 42 (95.5%) yn y grŵp hwn yn dangos rhyw fath o ddealltwriaeth o'r hyn a oedd yn eu Cynlluniau Gofal a Chymorth (Rhan 6).

- Mewn 2 (4.5%) adolygiad cofnodwyd bod hyn yn ddarn o waith a oedd angen ei wneud gyda'r person ifanc.

**17.** **Mesur Cenedlaethol 33: Nifer a chanran yr achosion o symud Plant sy'n Derbyn Gofal.**

- Mewn 9 (15.0%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn / person ifanc wedi symud lleoliad yn ystod y chwarter hwn; o gymharu â 22.0% yn y chwarter blaenorol.

Dyma oedd y rhesymau dros newid y lleoliadau:

- Symudodd 1 person ifanc o leoliad Rhieni a Phlant Gyda'i Gilydd i Ofal gan Berthynas hirdymor gyda thaid a nain.
- Symudodd 1 person ifanc o Leoliad Preswyl Mam a Baban i fyw'n annibynnol gyda Gofalwyr Maeth.
- Symudodd 1 person ifanc o Ofalwyr Maeth yr Awdurdod Lleol i fyw'n annibynnol gyda thaid a nain.
- Symudodd 3 pherson ifanc o leoliad maeth hirdymor i leoliad maeth hirdymor pellach.
- Symudodd 2 berson ifanc o leoliad maeth byrdymor i leoliad maeth byrdymor arall tra bo lleoliad maeth hirdymor yn cael ei geisio.
- Symudodd 1 berson ifanc o leoliad maeth hirdymor i leoliad maeth byrdymor ac yn dilyn hynny cafodd lleoliad preswyl ei geisio ar gyfer y person ifanc.

**18** **Nifer a chanran y cynlluniau lleoli (gan gynnwys darpariaeth addysg ac iechyd) yr aseswyd eu bod yn bodloni anghenion Plant sy'n Derbyn Gofal.**

<u>Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%</u>

- Cofnodwyd bod 60 (100.0%) o gynlluniau lleoli / gofal a chymorth yn bodloni anghenion y plant / pobl ifanc, ac mae hyn yn gyson â'r chwarter blaenorol. Mewn 1 adolygiad nodwyd y canlynol: -

  - Er bod y lleoliad yn bodloni anghenion y person ifanc mae lleoliad maeth hirdymor yn cael ei geisio yn unol â gofynion lleoliad parhaus y person ifanc; nodwyd bod y gofalwyr presennol yn ymwybodol o hyn ac yn cefnogi'r cynllun.

**19. Nifer a chanran y pryderon diogelu a nodwyd mewn perthynas â Phlant sy'n Derbyn Gofal yn ystod y chwarter hwn.**

- Mewn 4 (6.7%) adolygiad nodwyd pryderon o ran diogelu'r person ifanc dan sylw; cadarnhawyd bod y pryderon yn cael sylw.


**20. Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal a enwir ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.**

- Nodwyd mewn 6 (10.0%) adolygiad fod y person ifanc wedi'i enwi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

**21. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a gafodd Asesiadau Iechyd yn unol â'r gofynion statudol.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

- Roedd 60 (100.0%) o'r Plant / Pobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal wedi cael asesiad iechyd erbyn eu hadolygiad, o gymharu â 87.8 yn y chwarter blaenorol.



**22. Canran y plant a oedd wedi'u cofrestru gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl cael eu derbyn i ofal.**

Targed a bennwyd: 100% Yr hyn a gyflawnwyd 66.7%

**Wedi'u cofrestru gyda deintydd**

Mae'r data ynghylch y plant / pobl ifanc a oedd wedi'u cofrestru gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl cael eu derbyn i ofal yn ymwneud â 3 phlentyn / person ifanc.

- Mewn 2 (66.7%) adolygiad cofnodwyd bod y plant / pobl ifanc wedi'u cofrestru gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl dechrau'r lleoliad.

- Mewn 1 (33.3%) adolygiad cofnodwyd nad oedd y plentyn / person ifanc wedi'i gofrestru gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl dechrau'r lleoliad.

**********

**Wedi'u cofrestru gyda deintydd**

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 51 plentyn / person ifanc oherwydd diystyriwyd 9 phlentyn / person ifanc a oedd yn cael eu hadolygiad cyntaf er mwyn cyd-fynd â gofynion y Mesur Cenedlaethol.

- Roedd 48 (94.1%) o blant a phobl ifanc wedi'u cofrestru gyda deintydd. Mae hyn yn cymharu ag 88.6% yn y chwarter blaenorol.

- Nid oedd 3 (5.9%) o blant a phobl ifanc wedi'u cofrestru gyda deintydd, ac roedd pob un o'r 3 phlentyn hyn yn iau na 2 flwydd oed.

**23. Mesur Cenedlaethol 30: Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a oedd wedi cael eu gweld gan ddeintydd o fewn 3 mis ar ôl cael eu derbyn i ofal.**

**Wedi cael eu gweld gan ddeintydd**

Mae'r data ynghylch y plant / pobl ifanc a oedd wedi cael eu gweld gan ddeintydd o fewn 3 mis ar ôl cael eu derbyn i ofal yn ymwneud â 2 blentyn.

- Ni chofnodwyd mewn unrhyw adolygiad (0.0%) nad oedd y plentyn / person ifanc wedi cael ei weld gan ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis ar ôl cael ei dderbyn i ofal.

**********

**Wedi cael eu gweld gan ddeintydd**


Targed a bennwyd 90% – Yr hyn a gyflawnwyd 73.9%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 46 plentyn / person ifanc gan fod 14 plentyn / person ifanc yn iau na 2 flwydd oed a / neu'n cael eu

hadolygiad cyntaf ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigyrau uchod er mwyn cyd-fynd â gofynion y Mesur Cenedlaethol.

- Cofnodwyd bod 34 (73.9%) o blant a phobl ifanc wedi gweld deintydd yn y 12 mis blaenorol, o gymharu â 69.2% yn y chwarter blaenorol.

- Cofnodwyd nad oedd 12 (26.1%) o blant a phobl ifanc wedi gweld deintydd.




**Sylw:** Roedd cyfyngiadau COVID-19 ar waith yn ystod y chwarter hwn ac roedd y deintyddion yn gweld cleifion mewn achosion brys yn unig.

**24. Mesur Cenedlaethol 31: Canran y Plant sy'n Derbyn Gofal a oedd wedi'u cofrestru â Meddyg Teulu o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl dechrau'r lleoliad.**

- Mewn 15 (83.3%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn wedi'i gofrestru â darparwr gwasanaethau meddygol cyffredinol o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl dechrau'r lleoliad.

- Adroddodd 3 adolygiad bod y cam gweithredu hwn yn parhau heb ei weithredu; cafodd y cam gweithredu hwn ei gwblhau wedi hynny ar gyfer pob person ifanc.

**25. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a oedd wedi'u cofrestru gyda Meddyg Teulu.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

- Roedd pob un o'r 60 (100.0%) o blant a phobl ifanc wedi'u cofrestru gyda Meddyg Teulu, sy'n gyson â'r chwarter blaenorol.

- Roedd 56 (96.5%) o blant wedi cael eu holl frechiadau angenrheidiol.

- Roedd 2 (3.5%) o blant yn hwyr yn cael eu brechiadau; y rhesymau a gofnodwyd oedd:-
  - Adroddodd 1 adolygiad fod oedi oherwydd pandemig COVID-19 a bod y mater yn cael sylw.
  - Adroddodd 1 adolygiad fod y plentyn/person ifanc heb dderbyn brechlyn arferol oherwydd dewis rhieni cyn bod yn blentyn sy'n derbyn gofal, a rhoddir sylw i hyn.

Diystyriwyd 2 adolygiad oherwydd yn achos 1 adolygiad roedd y person ifanc yn gwrthod cael ei frechu ac yn achos yr adolygiad arall roedd y rhiant yn gwrthod caniatáu i'r plentyn gael ei frechu.

**26. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal yr aseswyd eu bod angen cymorth gan Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a gafodd eu hatgyfeirio ac a dderbyniodd asesiad / gwasanaeth.**

<u>Targed: 50%</u>

<u>Gwir Berfformiad</u>

- Mewn 1 (1.7%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn / person ifanc wedi'i atgyfeirio at CAMHS, a chadarnhawyd nad oedd yr atgyfeiriad wedi'i dderbyn ar gyfer y plentyn/person ifanc hwn.

- Mewn 56 (100.0%) adolygiad, cofnodwyd bod iechyd meddwl / emosiynol y plant / pobl ifanc wedi'i ystyried yn yr Asesiad Iechyd a / neu wrth drafod yn y cyfarfod.


Mewn 4 adolygiad cofnodwyd bod y plentyn / person ifanc yn rhy ifanc, felly fe'u diystyriwyd yn y ffigurau.

**27. Natur y ddarpariaeth addysg:**

Yn ystod y chwarter dan sylw, dyma oedd y ddarpariaeth addysg ar gyfer y plant a'r bobl ifanc a adolygwyd:

| **Darpariaeth addysg** | |
|---|---|
| Disgyblion ysgol gynradd | 23 |
| Disgyblion ysgol uwchradd | 16 |
| Plant cyn-ysgol | 13 |
| Coleg | 3 |
| Heb fod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET) | 3 |
| Uned Cyfeirio Disgyblion (PRU) | 1 |
| Preswyl | 1 |
| Addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) | |
| Wedi gadael ysgol | |
| Prosiectau eraill – Lleoliad Gwaith Arbenigol | |
| Tiwtora | |

| | |
|---|---|
| Addysg Ddewisol yn y Cartref | |
| Cyflogedig | |
| **Cyfanswm** | **60** |




**28. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal o oed ysgol oedd â Chynllun Addysg Personol o fewn 20 diwrnod ysgol ar ôl cael eu derbyn i ofal neu ar ôl dechrau mewn ysgol newydd.**

<u>Targed a bennwyd 70% – Yr hyn a gyflawnwyd 89.2%</u>

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 37 plentyn / person ifanc a oedd dros yr oedran statudol i ddechrau ysgol ac felly'n gymwys i gael Cynllun Addysg Personol.

- Roedd 33 (89.2%) o'r plant a phobl ifanc dros yr oedran statudol i ddechrau ysgol yn meddu ar Gynllun Addysg Personol cyfredol.
  - Mewn 9 (100.0%) adolygiad cofnodwyd bod y Cynllun Addysg Personol wedi'i gwblhau ymhen 20 diwrnod ysgol ar ôl cael eu derbyn i ofal neu o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl symud i ysgol newydd yn unol â'r gofynion.
  - Mewn 24 (85.7%) adolygiad cofnodwyd bod gan y person ifanc Gynllun Addysg Personol cyfredol.
  - Mewn 4 (14.3%) adolygiad cofnodwyd bod Cynllun Addysg Personol y person ifanc wedi dyddio, fodd bynnag roedd y Cynllun Addysg Personol wedi'i sefydlu ar gyfer pob un o'r 4 person ifanc hyn yn fuan wedi hynny.

***

- Roedd gan 10 (26.3%) o blant a phobl ifanc a oedd yn mynd i'r ysgol / coleg angen dysgu ychwanegol wedi'i gydnabod.

***

- Mewn 9 (24.3%) adolygiad daethpwyd i'r casgliad bod y plant / pobl ifanc a oedd yn mynd i'r ysgol / coleg yn tangyflawni o ran eu haddysg. Ym mhob un o'r 9 (100.0%) adolygiad cofnodwyd bod y bobl ifanc yn cael cymorth.

***

- Mewn 11 (91.7%) adolygiad nodwyd bod y ddarpariaeth addysg wedi'i sefydlu pan ddechreuodd y lleoliad.

- Mewn 1 (8.3%) adolygiad nodwyd nad oedd y ddarpariaeth addysg wedi'i sefydlu pan ddechreuodd y lleoliad.

- Nododd 1 adolygiad y bu cyfnod pan oedd y plentyn / person ifanc heb fod mewn addysg am gyfnod wrth aros am le mewn ysgol.

**29. Mesur Cenedlaethol 32: Canran y Plant sy'n Derbyn Gofal sydd wedi symud i ysgol arall, ac eithrio trefniadau pontio.**

<u>Targed a bennwyd 0% – Yr hyn a gyflawnwyd 0.0%</u>

- Mewn 0 (0.0%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn / person ifanc wedi symud i ysgol arall ac nad oedd yn symud yn sgil pontio, o gymharu â 4.8% yn y chwarter blaenorol.

**30. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a gafodd eu gwahardd o'r ysgol.**

<u>Targed a bennwyd 12% yn cael gwaharddiad dros dro – Yr hyn a gyflawnwyd 5.4%</u>
<u>Targed a bennwyd 1% yn cael gwaharddiad parhaol – Yr hyn a gyflawnwyd 0.0%</u>

- Mewn 2 adolygiad (54%) adroddwyd bod y person ifanc wedi'i wahardd o'r ysgol dros dro yn ystod y cyfnod adolygu. Mae hyn yn cymharu â 0.0% yn y chwarter blaenorol.

- Ni adroddwyd mewn unrhyw adolygiad (0.0%) fod y person ifanc wedi'i wahardd yn barhaol o'r ysgol, sy'n gyson â'r chwarter blaenorol.

- Cyfanswm y diwrnodau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yng Ngheredigion yn y chwarter hwn oedd 6.5 diwrnod.

- Ni chynhaliwyd unrhyw hybiau gofal plant yn ystod y chwarter hwn.

## ADRAN TRI

### YMGYNGHORI A CHYFRANOGI

**1. Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a oedd yn ddigon hen ac yn meddu ar ddigon o grebwyll fel bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gallu ymgynghori â hwy neu roeddent yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 43 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 17 adolygiad nad oedd y plant / pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i fod yn rhan o'r broses ymgynghori, er bod 3 o'r rhain wedi bod yn bresennol yn yr adolygiad.

- Cofnodwyd mewn 43 (100.0%) adolygiad fod ymgynghori wedi digwydd.

Dadansoddiad o'r ymgynghori
Bu 17 plentyn / person ifanc yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu drwy Teams.
Roedd 26 plentyn / person ifanc wedi cwblhau papurau ymgynghori a / neu roedd gweithwyr proffesiynol, rhieni, gofalwyr neu eiriolwyr wedi'u cynrychioli yno.

- Ni chysylltodd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn uniongyrchol ag unrhyw blentyn / person ifanc yn ystod y cyfnod adolygu tu hwnt i'r cyfarfod adolygu.

**2 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y plant a oedd yn gwybod am eu hawl i gael Gwasanaeth Eiriolaeth / Cynllun Ymwelydd Annibynnol.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 42 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 17 adolygiad nad oedd y plant / pobl ifanc a adolygwyd yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i gael gwybod am eu hawl i gael Eiriolwr / Cynllun Ymwelydd Annibynnol, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigyrau.

- Hysbyswyd pob un o'r 42 (100.0%) o blant / pobl ifanc am eu hawl i gael Eiriolwr / Cynllun Ymwelydd Annibynnol. Mae atgyfeiriad i'r gwasanaeth wedi cael ei wneud ar gyfer 40 o'r bobl ifanc hyn, a theimlwyd y byddai 1 person ifanc wedi ei chael hi'n anodd i ddeall ac roedd 1 person arall wedi gwrthod y cynnig. Cafodd 1 person ifanc arall a oedd yn iau na 5 mlwydd oed ei atgyfeirio hefyd i'r gwasanaeth.

**3 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y plant a gafodd wybod am y drefn gwyno.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 97.4%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 39 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 21 adolygiad nad oedd y plentyn / person ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll felly fe'u diystyriwyd o'r ffigyrau.

- Roedd 38 (97.4%) plentyn / person ifanc yn gwybod am y drefn gwyno, o gymharu â 94.7% yn y chwarter blaenorol.

- Roedd angen i'r Gweithiwr Cymdeithasol roi gwybod i 1 (2.6%) plentyn / person ifanc am y drefn gwyno.

**4 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y rhieni y bu i'r gweithiwr cymdeithasol ymgynghori â hwy cyn yr adolygiad neu a fu'n bresennol yn y cyfarfod adolygu.**

Targed a bennwyd 80% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 47 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 13 adolygiad nad oedd y rhieni yn rhan o'r broses adolygu statudol, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigyrau.

- Cwblhaodd 47 (100.0%) o rieni bapurau ymgynghori, neu roeddent wedi cwrdd neu siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol cyn a / neu ar ôl y cyfarfod adolygu, a / neu roeddent wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod adolygu eu hunain, a / neu roedd gweithwyr proffesiynol wedi'u cynrychioli yno.

Dadansoddiad o'r ymgynghori

Cafodd Papurau Ymgynghori eu hanfon ar gyfer pob un o'r adolygiadau; nodwyd mewn 1 adolygiad na chafodd 1 rhiant bapur ymgynghori oherwydd bod angen gwirio'r manylion cysylltu ac ni chafwyd eglurhad; mae'r mater wedi cael ei ddatrys bellach, ac ymgynghorwyd â'r rhiant arall.
Mewn 34 adolygiad cadarnhawyd bod y rhieni'n bresennol, neu wedi siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol dros y ffôn cyn a / neu ar ôl yr adolygiad.

**5 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y gofalwyr maeth y bu i'r gweithiwr cymdeithasol ymgynghori â hwy neu a fu'n bresennol yng nghyfarfod adolygu'r plentyn.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 49 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 11 adolygiad bod y plentyn wedi'i leoli â rhiant neu roedd yn byw'n annibynnol, felly diystyriwyd yr adolygiadau hyn yn y ffigyrau.

- Cwblhaodd 49 (100.0%) o ofalwyr maeth bapurau ymgynghori a / neu buont yn bresennol yn yr adolygiadau yn ystod y cyfnod hwn.

**6 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y cynrychiolwyr iechyd a fu'n bresennol mewn adolygiad neu a anfonodd adroddiad.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 90.0%

- Mewn 54 (90.0%) adolygiad cadarnhawyd bod gwybodaeth am iechyd ar gael ar gyfer y cyfarfod.

**7. Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y cynrychiolwyr ysgol a fu'n bresennol mewn adolygiad neu a anfonodd adroddiad.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

- Mewn 47 (100.0%) adolygiad roedd rhywun o'r ysgol yn bresennol neu wedi darparu adroddiad ysgrifenedig, sy'n gyson â'r chwarter blaenorol.

**8. Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y Dogfennau Adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal a gwblhaodd y Gweithiwr Cymdeithasol cyn yr adolygiad.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 68.3%

- Mewn 41 (68.3%) adolygiad cadarnhawyd bod y gweithiwr cymdeithasol wedi cwblhau'r ddogfen adolygu cyn y cyfarfod adolygu, o gymharu ag 80.5% yn y chwarter blaenorol.

- Mewn 19 (31.7%) adolygiad cadarnhawyd nad oedd y ddogfen adolygu wedi'i chwblhau gan y gweithiwr cymdeithasol cyn yr adolygiad; ac nid yw 4 o'r dogfennau hyn wedi'u cwblhau.

**Sylw**: Mae'r perfformiad o ran cwblhau gwaith papur ynghylch Plant sy'n Derbyn Gofal mewn modd amserol yn parhau i beri pryder. Er bod y Swyddog Adolygu Annibynnol yn deall y trafferthion y mae'r timoedd Gwaith Cymdeithasol yn eu hwynebu yn y cyfnod digynsail hwn, mae'n rhaid i arfer da barhau a rhaid iddo barhau i fod yn flaenoriaeth.

## ADRAN PEDWAR:
## PROTOCOL DATRYS PROBLEMAU

Ni weithredodd y Swyddog Adolygu Annibynnol y Protocol Datrys Problemau ar gyfer unrhyw blentyn yn ystod y cyfnod hwn.

Oherwydd problemau capasiti, ni fu modd cwblhau'r adolygiadau canol cyfnod y chwarter hwn.

## ADRAN PUMP
## GWERTHUSO

Nid oedd yr wybodaeth hon ar gael ar gyfer y chwarter hwn.

## ADRAN CHWECH

## CYNLLUNIAU LLWYBR

### Ar gyfer pobl dros 16 oed a heb fod yn Blant sy'n Derbyn Gofal / pobl dros 18 oed sydd wedi gadael gofal

Cynhaliwyd 20 adolygiad o Gynlluniau Llwybr yn ystod y chwarter hwn.

1. **Dangosydd Perfformiad: Canran yr Adolygiadau o Gynlluniau Llwybr a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser.**

   - Cynhaliwyd 16 (80.0%) adolygiad o Gynlluniau Llwybr o fewn y terfynau amser, o gymharu â 100% yn y chwarter blaenorol.

   - Cynhaliwyd 4 (20.0%) adolygiad o Gynlluniau Llwybr y tu hwnt i'r amserlenni. Y rhesymau a gofnodwyd oedd yn achos 2 adolygiad rhoddwyd cyfle i'r person ifanc fynychu, ac yn achos 1 adolygiad arall rhoddwyd cyfle i'r person ifanc gael cymorth i gael adolygiad rhithwir. Mae angen cynnal asesiad ar gyfer 1 person ifanc arall er mwyn gallu rhoi'r cymorth priodol yn ei le.

2. **Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc ag Ymgynghorydd Personol / Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig.**

   - Ym mhob un o'r 20 (100%) adolygiad nodwyd bod gan yr holl bobl ifanc Ymgynghorydd Personol a / neu Weithiwr Cymdeithasol dynodedig.

3. **Dangosydd Perfformiad: Canran y Cofnodion Adolygu Cynlluniau Llwybr a oedd wedi'u cwblhau erbyn y cyfarfod.**

   - Roedd y cofnod adolygu wedi'i gwblhau erbyn y cyfarfod ar gyfer 18 (90%) o adolygiadau Cynlluniau Llwybr, o gymharu ag 81% yn y chwarter blaenorol.

   - Mewn 2 (10%) adolygiad cofnodwyd nad oedd y cofnod adolygu wedi'i gwblhau cyn y cyfarfod.

4. **Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer y Cyfarfod Adolygu.**

   - Cadarnhawyd mewn 19 (95%) adolygiad y bu'r bobl ifanc yn bresennol yn y cyfarfod adolygu a / neu fod rhywun wedi'u cynrychioli yno.

   - Cofnodwyd mewn 1 (5%) adolygiad nad oedd neb wedi cynrychioli barn y bobl ifanc yn y cyfarfod.

5. **Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc a oedd yn bresennol yn eu Cyfarfod Adolygu.**

   - Mewn 10 (50%) adolygiad cofnodwyd y bu'r person ifanc yn bresennol yn y cyfarfod adolygu.

   - Mewn 10 (50%) adolygiad cofnodwyd na fu'r person ifanc yn bresennol yn y cyfarfod adolygu.

6. **Dangosydd Perfformiad: Canran y Cynlluniau Llwybr a fodlonai anghenion y bobl ifanc.**

   - Mewn 19 (95%) adolygiad cadarnhawyd bod y Cynllun Llwybr yn bodloni anghenion y person ifanc dan sylw.

   - Mewn 1 (5%) adolygiad cofnodwyd na wyddys a oedd y Cynllun Llwybr yn bodloni anghenion y person ifanc dan sylw neu beidio.

7. **Dangosydd Perfformiad: Canran y Cynlluniau Llwybr a ddiweddarwyd cyn gadael gofal / troi'n ddeunaw oed.**

   - Cadarnhawyd mewn 4 (100%) adolygiad fod y Cynllun Llwybr wedi'i ddiweddaru cyn i'r person ifanc adael gofal / troi'n ddeunaw oed.

8. **Gwerthuso – Nid oedd yr wybodaeth hon ar gael ar gyfer y chwarter hwn.**

## ADRAN SAITH

## PRESWYL (HEBLAW AM BLANT SY'N DERBYN GOFAL)

Ni chynhaliwyd unrhyw adolygiadau o leoliadau preswyl ar gyfer plant nad ydynt yn Blant sy'n Derbyn Gofal yn ystod y cyfnod dan sylw.

***

## ADRAN WYTH

## SEIBIANNAU RHEOLAIDD

Ni chynhaliwyd unrhyw adolygiadau o seibiannau rheolaidd yn ystod y chwarter hwn.

***

## ADRAN NAW

## SEIBIANNAU BYR

Ni chynhaliwyd unrhyw adolygiadau o seibiannau byr yn ystod y cyfnod dan sylw.

***

## ADRAN DEG

## ADOLYGIADAU O OFALWYR MAETH

Cynhaliwyd 13 adolygiad o Ofalwyr Maeth yn ystod y cyfnod dan sylw.

**1 Dangosydd Perfformiad: Nifer a chanran yr Adolygiadau o Ofalwyr Maeth a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser statudol.**

- Cynhaliwyd 12 (92%) adolygiad o Ofalwyr Maeth o fewn y terfynau amser yn ystod y chwarter hwn.
- Cynhaliwyd 1 (8%) y tu hwnt i'r terfynau amser gofynnol yn ystod y cyfnod hwn; cofnodwyd mai'r rheswm am hyn oedd argaeledd Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Goruchwylio a Chadeirydd Annibynnol.

**2 Dangosydd Perfformiad: Canran yr ymgynghoriadau a dderbyniwyd oddi wrth y Gweithiwr Cymdeithasol Plant sy'n Derbyn Gofal.**

- Darparodd y Gweithiwr Cymdeithasol Plant sy'n Derbyn Gofal ymgynghoriad ar gyfer pob un o'r 13 (100.0%) adolygiad.

**3 Dangosydd Perfformiad: Canran yr ymgynghoriadau a dderbyniwyd oddi wrth blant.**

- Cofnodwyd mewn 6 (46%) adolygiad yr ymgynghorwyd â'r plant.

**4 Dangosydd Perfformiad: Canran yr Adroddiadau gan Weithwyr Cymdeithasol sy'n Goruchwylio a dderbyniwyd.**

- Derbyniwyd adroddiad gan y Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Goruchwylio ar gyfer pob un o'r 13 (100%) adolygiad.

**5 Dangosydd Perfformiad: Canran yr Adolygiadau oedd wedi gallu gwneud yr hyn y bwriadwyd iddynt wneud.**

- Cadarnhawyd bod pob un o'r 13 (100.0%) adolygiad wedi gallu gwneud yr hyn y bwriadwyd iddynt wneud.

**6 Dangosydd Perfformiad: Canran y lefel o fodlonrwydd o ran y gwasanaeth a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Lleoli Teuluoedd.**

- Nododd 5 (38%) adolygiad fod y Gofalwyr Maeth yn 'fodlon iawn' ar y gwasanaeth a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Lleoli Teuluoedd.

- Nododd 8 (62%) adolygiad fod y Gofalwyr Maeth yn 'fodlon' ar y gwasanaeth a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Lleoli Teuluoedd.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 19

By virtue of paragraph(s) 14 of Part 1 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol